# CYNNWYS

Rhaglen ..... 2
Eitem 4 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf ..... 7
Eitem 5 - Contractau Mudiadau Trydydd Sector ..... 15
Eitem 6 - Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol 13-2-14 AGGCC ..... 17
Atodiad 1 - Adolygiad Blynyddol AGGCC ..... 22
Atodiad 2 - Crynodeb o gamau ymateb y Cyngor i Adolygiad AGGCC ..... 36
Eitem 8 - Adroddiad ar Ofal Dementia ..... 42
Eitem 9 - Adroddiad Awtistiaeth ..... 52
Eitem 10 - Datganiad o Fwriad - Darparu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig ..... 58
Atodiad 1 - Crynodeb Gweithredol Datganiad o Fwriad Gogledd Cymru - Iteriad Cyntaf ..... 62
Atodiad 2 - Datganiad o Fwriad Gogledd Cymru - Iteriad Cytnaf ..... 64
Eitem 11 - Ymchwiliad Craffu - Addysg Gymraeg ..... 92
Atodiad 1 - Briff Ymchwiliad Craffu - Addysg Gymraeg ..... 93

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU

# SERVICES SCRUTINY COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.00 a.m. DYDD IAU, 13 CHWEFROR 2014**

**10.00 a.m. THURSDAY, 13 FEBRUARY 2014**

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA**

**SWYDDFEYDD Y CYNGOR**

**CAERNARFON**

*** NODWCH Y LLEOLIAD, O.G.Y.DD. / PLEASE NOTE THE VENUE ***

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GLYNDA O'BRIEN**

**01341 424 301**

**: GlyndaOBrien@gwynedd.gov.uk**

Dosbarthwyd: 05.02.13

## PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU
## SERVICES SCRUTINY COMMITTEE

**AELODAETH / MEMBERSHIP (18)**

### Plaid Cymru (9)

Y Cynghorwyr / Councillors

Huw Edwards
Alan Jones Evans
Chris Hughes
Elin W. Jones
Linda Ann Wyn Jones
Liz Saville Roberts
Dyfrig Siencyn
Ann Williams
Hefin Williams

### Annibynnol / Independent (4)

Y Cynghorwyr / Councillors

Eryl Jones-Williams
Beth Lawton
Dewi Owen
Eirwyn Williams

### Llais Gwynedd (4)

Alwyn Gruffydd
Llywarch Bowen Jones
Peter Read
Dilwyn Lloyd

### Llafur / Labour (1)

Y Cynghorydd / Councillor Sion Wyn Jones

### Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor / Chairman and Vice-Chairman of the Council – Y Cynghorwyr / Councillors Huw Edwards a / and Dewi Owen

**AELODAU CYFETHOLEDIG / CO-OPTED MEMBERS:**

Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig /
With a vote on education matters only

Y Parchedig / Reverend Robert Townsend
Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales

Mrs Rita Price
Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church

Mr Dylan Davies
Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Meirionnydd /
Representative for Meirionnydd Parent Governors

(Disgwyl am enwebiad / Awaiting Nomination)
Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Arfon /
Representative for Arfon Parent Governors

Ms Rhian Roberts
Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Dwyfor /
Representative for Dwyfor Parent Governors

**R H A G L E N**

***Noder – amcan yn unig yw'r amseroedd a nodir ar y rhaglen***

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2013.

(Copi'n amgaeedig – papur **gwyn)**

**5. CONTRACTAU MUDIADAU TRYDYDD SECTOR**
***Aelod Cabinet: Y Cyng. R H Wyn Williams***

10.00 am – 10.30 am

I ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Gofal yn diweddaru'r pwyllgor ar ddatblygiadau'r uchod.

(Copi'n amgaeedig – papur **melyn**)

**6. ADOLYGIAD A GWERTHUSIAD O BERFFORMIAD BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2012/13 - AROLYGIAETH GOFAL A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYMRU (AGGCC)**
***Aelod Cabinet: Y Cyng. R H Wyn Williams***

10.30 am – 11.15 am

I ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Gofal yn cyfarch ymatebion y Gwasanaethau Cymdeithasol i Arolygiad AGGCC o'r meysydd hynny sydd angen eu gwella i'r dyfodol.

(Copi'n amgaeedig – papur **pinc**

**7. SWYDDOGAETH Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** — 11.15 am – 11.30 am

I dderbyn eglurhad gan y Prif Weithredwr ar gyfrifoldebau statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol.

**8. GOFAL DEMENTIA** — 11.30am – 12.15 pm

***Aelod Cabinet: Y Cyng. R H Wyn Williams***

I ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Gofal ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig – papur **hufen)**

**9. AWTISTIAETH** — 12.15am – 1.00 pm

***Aelod Cabinet: Y Cyng. R H Wyn Williams***

(a) I dderbyn cyflwyniad gan Mr David Oliver, Gweithiwr Allweddol Awtistiaeth, ar gyflwr awtistiaeth.

(b) I ystyried adroddiad gan yr Aelod Cabinet Gofal am y ddarpariaeth ar gyfer awtistiaeth.

(Copi'n amgaeedig – papur **gwyrdd)**

**10. DATGANIAD O FWRIAD – DARPARU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL INTEGREDIG** — 1.00 pm – 1.30 pm

***Aelod Cabinet: Y Cyng. R H Wyn Williams***

I ystyried adroddiad gan yr Aelod Cabinet Gofal ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig – papur **lelog**)

**11. YMCHWILIAD CRAFFU – ADDYSG GYMRAEG** — 1.30 pm

***Aelod Cabinet: Y Cyng. Sian Gwenllian***

(a) I sefydlu Ymchwiliad Craffu Addysg ac ystyried briff drafft i ymchwilio i ddefnydd y Gymraeg yn ysgolion y Sir.

(Copi'n amgaeedig – papur **eog)**

(b) I ethol Aelodau i fod yn rhan o'r Ymchwiliad Craffu Addysg uchod.

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU 28.11.13

**Yn bresennol**: **Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn – Cadeirydd**

Y Cynghorwyr: Huw Edwards, Elin Walker Jones, Siôn Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, Dewi Owen, Liz Saville Roberts, Ann Williams, Eirwyn Williams a Hefin Williams.

**Eraill a wahoddwyd:** Y Cyng. Siân Gwenllian (Aelod Cabinet Addysg), Y Cyng. Paul Thomas (Aelod Cabinet Gwynedd Iach), Y Cyng. John Wyn Williams (Aelod Cabinet Tai), Y Cyng. R H Wyn Williams (Aelod Cabinet Gofal).

**Hefyd yn Bresennol:** Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Nia Elis-Williams (Uwch Reolwr Busnes/Cefnogaeth Gweithredol), Marian Parry Hughes (Uwch Reolwr Gwasanaethau Plant), Ian Jones (Uwch Reolwr Datblygol), Arwel Owen (Uwch Rheolwr Tai), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu),

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Peter Read, Linda Ann Wyn Jones, Llywarch Bowen Jones, Parchedig Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru), Dilwyn Ellis Hughes (UCAC)

## 1. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i'r Cynghorydd Dilwyn Lloyd i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Craffu hwn.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

(a) Datganodd y Cynghorydd Eryl Jones Williams fuddiant personol yn Eitem 7 – Gweithrediad a Gwariant Cynlluniau Grant Addasiadau i Bobl ag anableddau oherwydd bod ei wraig yn anabl ac y byddai'n gadael y Siambr pe byddir yn trafod materion yn ymwneud â'r buddiant hwnnw.

(b) Datganodd y Cynghorydd Dilwyn Lloyd fuddiant personol yn Eitem 7 – Gweithrediad a Gwariant Cynlluniau Grant Addasiadau i Bobl ag anableddau oherwydd ei fod wedi cofrestru'n anabl ac y byddai'n gadael y Siambr pe byddir yn trafod materion yn ymwneud â'r buddiant hwnnw.

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2013 fel rhai cywir yn ddarostyngedig i ychwanegu enw Mr Dilwyn Ellis Hughes (cynrychiolydd Undeb Athrawon) i'r rhestr o'r rhai oedd yn bresennol.

**4. RHIANTU CORFFORAETHOL**

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg mewn ymateb i'r cwestiynau isod o ddiddordeb i'r Aelodau ar waith yn gysylltiol â rhiantu corfforaethol y Cyngor:

(a) Nifer y plant mae'r Cyngor yn gweithredu fel rhiant corfforaethol iddynt a'r trefniadau ar gyfer ysgwyddo'r cyfrifoldeb yma
(b) Sut mae trefniadau'r Cyngor yn cyd-fynd â rhestr Wirio Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer rôl rhiant corfforaethol
(c) Trefniadau cychwyn trafodaeth a phlant mewn gofal ac ymateb i'w safbwyntiau
(d) Trefniadau i rannu cyfrifoldebau ymarferol ar draws aelodau a swyddogion y Cyngor
(e) Aelodaeth, cyfrifoldebau a threfniadau'r Panel Rhiant Corfforaethol gan roddi sylw i ymarfer da
(f) Mesur llwyddiant y Cyngor fel rhiant corfforaethol – yr asesiad cyfredol o'r gwaith.

Rhoddwyd cyfle i Aelodau gwestiynu cynnwys yr adroddiad ac fe ymatebodd y swyddogion iddynt fel a ganlyn:

(i) eglurwyd ei bod yn her i'r Gwasanaeth recriwtio unigolion ar gyfer gofal maeth ond sicrhawyd y rhoddir pwyslais ar yr angen i fod yn ddwyieithog wrth hysbysebu.
(ii) eglurwyd bod cynllun strategol y Cyngor yn rhoi sylw priodol i hyn er mwyn ymestyn lleoliadau a phrofiadau gwaith ac fe gydweithir yn agos gyda Gyrfa Cymru a Grŵp Llandrillo Menai i gael cyfleoedd i bobl ifanc. Hyderir hefyd y bydd cyflogwyr eraill yn awyddus i gynnig cyfleoedd prentisiaeth i bobl ifanc a deallir bod swyddog o Yrfa Cymru yn cyd-weithio gyda Thîm Gofal Plant er mwyn cyd-gynllunio fel bo modd ymateb i anghenion y plant.
(iii) Mae'r adolygiad "Dechrau i'r Diwedd" wedi pwysleisio pwysigrwydd ymyrryd ynghynt ym mywydau plant anghenus fel y gellir osgoi iddynt orfod cael eu cyfeirio i ofal preswyl. Fodd bynnag nodwyd ei bod yn anorfod i rai plant orfod mynd i ofal preswyl oherwydd eu hamgylchiadau ac anghenion dwys. Bwriedir adrodd i'r Cabinet gydag argymhellion yn fuan iawn yn y Flwyddyn Newydd.
(iv) Sicrhawyd bod modd i gleientiaid a rhieni maeth gysylltu â thîm o Weithwyr Cymdeithasol sydd yn gweithio tu allan i oriau gwaith ar draws Gwynedd a Môn. Mewn ymateb i ymholiad pellach ynglŷn â gofal parhad pan fydd plentyn yn symud allan o ofal i fod yn annibynnol, eglurwyd bod gan y Gwasanaeth gynllun llwybr statudol ar eu cyfer.
(v) Mai grŵp o bobl ifanc mewn gofal yw "Dweud eich Dweud" i glywed llais y bobl ifanc mewn gofal sydd yn cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn, wedi ei sefydlu ers oddeutu deng mlynedd yng Ngwynedd, ac yn cael ei hwyluso gan y Gwasanaeth Eiriolaeth (National Youth Advocacy Service). Nodwyd bod yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Plant yn mynychu'r cyfarfodydd hyn ynghyd ag Aelodau o'r Cabinet.
(vi) Nododd sawl Aelod eu bod yn gyfarfodydd diddorol dros ben a'r hyn sydd yn sefyll allan ydoedd pa mor gefnogol oedd y plant o'i gilydd a phwysigrwydd i gryfhau'r berthynas fel nad ydynt yn teimlo'n ynysig wrth orfod symud o un lle i'r llall. Braf ydoedd nodi ymhellach bod cyfeiriad y Cyngor yn rhoi pwyslais ar wrando ar lais y plentyn ac yn y cyfarfod diwethaf o'r Panel roedd pwyslais ar gasglu data mwy ansoddol yn hytrach na meintiol yn unig Croesawyd y drafodaeth yma a nodwyd yr angen i fod yn greadigolwrth greu cyfleoedd i blant lwyddo.

(vii) Dymunai Aelod weld llawer iawn mwy o Aelodau yn mynychu'r hyfforddiant.

(viii) Eglurwyd bod y Gwasanaeth Eiriolaeth yn darparu gwasanaeth i'r chwe awdurdod ar draws Gogledd Cymru gyda'r gyllideb yn £50,000 y flwyddyn ac yn statudol i'r cohort yma o blant sydd yn cynnwys plant mewn angen, plant mewn gofal a gofalwyr ifanc.

(ix) O ran dyfodol y Panel Rhiant Corfforaethol yn ehangu ar draws awdurdodau, atgoffodd yr Aelod Cabinet Addysg o'r gwaith sydd yn mynd rhagddo gan y Comisiynydd Syr Paul Williams ar ad-drefnu llywodraeth leol ac integreiddio'r gwasanaeth iechyd a gwasanaeth cymdeithasol.

(x) gofynnwyd beth mae'r Gwasanaeth yn ei wneud i liniaru'r teimladau o annhegwch bobl ifanc. Mewn ymateb, nodwyd fel rhieni corfforaethol bod rhaid edrych ar y rôl a cheisio efelychu rôl rhieni go iawn. Cyfeiriwyd hefyd at yr angen i ychwanegu dadansoddiadau mwy ansoddol a'r posibilrwydd o gymryd cyfrifoldeb uniongyrchol am gohort yma o blant. Cyfeiriwyd at enghraifft o brosiect cenedlaethol mae'r Gwasanaeth yn rhan ohono "Pan dwi'n barod" lle gall y bobl ifanc barhau yn y lleoliad ar ôl iddynt gyrraedd 18 oed os nad ydynt yn barod i symud ymlaen ac roedd tri unigolyn wedi dewis aros lle maent. Cydnabuwyd ei fod yn anodd ar adegau i'r bobl ifanc fedru cael mynediad at gyrsiau os oes ganddynt droseddau yn eu herbyn. Sicrhawyd bod y Gwasanaeth yn ymdrin â phob achos yn unigol drwy drafod hefo'r Colegau a'r cam nesaf ydoedd iddynt weld y darlun mawr fel eu bod yn gweld y rhesymau pam bod y bobl ifanc hyn wedi troseddu.

(xi) O safbwynt llunio strategaeth gorfforaethol a'r broses, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (ITJ) y byddir yn cyflwyno strategaeth i'r Cyngor llawn ym mis Ebrill 2014 a fydd yn gosod safonau clir ar gyfer y Gwasanaeth a nodwyd pwysigrwydd deall persbectif y bobl ifanc ynglŷn â gwasanaethau cyhoeddus yr ardal. Fe fydd sesiynau yn cael eu cynnal gyda phobl ifanc maes o law fel bo modd deall eu hanghenion i'w hymgorffori yn y strategaeth a sicrhau perchnogaeth gorfforaethol ar draws y Cyngor.

(xii) Er gwybodaeth, nodwyd bod Adroddiad Blynyddol y Panel Rhiant Corfforaethol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 5 Rhagfyr ac awgrymwyd y byddai'n gyfle i nodi siom ynglŷn â lefel presenoldeb aelodau mewn hyfforddiant yn y flwyddyn ddiwethaf sef 24. Awgrymwyd ymhellach gwneud defnydd o'r Fforymau Ardal i gynnal hyfforddiant a fyddai efallai yn ennyn mwy o bresenoldeb.

(xiii) Dymuniad y Pwyllgor Craffu ydoedd gwybod a yw'r Cyngor yn llwyddo yn y maes hwn a sut y mesurir y llwyddiant? Mewn ymateb, roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (AME) o'r farn bod trafodaethau yn y Paneli wedi bod yn eithaf agored a bod angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod y bobl ifanc yn hapus gyda'r gwasanaeth. Ychwanegwyd bod angen bod llawer iawn agosach at y bobl ifanc i ganfod be sydd yn llwyddo a be sydd ddim er mwyn canfod beth yw ansawdd y gwasanaeth a gynigir. Cadarnhawyd bod y Gwasanaeth ar siwrnai ond sicrhawyd bod ganddynt lwybr penodol a chlir erbyn hyn i symud ymlaen ac y gellir ymateb i'r cwestiwn uchod llawer iawn gwell ymhen blwyddyn. Nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaethau Plant bod gwybodaeth ar gael ynglŷn â llwyddiannau canlyniadau addysgol plant mewn gofal a.y.b. ond y byddir yn gallu derbyn negeseuon a llunio cynllun gweithredu yn deillio o ddau archwiliad a wyneba'r Gwasanaeth yn fuan gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) sef ar 9 Rhagfyr 2013 ar y Gwasanaeth Maethu a'r llall rhwng Ionawr ac Ebrill 2014 ar ansawdd bywyd pobl ifanc mewn gofal

(xiv) Mewn ymateb i bryder Aelod ynglŷn â llety ôl-ofal a'r angen i wneud mwy ar gyfer sicrhau cartrefi addas i bobl ifanc mewn gofal, cyfeiriodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Plant at broblemau hanesyddol a'r tueddiad yn y gorffennol i leoli pobl ifanc mewn un lle a oedd o ganlyniad yn arwain at broblemau ymddygiad anghymdeithasol. Arweiniodd gwaith ymchwil gan berson annibynnol at fframwaith ac aethpwyd allan i gontract gyda mwy o ddarparwyr yn y maes oedd

yn gallu cynnig gwasanaeth gwell. Nodwyd bod gan y Gwasanaeth gyfrifoldeb statudol dros bobl ifanc sydd yn gadael gofal ond ar sail wirfoddol yn unig. Sicrhawyd bod y Gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda Gyrfa Cymru, colegau addysg bellach, GISDA a'r gwasanaeth iechyd er mwyn sicrhau ansawdd bywyd gwell i'r bobl ifanc hyn ac yn ceisio targedu a rhoi cefnogaeth sydd yn addas ar gyfer eu hanghenion.

(xv) Bod disgwyliad ar golegau addysg bellach i ganfod lle mae myfyrwyr wedi cyrraedd yn eu bywydau ac oni fyddai'n syniad fel cam ar gyfer mesur llwyddiant ac fel dyhead y Cyngor yn ei rôl fel rhiant corfforaethol i weld lle mae'r plant mewn gofal wedi cyrraedd

(xvi) Gwelir yn y ddwy flynedd diwethaf bod plant iau yn cael eu cyfeirio at y Gwasanaeth a'i fod yn gymharol rhwydd lleoli babanod ifanc gan fod cyfle iddynt gael eu mabwysiadu ond o ran plant hyn roedd yn her aruthrol i'r Cyngor fel rhiant corfforaethol i gynnig lleoliadau.

(xvii) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â rhesymau pam bod plant yn cael eu cyfeirio yn ifancach, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaethau Plant ei bod yn anodd pennu un rheswm penodol ond tueddiad ydoedd i'r plant fod wedi eu cyfeirio oherwydd anafiadau, ymddygiad rhywiol anaddas ac alcohol a chyffuriau.

**Penderfynwyd: Derbyn nodi cynnwys yr adroddiad ynghyd â'r sylwadau a wnaed uchod.**

## 5. ADOLYGIAD DIGONEDD CANOLFANNAU HAMDDEN

Cyflwynwyd diweddariad ar adolygiad digonedd Canolfannau Hamdden Gwynedd a gwblhawyd gan gwmni arbenigol allanol "Just Solutions".

Gosododd yr Aelod Cabinet Gwynedd Iach y cefndir drwy gyfeirio at bwrpas yr adolygiad, sef i hysbysu'r Cyngor o'r ddarpariaeth angenrheidiol leol er mwyn cyfarch anghenion y dyfodol, adnabod cynlluniau posib ar gyfer gwella, rhesymoli a datblygu; ynghyd â sicrhau trefniadau rheoli gorau posib er mwyn manteisio ar yr agenda gwella a dymuniadau pobl Gwynedd ar gyfer y cyfleusterau a adnabuwyd yn gynharach yn yr Adolygiad. Croesawyd Mr Howard Tolley a Ms Sarah Green o Gwmni "Just Solutions" i'r cyfarfod gan nodi bod y ddau yn brofiadol yn y maes ac wedi gweithio gyda sawl awdurdod ar draws Gogledd Cymru. Atgoffodd yr Aelod Cabinet bod yr adolygiad wedi bod yn mynd rhagddo ers rhai blynyddoedd bellach a chyfeiriodd at Atodiad 1 ynghlwm i'r adroddiad sef crynodeb o adolygiad Just Solutions. Pwysleisiodd bod angen pwyso a mesur beth sy'n bosibl i'r gwasanaeth ei gyflawni o fewn yr her a'r goblygiadau ariannol sydd yn wynebu'r Cyngor. Ymddiheuriwyd nad oedd wedi bod yn bosibl cyflwyno adroddiad cyflawn Just Solutions ger bron y Pwyllgor oherwydd nad oedd y cyfieithiad yn barod. Bwriad yr Aelod Cabinet ydoedd cyflwyno'r adroddiad cyflawn i'r Fforymau Ardal yn ddwyieithog fel bo modd cynnal trafodaethau lleol ynglŷn â'r cynnwys ac wedi hynny llunio cynllun gweithredu.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau unigol:

(a) ymddengys bod y Cyngor yn cynorthwyo'r Gwasanaeth Iechyd ac oni ddylai'r Gwasanaeth Iechyd gyfrannu tuag at y costau o ystyried bod Llywodraeth Cymru yn pwysleisio'r angen iddynt gydweithio gydag awdurdodau?

Mewn ymateb, esboniwyd bod Gwasanaeth y Cyngor yn gweithio'n glos gyda Bwrdd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn symud y gwasanaeth i greu diwylliant o wella iechyd a chadw pobl mor iach â phosibl i'w galluogi i fedru byw yn eu

cartrefi eu hunain cyn hired â phosibl yn hytrach na gorfod symud i ofal preswyl. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod angen ystyried camau ar gyfer y tymor byr hefyd a bod yr adroddiad ger bron yn cyfarch yr anghenion hynny.

(b) bod syniadau diddorol iawn o fewn cynnwys crynodeb yr adolygiad ynglŷn â modelau i'w gweithredu'n lleol.

(c) gofynnwyd am eglurhad ynglŷn â'r argymhelliad y dylid rhoi ystyriaeth bellach i leoli hamdden yn y Gwasanaeth / Adran gywir.

Mewn ymateb, esboniodd un o'r ymgynghorwyr mai penderfyniad y Cyngor yn y pen draw fyddai lleoli hamdden mewn gwasanaeth / adran gywir a phwysleisiwyd mai pwrpas yr adroddiad ydoedd canfod yr egwyddor o gynnal canolfannau hamdden ac i ysgogi pobl ifanc i ymgymryd â gweithgareddau corfforol boed hyn mewn canolfannau hamdden neu unrhyw weithgaredd awyr agored. Er mwyn cynnig a chynnal y gwasanaeth hamdden roedd yn anorfod cael ymagwedd gymunedol ar y cyd fel bo modd cael gwell cynnig i'r cwsmer yn ogystal â mwy o amrywiaeth. Nodwyd pwysigrwydd i uno gweithgareddau nid yn angenrheidiol drwy strwythur ond yn y modd y cynigir darpariaeth i gymunedau.

(ch) pryder yn y syniad o symud llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, a.y.b. oherwydd y byddai'n anoddach i bobl eu cyrraedd.

Mewn ymateb, cydnabuwyd bod y pwynt uchod yn ddiddorol ac y byddai'n destun trafodaeth i'r Cabinet maes o law. Teimlai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai'n bechod i roi gormod o bwyslais ar strwythurau oherwydd bod y Cyngor yn gorfforaethol yn edrych ar draws y gwasanaethau ac ni ddylai 'run gwasanaeth ystyried ei hun mewn unigedd. Pa bynnag wasanaeth fyddai'n gyfrifol am y maes y peth pwysicaf ydoedd cydweithio a darparu'r gweithgareddau cywir mewn modd effeithiol. Dylid canolbwyntio ar y deilliannau ac nid ffiniau'r strwythurau o fewn y Gwasanaethau / Adrannau. Gwelir yn barod bod rhai Canolfannau Hamdden yn cynnig darpariaeth ar gyfer yr ieuenctid, cylchoedd meithrin, canolfannau twristiaeth, a.y.b. ond yn sicr gellir cynnig mwy o gyfleoedd o'r fath.

(d) mai nod Cyngor Gwynedd ydoedd gwella ansawdd iechyd y cyhoedd ond yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, gofynnwyd a ddylai'r Cyngor edrych ar hysbysebu'r Canolfannau Hamdden a chynnig disgownt i staff y Cyngor i'w defnyddio a fyddai yn ei dro yn arbed colli swyddi.

Mewn ymateb, ni ragwelai'r ymgynghorwyr y byddai cynnig disgownt i'r staff yn gwneud gwahaniaeth enfawr i fusnes y Canolfannau Hamdden ond yr hyn awgrymai ydoedd i'r Cyngor gysylltu â'r staff i hysbysebu gweithgareddau yn y Canolfannau Hamdden drwy slip cyflogau, Penaethiaid, yn ogystal â chysylltu â Phrifysgolion, Colegau addysg bellach, cyflogwyr yr ardal oherwydd teimlwyd bod cyswllt yn werthfawr.

Cyfeiriodd yr ymgynghorwyr at enghreifftiau o gymunedau o fewn Gwynedd gydag oddeutu saith o glybiau gwahanol o fewn yr un dref ac awgrymwyd y dylid cael dealltwriaeth o anghenion y cymunedau ac o ganlyniad y gellir cynnig darpariaeth wahanol a fyddai'n creu arbedion. Roedd yn bwysig cydweithio gyda'r sector wirfoddol ac y dylid cymryd i ystyriaeth a chofio bod pob cymuned yn wahanol o safbwynt eu hanghenion.

(dd) bod mudiadau gwirfoddol yn lleihau o fewn cymunedau.

Mewn ymateb, cydnabuwyd bod hyn yn wir ond wedi dweud hynny bod gwaith gwerthfawr yn cael ei wneud gan fudiadau gwirfoddol. Byddai cydweithio â gwirfoddolwyr ac yn arbennig rhieni pobl ifanc sydd yn greiddiol i unrhyw gymuned. Roeddynt yn ymwybodol drwy gydweithio gyda mudiadau chwaraeon bod gwaith clodwiw yn digwydd mewn ysgolion ym maes chwaraeon ac y gellir cynorthwyo i hybu hyn yn well drwy gydweithio gyda rhieni, a.y.b. Rôl y Cyngor ydoedd cefnogi'r sector wirfoddol a'r pwynt allweddol ydoedd sut y gellir eu cynorthwyo i gynnig y ddarpariaeth yn well a hawdd. Ni ellir gwneud hyn oni bai y gwneir newidiadau sylfaenol.

(e) nodwyd pwysigrwydd i gysylltu a thrafod gyda chlybiau lleol o fewn y cymunedau i ganfod beth y gallent gyfrannu ar gyfer rhedeg canolfannau hamdden.

Cytunai'r ymgynghorwyr gyda'r sylw uchod a'i fod yn greiddiol i'r Cyngor gydweithio gyda chlybiau gwirfoddol a chynnig cefnogaeth iddynt fedru ehangu.

(f) gofynnwyd a oes cyfle i farchnata adnoddau ysgolion megis caeau chwarae, campfeydd, neuaddau, ar gyfer defnydd tu allan i oriau ysgol.

Mewn ymateb, mynegodd yr ymgynghorwyr bod gweithredu'n gymunedol yn greiddiol ar gyfer rhannu gweledigaeth a'i fod yn llawer iawn haws mewn cymunedau gwledig a'u cael i gydweithio. Roedd angen ail-strwythuro'r gwasanaeth a gynigir.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn, nodi a diolch i'r Aelod Cabinet a'r ymgynghorwyr am yr adroddiad.**

**(b) Cefnogi bwriad yr Aelod Cabinet Gwynedd Iach i gyflwyno'r adroddiad cyflawn i'r Fforymau Ardal ar gyfer trafodaeth leol cyn mynd ati i lunio cynllun gweithredu.**

**6. GWEITHREDIAD A GWARIANT CYNLLUNIAU GRANT ADDASIADAU I BOBL AG ANABLEDDAU**

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet ar weithrediad a gwariant ar gynlluniau grant addasiadau i bobl anabl.

(i) Gosododd yr Aelod Cabinet Tai'r cefndir drwy nodi bod tri math o gronfeydd ar gyfer grantiau addasiadau i bobl gydag anabledd:

(a) Grant Cyfleusterau i'r Anabl – Sector Preifat
(b) Addasiadau i bobl Anabl sy'n denantiaid gyda Chymdeithas Dai
(c) Addasiadau i Bobl Anabl o fewn Stoc Dai Cartrefi Cymunedol Gwynedd

(ii) O fewn yr uchod ceir cynllun man addasiadau i bobl anabl ar gyfer cwblhau man waith ac addasiadau gwerth hyd at £350 yn gyflym fel rheol o fewn 15 diwrnod o dderbyn y cyfeiriad sydd ddim yn rhan o'r dangosyddion perfformiad. Nodwyd bod llithriad yn y dangosydd perfformiad ond bod cyfansoddiad y math o waith yn dylanwadu ar yr amserlen gyda gwaith mwy yn cymryd mwy o amser.

(iii) Eglurwyd bod rhai addasiadau yn rhai cymhleth iawn gyda'r angen am gais cynllunio ar gyfer estyniadau sydd yn cyfrannu at yr amser a gymerir i ymdrin â'r cais grant gyda cheisiadau eraill yn weddol syml ac yn cymryd llai o amser i'w prosesu. Ar derfyn y broses, bydd y Gwasanaeth yn gwahodd unigolion i roi sylwadau ar ffurf holiadur ac o'r adborth diwethaf roedd 96% o'r cleientiaid yn canmol y gwaith. Fodd bynnag, nodwyd y credir y gellir lleihau'r amserlen o brosesu ceisiadau ac fe gyflawnwyd ymchwil yn ddiweddar ac allan o 19 achos, ymddengys bod y clientiaid eu hunain wedi cyfrannu at yr oedi mewn 8 o'r achosion hynny. Tra'n derbyn bod cyfleon i wella, nodwyd bod y Gwasanaeth yn cael eu cosbi ar draul amgylchiadau nad oedd ganddynt gyfrifoldeb drosto.

(iv) Rhoddwyd cyfle i Aelodau graffu cynnwys yr adroddiad ac fe amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(a) Mynegodd Aelod ganmoliaeth fawr i'r cynllun o'i brofiad o dderbyn addasiadau i'w eiddo rhai blynyddoedd yn ôl gyda'r gwaith wedi ei gwblhau o fewn tri mis.

(b) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r llithriad yn y mesurydd PSR/002, hyderai'r Uwch Reolwr Tai y gellir adfer y mesurydd eleni ac y byddir yn lleihau'r targed o 15 diwrnod ar gyfer flwyddyn nesaf. Ychwanegodd o fewn y cynllun man addasiadau bod y gwaith yn cael ei gyflawni o fewn 8 diwrnod. Roedd y cynlluniau man addasiadau yn arbed ceisiadau rhag mynd i grant addasiadau mwy sydd yn cymryd mwy o amser a phe byddir yn cyflawni mwy o'r addasiadau bach byddai canran mesurydd y Gwasanaeth yn lleihau. Roedd yr Uwch Reolwr Tai o'r farn bod gan Wynedd fwy o addasiadau mawr ac na ellir cwblhau y math yma o waith yn yr addasiadau a gwblheir o fewn 175 diwrnod.

Ychwanegwyd bod un newid arwyddocaol wedi ei gyflwyno yn y gyfundrefn yn ddiweddar sef bod unrhyw swm uwchben yr uchafswm o £36,000 yn cael ei gyfeirio ar sail arwystl cyfreithiol ar yr eiddo h.y. pe byddai'r client yn symud tŷ gall y Cyngor adfer unrhyw fuddsoddiad a wnaed ac y gellir canolbwyntio ar yr hyn sydd wirioneddol angen yn hytrach na'r hyn.

(c) Datganwyd bod tueddiad y dyddiau hyn i ddisgwyl i bobl aros yn eu cartrefi yn hirach yn hytrach na'u cyfeirio i ysbytai ac i ofal preswyl. Roedd yr Aelod o'r farn oherwydd bod mwy o alw am y grantiau addasiadau y dylid cynyddu'r gyllideb a bod cyfathrebu yn holl bwysig fel bo unigolion yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael iddynt. Tueddiad ydoedd nad oedd unigolion yn barod i gyfaddef eu bod yn dirywio yn eu hiechyd ac yn gyndyn o ofyn am gymorth.

Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet Tai tra'n cytuno â'r sylw uchod, mai polisi'r Cyngor ydoedd cadw unigolion yn eu cartrefi yn hirach a'i fod yn her pryd i ymyrryd. O safbwynt y gyllideb, y broblem ydoedd mai buddsoddi mewn stoc dai preifat oedd bwriad y cynllun a'i fod yn her gynyddol i'r Gwasanaeth pan mae unigolion yn symud o'r tai i fedru adfer y buddsoddiad.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (AME) y byddai'n rhaid edrych yn wahanol i'r dyfodol o ran gwariant ac os mai cadw unigolion yn eu cartrefi fydd y flaenoriaeth yna byddai'n rhaid gwirio cyllideb o un lle i'r llall ac o ganlyniad efallai ar draul cyllideb gwasanaeth arall.

(ch) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r berthynas gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd, cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Tai bod y berthynas wedi gwella. Roedd swm o £600,000 wedi ei ddyrannu iddynt a sicrhawyd bod y gwariant o dan reolaeth a'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol yn addawol a hyderir y gellir adeiladu ar y berthynas.

Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol bod trefn yn bodoli o gynnal cyfarfodydd chwarterol gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd ond mai ychydig o ymateb unigol a dderbyniwyd gan Aelodau ynglŷn ag unrhyw bryderon.

Yn deillio o drafodaeth ddilynol pryd amlygwyd pryder gan Aelodau ynglŷn â safon gwaith Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn eu Wardiau unigol, awgrymwyd y dylid rhoi eitem ar raglen nesaf cyfarfod paratoi'r Pwyllgor Craffu hwn i'w ystyried ymhellach. Awgrymwyd ymhellach i Aelod unigol gyflwyno manylion am achos penodol yn ei Ward i'r Uwch Reolwr Tai ar derfyn y cyfarfod hwn.

(d) gofynnwyd pwy sydd yn gyfrifol am gynnal a chadw peiriannau a osodir yn y tai megis lifft grisiau, a.y.b. Mewn ymateb, cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Tai bod cytundeb yn bodoli gyda'r Cwmni sydd yn gosod y cyfarpar a'u bod yn ei gynnal am 2 flynedd. Nodwyd mai'r tenant neu berchennog y tŷ sydd yn gyfrifol wedi hynny gan mai hwy sydd berchen yr addasiad. Cadarnhawyd bod tenantiaid a pherchnogion yn ymwybodol o'r telerau ar ddechrau'r broses o negodi hefo'r Cwmni.

(dd) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â chapasiti digonol i ymgymryd â'r gwaith yn dilyn asesu clientiaid, eglurodd yr Uwch Reolwr Tai bod gan Gartrefi Cymunedol Gwynedd gontractwyr eu hunain. Yng nghyd-destun y Cyngor, roedd yn ddibynnol ar lefel y gwariant a'r broses - gyda chontract o dan £5,000 gwahoddir tri phris am y gwaith, dros £5,000 gwahoddir tendrau. O safbwynt contractau mwy, bydd gwaith gosod offer yn cael ei gyflawni gan adeiladwyr gyda chwmniau yn gweithio'n rheolaidd i'r Cyngor. Nodwyd bod rhai ardaloedd yn fwy heriol na'i gilydd a'u hamserlennu ond yn dilyn gosod y tendr disgwylir i'r gwaith gychwyn o fewn 6 wythnos.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad ynghyd â'r sylwadau uchod.**

**(b) Gofyn i'r cyfarfod paratoi nesaf y Pwyllgor Craffu hwn ystyried perthynas y Cyngor gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 12.50 pm

**CADEIRYDD.**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **Pwyllgor Craffu Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **Chwefror 13, 2014** |
| **TEITL** | **Contractau Mudiadau Trydydd Sector** |
| **AWDUR** | **Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Cynghorydd R H Wyn Williams** |

**Cyflwyniad**

1. Bydd aelodau'r Pwyllgor Craffu yn ymwybodol o drafodaethau diweddar am ddyfodol ynglŷn â rhai contractau sydd gyda mudiadau trydydd sector yn y maes gofal. Yng nghyfarfod paratoi'r Pwyllgor Craffu, gofynnwyd am adroddiad cryno, yn diweddaru'r pwyllgor ar y datblygiadau mwyaf diweddar, i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau i'w hysbysu a'u diweddaru o'r sefyllfa.

**Yr Hanes**

2. Mae rhai o'r contractau pwysicaf yn y maes gofal wedi bod allan ar gytundebau tair blynedd gyda 21 o fudiadau trydydd sector ers 2011, gyda'r contractau hynny fod i ddod i ben ym Mawrth, 2014. Yn ystod mis Tachwedd, 2013, cysylltodd y Cyngor gyda'r mudiadau yn eu hatgoffa bod y contractau yn dod i ben ac yn adrodd ei fod yn gwahodd cynigion ar gyfer cyfnod tair blynedd pellach, o Ebrill 2014 ymlaen, gyda'r contractau hynny yn cael eu hysbysebu ar wefan "GwerthwchiGymru". (Mae'n bwysig cydnabod bod rhai mudiadau wedi adrodd na dderbyniwyd yr ohebiaeth hynny).

3. Mae mudiadau o'r Trydydd Sector wedi cwyno yn arw am y prinder rhybudd i barhau ar gyfer y broses tendro hon a hefyd am y ffaith bod y gwaith am gael ei gynnig ar "GwerthwchiGymru". Gwnaed cais penodol am ganddynt am i'r contractau presennol gael eu hymestyn am flwyddyn ac i'r contractau beidio â chael eu gosod ar y wefan.

4. Yn dilyn cynnig cychwynnol i gynnig tri mis o estyniad, mae'r Cyngor bellach wedi cytuno i estyniad blwyddyn ac yn edrych ar y drefn o ran sut y mae'r contractau yn cael eu hysbysebu.

**Argraffiadau**

5. Yn amlwg, mae'r mater yma wedi achosi cryn ansicrwydd ac annifyrrwch ac mae'n bwysig bod y Cyngor a'r Trydydd Sector yn trafod sut y gallwn gydweithio'n well, nid yn unig o ran y cytundebau hyn ond hefyd yn gyffredinol i'r dyfodol. Bydd y cyfnod nesaf sydd yn wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Ngwynedd yn un eithriadol o anodd a bydd cydweithio da rhwng y Cyngor a'r sector yn bwysig iawn.

6. Gyda hyn mewn golwg, cafwyd cyfarfod lefel uchel rhwng cynrychiolwyr o'r Cyngor a'r Trydydd Sector. Yn sgil hyn, mae dau beth ar y gweill:-

- Trafodaeth, wedi ei hwyluso gyda'r Cyngor a chynrychiolwyr o'r Trydydd Sector i ddysgu gwersi o'r profiad diweddar ac i geisio sicrhau bod y berthynas ar seiliau cadarn ar gyfer y dyfodol
- Gwaith penodol yn y maes gofal i gyd-drafod y drefn ar gyfer comisiynu'r contractau penodol hyn fel bod modd cael canlyniad sydd er lles i drigolion Gwynedd

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **13 Chwefror 2014** |
| **TEITL YR EITEM** | **Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd 2012/13 - Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)** |
| **AELOD CABINET** | **Y Cynghorydd R H Wyn Williams** |

## 1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw cyflwyno gwybodaeth i Aelodau'r Pwyllgor Craffu parthed prif ganfyddiadau ag argymhellion Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru o berfformiad Cyngor Gwynedd o'u hadolygiad a gwerthusiad o berfformiad blynyddol Gwynedd 2012-13. Bydd hefyd yn darparu gwybodaeth am farn a chamau ymateb Cyngor Gwynedd i'r adolygiad yn ogystal ag amlinellu'r weledigaeth maes gofal i'r dyfodol.

## 2. Cyd-destun, cefndir a phwrpas Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol AGGCC 2012-13

2.1 Cynhelir adolygiad a gwerthusiad o berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn flynyddol gan AGGCC. Bydd yr adroddiad adolygiad sydd yn deillio o'r gwaith yn nodi'r meysydd sydd wedi gwella a meysydd i'w gwella yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd am y flwyddyn dan sylw.

2.2 Fel rhan o'r broses bydd AGGCC yn rhoi ystyriaeth i ystod helaeth o ffynonellau tystiolaeth ar gael, gan gynnwys y trefniadau i gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol gyflwyno adroddiadau yn flynyddol am eu perfformiad, a chynlluniau ar gyfer gwneud gwelliannau. Ystyrir hefyd sylwadau archwilwyr ac arolygwyr eraill, yn ogystal â defnyddio gwaith rheoleiddio AGGCC eu hunain.

2.3 Cyflwynir copi o Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol 2012/ 2013 yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar gyfer Gwynedd fel **Atodiad 1**.

2.4 Roedd y **nodyn crynodeb** yn yr Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol Gwynedd 2012-13, yn nodi fel a ganlyn:

i. Bod y cyngor wedi gwella ei strwythur yn unol â'r canllawiau statudol ac argymhellion arolygiad cenedlaethol AGGCC o ran swyddogaeth cyfarwyddwr statudol y gwasanaethau cymdeithasol.

ii. Mae'r cyngor wedi sicrhau bod y cyfarwyddwr yn derbyn cefnogaeth a chyngor proffesiynol, a rhaid i'r cyngor sicrhau bod y gallu ganddo i

gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd.

iii. Roedd perfformiad cyffredinol y cyngor yn gymysg. Er bod rhai meysydd wedi gwella (rheoli atgyfeiriadau plant), mae angen rhoi sylw i rai meysydd eraill o hyd e.e. peidio ag adolygu plant sy'n derbyn gofal.

iv. Nid yw wedi sicrhau gwelliant mewn rhai meysydd perfformiad a chomisiynu pwysig. Bydd rhai o'r rhain yn angenrheidiol i wella ansawdd gwasanaethau a sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol.

2.5 Nodwyd y **risgiau posibl canlynol:**

i. Ceir oedi pellach o ran moderneiddio'r gwasanaethau i oedolion gan arwain at wasanaethau anghynaladwy o ansawdd gwael yn y dyfodol.

ii. Y gallu i ddylanwadu ar gynllunio strategol sy'n canolbwyntio ar yr ardal gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

2.6 O ran ymateb i **feysydd datblygu a adnabuwyd yn adolygiad 2011-12,** nodwyd gan AGGCC….

*"Yn gyffredinol, gwnaeth y cyngor gynnydd cyfyngedig yn y meysydd penodol i'w gwella a nodwyd yn adroddiad y llynedd. Fodd bynnag, llwyddodd y cyngor i wella prydlondeb cynadleddau amddiffyn plant ac i wneud newidiadau strwythurol o ran cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol. "*

2.7 (Efallai fe gofia'r Aelodau i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau, yn ei gyfarfod Fis Mehefin 2013, graffu cynnwys adolygiad a gwerthusiad AGGCC o berfformiad blynyddol Gwynedd 2011-12 yn ogystal â derbyn gwybodaeth am ein camau ymateb sydd mewn gwirionedd yn parhau'n weithredol).

## 3. Ymateb Cyngor Gwynedd i gynnwys adolygiad blynyddol 2012-13

3.1 Rydym yn croesawu'r adolygiad blynyddol gan yr Arolygiaeth. Cydnabyddir pwysigrwydd y broses flynyddol yma o ran sicrhau derbyn barn annibynnol am berfformiad y gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd. Yn sicr rydym yn parchu a gwerthfawrogi barn annibynnol rheoleiddwyr o fewn y maes gwaith yma.

3.2 Er mwyn sicrhau cywirdeb ffeithiol cynnwys adolygiad blynyddol yr Arolygiaeth, ceir cyfnod o ymgysylltu rhwng AGGCC a'r Cyfarwyddwr Statudol (Awst / Medi 2013 yn achos adolygiad 2012/13) i drafod fersiwn drafft terfynol o'r ddogfen adolygiad. Mae hon yn broses sydd yn ein galluogi i sicrhau cywiro unrhyw gamddehongli gan yr Arolygiaeth.

3.3 Yn dilyn o baragraff 3.2 felly, gellir cadarnhau bod y Cyfarwyddwr Statudol yn gyffredinol gyfforddus gyda chynnwys yr adolygiad, o'r farn ei bod yn ffeithiol gywir a hefyd yn cytuno gyda'r sylwadau parthed y meysydd gwella a amlinellwyd ar gyfer y dyfodol.

3.4 Yn naturiol bydd yna ofyn a disgwyliad ar y Cyngor i fod yn cymryd camau gweithredol er mwyn ymateb i'r meysydd gwella yma. I'r perwyl yma rydym eisoes wedi llunio templed camau ymateb yn 2013-14 â rhaglen waith fesul maes gwella a gyflwynir fel **Atodiad 2**. Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r 2 faes risg posib a adnabuwyd gan AGGCC wrth lunio'r templed (sef y risg o oedi pellach o ran moderneiddio'r gwasanaethau i oedolion ac yr anallu i ddylanwadu ar gynllunio strategol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr).

3.5 Bu i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Tai a Hamdden drafod a chytuno ar gynnwys y camau ymateb a'r rhaglen waith yma gyda AGGCC yn y Cyfarfod Ymgysylltu chwarterol rhwng yr Adran ac AGGCC ar 15 Tachwedd 2013. Roedd AGGCC wedi eu bodloni gyda chynnwys y rhaglen ymateb dan sylw.

3.6 Mae 2012/13 wedi bod yn flwyddyn o lwyddiannau a heriau. Gwelwyd cynnydd mewn nifer o feysydd gan gynnwys ymateb i gyfeiriadau, cynnal adolygiadau, cynadleddau amddiffyn, ymweliadau statudol a gofalwyr ifanc, er bod pwysau cynyddol o ran newidiadau demograffig a gofynion teuluoedd yn gyffredinol. Mae rhai meysydd yn parhau yn her, gan gynnwys lefel uchel y defnydd o ofal preswyl traddodiadol, lefel cefnogaeth yn y gymuned i oedolion, a sicrhau cynlluniau addysg bersonol ac asesiadau iechyd yn amserol i blant mewn gofal. Bydd angen ymdrechion pellach er mwyn sicrhau llwyddiant i'r dyfodol yn y meysydd yma.

3.7 Byddai'n deg nodi bod camau gweithredu eisoes mewn lle ar gyfer ymateb i'r meysydd gwella dan sylw. Rydym eisoes wedi gweld gwelliant mewn rhai meysydd eleni gan gynnwys cynlluniau addysg personol, asesiadau iechyd plant mewn gofal ac adolygiadau plant mewn gofal.

3.8 Mae nifer helaeth o'r camau ymateb ar gyfer eleni wedi eu hymgorffori o fewn cynllun gweithredu 2013-14 maes gofal Cynllun Strategol Gwynedd. Bydd cynlluniau gweithredu blynyddol dilynol y Cynllun Strategol (y cyfnod 2014-2017) hefyd yn ymateb i'r meysydd gwella strategol a'r meysydd risg a amlygwyd gan AGGCC.

## 4. Y weledigaeth i'r dyfodol


4.1 Prif bwrpas y Gwasanaethau Cymdeithasol yw diogelu plant, pobl ifanc ac unigolion bregus a'u cefnogi i fyw bywydau mor annibynnol â phosib o fewn eu cymunedau. Gwnawn hyn drwy gyd-gynhyrchu'r dyfodol mewn partneriaeth gyfartal rhwng unigolion, teuluoedd, cymunedau a phobl broffesiynol.

4.2 Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn heriol ond yn gyffrous a rhagwelir y bydd hyn hefyd yn wir am y flwyddyn gyfredol. Un peth sy'n sicr, ni allwn barhau i weithredu yn yr union fodd ag y buom. Mae'n rhaid ceisio cyd-ddarganfod ffyrdd newydd o ymateb i'r her sydd yn bodoli ac yn ein hwynebu. I wneud hyn rhaid i bob un ohonom gadw meddwl agored a bod yn barod i geisio datrysiadau newydd a chyffrous. Gyda'n gilydd gallwn lwyddo i sicrhau'r gorau i bobl Gwynedd heddiw ac yfory.

4.3 Wrth edrych i'r dyfodol, rhaid ystyried cyd-destun o bwysau ariannol heriol tu hwnt, newidiadau demograffig a disgwyliadau cynyddol. Mae angen i wasanaethau'r dyfodol fod yn gynaliadwy a rhoddir sylw i hyn yn y Bil Gwasanaeth Cymdeithasol a Llesiant Llywodraeth Cymru.

4.4 Gwelir o fewn y Bil yr angen i sicrhau rhoi lles pobl mewn angen yn ganolog, drwy roi llais a rheolaeth i bobl sydd angen gwasanaethau yn ogystal â diogelu ac amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion bregus. Bydd angen datblygu gwasanaethau newydd addas ar gyfer grwpiau arbennig a rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau a darpariaethau er mwyn sicrhau'r safon uchaf yn y dyfodol.

4.5 Mae'r model isod yn cyfleu blaenoriaethau'r Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn cyd-destun blaenoriaethau strategol Cyngor Gwynedd. Yr hyn sy'n amlwg yw'r angen i gyd-gynhyrchu ar gyfer dyfodol ein gwasanaethau drwy gydweithio ar lefel gyfartal gydag unigolion, teuluoedd, cymunedau a phobl broffesiynol perthnasol. Bydd hyn yn cynnwys cyd-gynllunio, cyd-ddatblygu a chyd-werthuso gwasanaethau.




4.6 Felly gwelwn y byddwn yn:

**i. Sicrhau'r gofal cywir yn y lle cywir am y gost gywir**….drwy ….. ymateb yn well i anghenion pobl fregus a sicrhau gwasanaethau gofal cynaliadwy.

**ii. Canolbwyntio ar adfer a chynnal annibyniaeth** ….drwy
…..gynyddu'r gwaith ataliol gofal oedolion a phobl hŷn

**iii. Hyrwyddo Gwaith Cymdeithasol a gofal dda ac ymyrraeth ar sail gadarn** … drwy
……sicrhau strwythur addas i'w bwrpas,
….ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion,
….hyrwyddo'r iaith Gymraeg o fewn y maes.

**iv. Datblygu Gwydnwch Teuluoedd a Chymunedau** …..drwy
…..unioni cyfleoedd i grwpiau bregus o blant, pobl ifanc a theuluoedd,
…..hybu cyflenwad addas o dai ar gyfer pobl leol,
….. leihau effaith tlodi ac amddifadedd,
…. hybu balchder a chyfrifoldeb cymunedol.

**v. Hyrwyddo a chynnal lles unigolion, teuluoedd a gofalwyr** …..drwy
…..gynyddu gwaith ataliol a thargedu anghydraddoldebau iechyd.

4.7 Rhaid i ni yng Ngwynedd gynllunio dyfodol sy'n gynaliadwy. I sicrhau hyn rhaid i ni feddwl yn wahanol. Rydym yn ffodus iawn yng Ngwynedd bod gennym sylfaen wych o ran cymunedau hyfyw ac unigolion ymrwymedig. Dyma'r sylfaen allweddol ar gyfer cynllunio a darparu i'r dyfodol. Drwy sicrhau ein bod yn cyd-gynhyrchu gwasanaethau gan adeiladu ar gryfderau unigolion a chymunedau, mae gwir botensial i greu dyfodol cynaliadwy.

4.8 Nid yw newid yn hawdd, yn enwedig newid sy'n gofyn i ni oll feddwl yn wahanol. Wedi dweud hyn, dyma wir gyfle i ni gyd-greu a chyd-gynhyrchu dyfodol positif a chynaliadwy i bobl Gwynedd.

**Atodiadau**

1. Atodiad 1 - Adolygiad a Gwerthusiad AGGCC o berfformiad Cyngor Gwynedd 2012-13
2. Atodiad 2 - Templed camau ymateb Gwynedd yn 2013-14 i feysydd angen gwella fel y adnabuwyd yn adolygiad blynyddol AGGCC 2012-13.

**Papurau cefndir**

1. Pwyllgor Craffu Gwasanaethau 20fed Mehefin 2013 - Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd 2011/ 2012 - Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)

Director of Social Services
Morwena Edwards
Gwynedd County Council
Council Offices
Caernarvon
Shirehall Street
Gwynedd
LL55 1SH

Ein cyf / Our ref: ACRF-LA-12

Eich cyf / Your ref:

Dyddiad / Date: 11 November 2013

Annwyl Morwena

**Fframwaith Adroddiadau Blynyddol y Cynghorau**
**Arolygu, Gwerthuso ac Adolygu Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 2012-13**

Mae AGGCC bellach wedi adolygu a dadansoddi tystiolaeth o'r flwyddyn berfformiad 2012 -13. Amgaeaf y gwerthusiad cyffredinol o berfformiad eich gwasanaethau cymdeithasol lleol. Dangosir meysydd sydd wedi gwella a meysydd i'w datblygu ar gyfer eich cyngor.

Rydym wedi ystyried yr holl ffynonellau tystiolaeth a oedd ar gael, gan gynnwys y trefniadau i gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol gyflwyno adroddiadau yn flynyddol am eu perfformiad, a chynlluniau ar gyfer gwneud gwelliannau. Rydym hefyd wedi ystyried sylwadau archwilwyr ac arolygwyr eraill, yn ogystal â defnyddio ein gwaith rheoleiddio a'n gwaith arall ein hunain.

Mae perfformiad pob cyngor wedi ei safoni er mwyn sicrhau ein bod yn gyson, agored a chytbwys. Comisiynwyd safonwr annibynnol i gynorthwyo gyda'r broses. Anfonwyd yr holl adroddiadau drafft at y cyfarwyddwyr er mwyn iddynt eu harchwilio o ran cywirdeb ffeithiol, fel rhan o'r broses. Rydym wedi diwygio'r adroddiad terfynol pan oedd yn briodol, gan ystyried eich sylwadau.

Bydd canlyniad y broses werthuso ac adolygu yn cyfrannu at y cynlluniau arolygu cenedlaethol presennol ac unrhyw arolygiadau ac ymweliadau safle lleol ar gyfer 2013 -2014. Rwyf yn ymwybodol y bydd trafodaethau'n cael eu cynnal rhyngoch chi a chynrychiolwyr rhanbarthol AGGCC er mwyn gallu nodi meysydd i'w harchwilio.

Fel rhan y cytunwyd arni o'r broses hon, byddwn yn fwy na pharod i gyflwyno ein canfyddiadau a'n cynlluniau arolygu i'ch awdurdod ar ôl i chi gael yr adroddiad hwn. Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn cysylltu â'r cyfarwyddwr rhanbarthol lleol i drafod

AGGCC
Swyddfeydd Cenedlaethol
Swyddfeydd y Llywodraeth
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ
www.aggcc.org.uk

0300 062 8800
0300 0628548
cssiw@wales.gsi.gov.uk

CSSIW
National Office
Government Buildings
Rhydycar Business Park
Merthyr Tydfil
CF48 1UZ
www.cssiw.org.uk

amser sy'n gyfleus i'r ddau ohonoch ar gyfer cynnal y cyfarfod hwnnw.

Trwy weithio gyda'n gilydd, rwyf o'r farn ein bod wedi cyflawni llawer iawn eleni mewn amgylchedd heriol a newidiol.  Rwyf yn gwybod y gallwn, trwy weithio mewn partneriaeth, barhau i ganolbwyntio ar gyflawni gwelliannau parhaus yn y gwasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer yr aelodau o'ch cymunedau lleol sy'n agored i niwed.

Yn gywir

Imelda Richardson
**Prif Arolygydd AGGCC**

AGGCC
Swyddfeydd Cenedlaethol
Swyddfeydd y Llywodraeth
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ
www.aggcc.org.uk

0300 062 8800
0300 0628548
cssiw@wales.gsi.gov.uk

CSSIW
National Office
Government Buildings
Rhydycar Business Park
Merthyr Tydfil
CF48 1UZ
www.cssiw.org.uk

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

**Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2012/2013**

**Enw'r Awdurdod Lleol:** **Cyngor Gwynedd**

**Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r meysydd allweddol o gynnydd ar gyfer y flwyddyn 2012/13 yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd a meysydd i'w gwella yn y dyfodol**

## Crynodeb

Mae'r cyngor wedi gwella ei strwythur yn unol â'r canllawiau statudol ac argymhellion arolygiad cenedlaethol AGGCC o ran swyddogaeth cyfarwyddwr statudol y gwasanaethau cymdeithasol.

Penodwyd cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol yn gyfarwyddwr corfforaethol ym mis Gorffennaf 2013. Mae'r cyngor wedi sicrhau bod y cyfarwyddwr yn derbyn cefnogaeth a chyngor proffesiynol, a rhaid i'r cyngor sicrhao bod y gallu ganddo i gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd.

Roedd perfformiad cyffredinol y cyngor yn gymysg. Er bod rhai meysydd wedi gwella (rheoli atgyfeiriadau plant), mae angen rhoi sylw i rai meysydd eraill o hyd e.e. peidio ag adolygu plant sy'n derbyn gofal. Nid yw wedi sicrhau gwelliant mewn rhai meysydd perfformiad a chomisiynu pwysig. Bydd rhai o'r rhain yn angenrheidiol i wella ansawdd gwasanaethau a sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol.

## Gwasanaethau i Oedolion

Mae'r datblygiad tai gofal ychwanegol cyntaf wedi ei agor, sy'n llwyddiant cadarnhaol i'r cyngor. Datblygwyd gwasanaethau eraill sy'n darparu cymorth dwys, gofal dydd dementia, a chefnogaeth i ofalwyr.

Mae'r cyngor yn parhau i redeg nifer fawr o wasanaethau preswyl ar gyfer pobl hŷn ar hyn o bryd. Bydd yn anodd cynnal y rhain yn y tymor hwy. Mae rhai dangosyddion yn awgrymu nad yw'r cyngor yn llwyddo cystal ag y gallai i hybu annibyniaeth i bobl hŷn.

Mae'r berthynas gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cyfyngu ar ddatblygu gwasanaeth mewn rhai meysydd.

**Gwasanaethau i Blant**

Mae perfformiad y gwasanaethau i blant wedi parhau i wella mewn nifer o feysydd allweddol, megis asesu a rheoli gofal er enghraifft. Mae nifer o wasanaethau effeithiol ar gael i gefnogi plant a'u teuluoedd. Fodd bynnag, mae ei berfformiad o ran plant sy'n derbyn gofal yn anghyson a chafwyd cyfraddau adolygu gwael a chefnogaeth wael gan feysydd iechyd ac addysg. Mae hyn yn codi amheuon ynglŷn ag i ba raddau y mae'r cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau fel rhiant corfforaethol.

Roedd strwythur adroddiad y cyfarwyddwr yn dda, gan ddisgrifio'r heriau a'r gwasanaethau a ddarparwyd. Roedd y cynnwys yn amlygu'r prif beryglon a blaenoriaethau'r cyngor yn y dyfodol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys tystiolaeth ategol briodol ond nid oedd yn myfyrio ar yr hyn a ddysgwyd yn ystod y flwyddyn. Bydd adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr yn cael ei ystyried gan gabinet y cyngor a'r cyngor llawn ym mis Medi 2013.

**Mae AGGCC wedi nodi'r risgiau posibl canlynol:**

- Ceir oedi pellach o ran moderneiddio'r gwasanaethau i oedolion gan arwain at wasanaethau anghynaliadwy o ansawdd gwael yn y dyfodol.
- Y gallu i ddylanwadu ar gynllunio strategol sy'n canolbwyntio ar yr ardal gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

**Ymateb i feysydd datblygu'r llynedd**

Yn gyffredinol, gwnaeth y cyngor gynnydd cyfyngedig yn y meysydd penodol i'w gwella a nodwyd yn adroddiad y llynedd.

Fodd bynnag, llwyddodd y cyngor i wella prydlondeb cynadleddau amddiffyn plant ac i wneud newidiadau strwythurol o ran cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol.

**Arfer da a nodwyd:**

Mae AGGCC wedi nodi'r meysydd canlynol o arfer da:

- Gweithiodd y cyngor a'r bwrdd iechyd gydag Antur Waunfawr a Menter Fachwen i ddarparu gwasanaethau gofal dydd i oedolion ag anableddau dysgu a dementia yn gynnar mewn bywyd. Mae seicolegwyr clinigol yn darparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad o weithio gyda dementia i'r aelodau staff. Mae'r model a'r offerynnau dwyieithog a ddatblygwyd i gefnogi aelodau staff yn caniatáu i'r gwasanaeth gael ei ailadrodd yn rhwydd. Canfu'r gwerthusiad o'r ymyriad dystiolaeth o gynnydd i allu aelodau staff o ran gweithio gyda dementia ac, yn 2012/13, enillodd y gwasanaeth ddyfarniad iechyd Llywodraeth Cymru am weithio mewn partneriaeth.

**Ymweliadau ac arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn**

Yn ogystal ag arolygiadau o wasanaethau a reoleiddir a chyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd ag uwch swyddogion y cyngor, roedd Gwynedd yn destun arolygiad safle yn rhan o adolygiad cenedlaethol AGGCC o swyddogaeth cyfarwyddwr statudol y gwasanaethau cymdeithasol (a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2013).

Cynhaliwyd ymweliad safle â'r Dderwen hefyd, sef gwasanaeth ar gyfer plant anabl a musgrell a'u teuluoedd. Canfuwyd bod hwn yn wasanaeth da, sy'n amlwg yn cael ei werthfawrogi gan y rhai sy'n ei ddefnyddio.

**Meysydd i AGGCC wneud gwaith dilynol ynddynt y flwyddyn nesaf**

Nodwyd nifer o feysydd penodol i'w gwella ym mhrif ran yr adroddiad hwn. Bydd yr hyn a gyflawnir gan y cyngor o ran y rhain yn cael ei drafod gyda'r cyngor yn ystod cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd yn ystod y flwyddyn nesaf.

- Cefnogaeth a chyngor proffesiynol i gyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol.
- Rhoi'r polisi diogelu corfforaethol ar waith.
- Rhoi cynlluniau comisiynu'r cyngor ar waith yn y gwasanaethau i oedolion.
- Dull y cyngor o gyflawni cyfrifoldebau rhianta corfforaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
- Arolygiad thematig cenedlaethol o blant sy'n derbyn gofal.
- Adolygiad thematig cenedlaethol o gomisiynu gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn.

**PERFFORMIAD**

**Llunio gwasanaethau:**

Mae'r cyngor yn sefydlu dull strategol i ddiwallu ei amcanion hirdymor. Mae'r strategaeth, a elwir yn Ffordd Gwynedd, yn rhoi mwy o bwyslais ar ddeall anghenion cwsmeriaid, cael gwared ar rwystrau a dargyfeirio'r galw am wasanaethau. Mae cynllun strategol y cyngor ar gyfer 2013 i 2017 yn nodi meysydd a fydd yn cael eu datblygu yn y gwasanaethau cymdeithasol.

**Oedolion**

Nodwyd gweithredu cynlluniau comisiynu yn brydlon fel maes i'w wella ar gyfer y cyngor yn adroddiad gwerthuso perfformiad 2011/12.

Er bod meysydd wedi gwella, nid yw'r cyngor wedi cyflawni'n gyson o ran ei gynlluniau comisiynu.

Mewn rhai meysydd, mae gwasanaethau newydd yn cael eu datblygu erbyn hyn neu maent wedi sefydlu'n gadarn. Mae'r mentrau hyn yn aml wedi bod mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. Mewn meysydd eraill, mae

datblygiadau’r cyngor wedi oedi ac mae’r cyngor yn gorfod rhoi ystyriaeth i adborth cyn symud ymlaen.

Mae enghreifftiau o lwyddiannau yn cynnwys:

- Gwaith adeiladu sydd wedi dechrau ar ddatblygiad gofal ychwanegol yn ardal Bangor mewn partneriaeth â Thai Gogledd Cymru. Bydd hyn yn darparu 55 o welyau ychwanegol ar gyfer pobl hŷn.
- Agorwyd uned chwe gwely ym Mhenygroes yn 2012/13 ar gyfer pobl sydd angen cymorth dwys ac mae mwy na hanner y rhai a dderbyniodd gymorth wedi dychwelyd i’w cartrefi eu hunain.
- Mae gwasanaeth dementia gofal dydd wedi ei sefydlu’n llwyddiannus ym Mhlas Hedd mewn partneriaeth â’r bwrdd iechyd ac mae’r gwasanaeth hwn yn gweithredu ar ddydd Mercher a dydd Sadwrn bellach.

Mae’r cyngor wedi cymryd camau i foderneiddio gwasanaethau anabledd dysgu, ac mae wrthi’n adolygu’r defnydd o’i brif safleoedd a gwasanaethau ym Mhwllheli a Chaernarfon. Mae’r cyngor yn gobeithio datblygu gwasanaeth gofal dydd yn ardal Porthmadog yn 2013/14.

Fodd bynnag, mae’r cynllun i ailddatblygu gofal preswyl pobl hŷn wedi bod yn anos. Ar ôl ystyried yr adborth o’i waith ymgynghori yn 2012/13, mae’r cyngor yn datblygu cynlluniau amgen bellach i ad-drefnu nifer y gwelyau preswyl yn ei gartrefi gofal.

Dilynwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar ddyfodol Hafod y Gest ym Mhorthmadog gan asesiad ar y proffil galw ac ailsefydlu’r grŵp llywio lleol. Cynhelir rhagor o ymgynghori ynglŷn â'r cartref hwn.

Mae’r cyngor yn parhau i ddatblygu cynlluniau comisiynu ar gyfer gwasanaethau anabledd corfforol a’r synhwyrau. Mae’r casgliadau o’r holiaduron adborth ar y strategaeth anabledd corfforol wedi cael eu hystyried gan bwyllgor craffu’r cyngor.

## Plant

Mae’r cyngor yn bwriadu adolygu ei gomisiynu o wasanaethau i blant ac mae’n bwriadu mabwysiadu dull strategol newydd o wneud ei waith.

Cyhoeddwyd Strategaeth Rhianta a Chymorth i Deuluoedd Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Gwynedd o 2012 i 2017 ym mis Awst 2012. Mae’r cyngor bellach wedi cyhoeddi ei gynllun comisiynu i blant a theuluoedd ar gyfer 2012 i 2017. Mae’r cynllun comisiynu i blant a theuluoedd yn cynnwys asesiad o anghenion ac yn nodi cynlluniau’r dyfodol mewn ymateb iddynt.

Un darn o waith a nodwyd yng nghynllun strategol y cyngor ar gyfer 2013 i 2017 yw adolygiad o’r holl wasanaethau i blant i nodi ffyrdd o ddarparu mwy o werth am arian. Mae’r cyngor wedi nodi bod gwasanaethau plant Gwynedd yn gwario swm sylweddol uwch na chynghorau tebyg.

Cynhaliwyd cyfarfod grŵp partneriaeth Gwynedd ac Ynys Môn ym mis Mai 2013 a dechreuodd sefydlu ei flaenoriaethau a rhaglen waith ar gyfer y dyfodol. Mae'n hanfodol bod cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol yn cael yr holl wybodaeth am y datblygiadau hyn. Bydd yn bwysig i'r cyngor sicrhau ei fod yn gallu cynnal gwasanaethau craidd wrth geisio datblygu gwasanaethau ataliol.

Mae'r cyngor yn cydnabod ei gyfrifoldebau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac mae'n sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â materion cydraddoldeb ar sail asesiad trylwyr. Mae'r cyngor wedi ei gwneud yn flaenoriaeth strategol i hybu cydraddoldeb cymdeithasol ehangach trwy gynnig cyfleoedd cyfartal a lleihau effeithiau tlodi ac anfantais. Yn arbennig, mae'r cyngor yn bwriadu cynyddu gwaith ataliol a thargedu anghydraddoldebau ym maes iechyd a hybu cyfleoedd cyfartal i grwpiau o blant, pobl ifanc a theuluoedd.

**Meysydd o gynnydd**

- Datblygiad parhaus y gwasanaethau gofal ychwanegol.

**Meysydd i'w gwella**

- Cynnal y momentwm o ran ad-drefnu gwasanaethau preswyl i bobl hŷn.

**Cael gafael ar gymorth:**

**Oedolion**

Mae gan y cyngor lwybrau gofal hygyrch. Mae hyn yn bennaf oherwydd y tîm cyngor ac asesu effeithiol a gynyddodd ei allu i ymdopi â'r llwyth gwaith yn 2012/13. Ceir meysydd o arfer da, fel hygyrchedd cefnogaeth i ofalwyr.

Dywed y cyngor i'r prosesau hysbysu gael eu tynhau yn ystod 2012/13 gan arwain at gofnodi llai o asesiadau gofalwyr na'r disgwyl. Mae'r nifer wirioneddol o ofalwyr a aseswyd ac y mae'r cyngor wedi darparu gwasanaeth iddynt wedi aros yn sefydlog yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r cyngor wedi gweithio gyda Gwasanaethau Cynnal Gofalwyr ac mae swyddog gofalwyr wedi bod ar gael yn yr ysbyty ym Mangor yn ystod 2012/13. Mae hyn wedi arwain at gefnogaeth brydlon i nifer sylweddol o ofalwyr.

Mae'r cyngor wedi parhau i wella ei berfformiad o ran adolygu cynlluniau gofal oedolion. Mae canran y cynlluniau gofal a adolygwyd wedi gwella o flwyddyn i flwyddyn ac mae bellach yn agosáu at gyfartaledd Cymru.

Ni ragwelodd y cyngor y galw am wasanaethau gofal cartref yn effeithiol. Nid oedd y galw fel y rhagwelwyd yn nhargedau'r cyngor ar gyfer gofal cartref a nifer y bobl a gynorthwyir yn y gymuned. Bu'n rhaid i'r cyngor gynyddu'r ddarpariaeth o ofal cartref yn ystod y flwyddyn er ei fod wedi bwriadu ei lleihau.

**Plant**

Mae’r cyngor wedi gwella perfformiad ym meysydd allweddol asesu a rheoli gofal yn y gwasanaethau i blant. Mae rhai meysydd o berfformiad yn dibynnu ar gymorth gan faes iechyd a cheir meysydd o berfformiad lle mae’n ymddangos nad yw’r cyngor yn gallu cyflawni gwelliannau pwysig.

Mae perfformiad y cyngor o ran asesu anghenion plant wedi gwella. Mae’r cyngor yn gwahaniaethu rhwng hysbysiadau ac atgyfeiriadau bellach; mae hyn wedi lleihau nifer yr atgyfeiriadau ac ail-atgyfeiriadau. Mae’r cyngor wedi gwella perfformiad o ran gwneud penderfyniadau, asesu a neilltuo canran uwch o atgyfeiriadau i weithwyr cymdeithasol. Ceir prydlondeb gwell o ran asesiadau cychwynnol a chraidd a gostyngiad i’r gyfradd ail-atgyfeirio.

**Meysydd o gynnydd**

- Cymorth i ofalwyr ym Mangor.
- Cofnodi a monitro gwell a mwy ystyrlon o atgyfeiriadau yn y gwasanaethau i blant gan arwain at ostyngiad i’r cyfraddau ail-atgyfeirio a gofnodwyd.

**Meysydd i’w gwella**

- Rhagweld y galw am gymorth cymunedol.

**<u>Y gwasanaethau a ddarparwyd</u>:**

**Oedolion**

Mae’r cyngor yn rhedeg nifer fawr o wasanaethau preswyl ar gyfer pobl hŷn, ac mae’r gwasanaethau hyn wedi dechrau defnyddio dull o gynllunio sy’n canolbwyntio ar bobl ac arfer gorau mewn gofal dementia. Mae'r angen i’r cyngor wella rheolaeth y gwasanaethau y mae’n eu darparu yn parhau, ac mae wedi cael trafferthion yn recriwtio a chadw rheolwyr sydd â’r profiad a’r cymwysterau priodol. Mae cynlluniau yn cael eu datblygu ar hyn o bryd ar gyfer sefydlu rheolwyr priodol ym mhob un o’r cartrefi ac mae angen i’r cyngor wneud trefniadau, fel cynllunio olyniaeth, er mwyn sicrhau y gall barhau i ddarparu rheolaeth briodol pan fo angen.

Agorwyd cynllun tai gofal ychwanegol yn y Bala yn ystod y flwyddyn ac mae hyn wedi darparu 30 o welyau gofal ychwanegol preswyl, ac wedi rhoi’r cyfle i feysydd iechyd, tai a gwasanaethau cymdeithasol weithio gyda’i gilydd. Mae Age Cymru wedi sefydlu canolfan Heneiddio’n Dda yn Nefyn, ynghyd ag amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer pobl hŷn yn y Bala.

Mae’r cyngor wedi cynyddu nifer y nosweithiau o ofal seibiant y mae’n eu darparu ac mae’n bwriadu sefydlu cynllun seibiant arbrofol yn 2013/14. Mae’r cyngor wedi cynnal perfformiad da o ran osgoi oedi wrth drosglwyddo pobl o’r ysbyty a chydgysylltu gofal heb ei drefnu.

Mae'r gwasanaeth anhawster dysgu i oedolion wedi cwblhau adolygiad cyflawn o'r gwasanaeth ac mae'n bwriadu datblygu model blaengar o gymorth sy'n seiliedig ar ganlyniadau.

Mae'r cyngor wedi bod yn effeithiol o ran moderneiddio rhai gwasanaethau. Gwnaed llai o ddefnydd o ofal dydd cyffredinol a mwy o ddefnydd o wasanaethau ail-alluogi, a darparwyd mwy o offer. Mae'r cyngor wedi rhagori ar ei dargedau o ran nifer y bobl sy'n derbyn pecynnau galluogi dwys.

**Plant**

Mae'r cyngor wedi datblygu gwasanaethau arbenigol effeithiol i blant. Mae'r gwasanaeth, sef y Dderwen, yn darparu gwasanaeth arbenigol i blant ag oediadau neu anhwylderau datblygu sylweddol, plant anabl a phlant â salwch. Mae'r gwasanaeth yn ymateb i anghenion ac yn manteisio ar gyfleoedd i wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Mae'r gwasanaeth yn darparu cefnogaeth i ofalwyr, gan wrando a darparu rhwydwaith o gymorth drwy'r gwaith gyda'r Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr. Cynrychiolir gofalwyr yn y grŵp rheoli sy'n goruchwylio'r gwasanaeth, ac ymgynghorir â hwy trwy gyfarfodydd rheolaidd a thrwy ddefnyddio holiaduron. Mae'r gwaith aml-asiantaeth agos wedi arwain at wasanaethau arbenigol gwell, cydgysylltiad a gweithio effeithiol rhwng gweithwyr proffesiynol. Ceir oedi sylweddol o ran darparu gwasanaethau seicolegol a nyrsio sy'n achosi oedi yn y cymorth i blant a'u teuluoedd. Mae gwasanaethau iechyd wedi eu lleoli mwy mewn clinigau ac mae teuluoedd yn dweud bod hyn wedi effeithio ar ansawdd a hygyrchedd y cymorth hwn. Mae gwasanaeth gweithiwr allweddol wedi gorffen ar ôl i gyllid grant ddod i ben, a bydd hyn yn golygu cymorth llai effeithiol. Mae'r gwasanaeth maethu'n cefnogi rhai teuluoedd yn effeithiol ond mae gan deuluoedd eraill anghenion sylweddol sydd heb eu bodloni ac mae'r cyngor yn adolygu'r trefniadau hyn. Mae'r cyngor yn datblygu cyfleuster seibiant dros nos y disgwylir iddo agor yn 2016, gan ddarparu gofal seibiant i blant ag anableddau.

Mae'r cyngor yn darparu gwasanaethau effeithiol i blant sy'n derbyn gofal, ac mae hyn yn bennaf oherwydd ansawdd ei wasanaethau maethu a phreswyl.

Parhaodd y gwasanaeth maethu i dyfu a darparu gwasanaeth da, a chanfu arolygiad AGGCC dystiolaeth y gall plant fod yn hyderus y bydd eu lles yn cael ei hybu a'i ddiogelu. Mae'r gofalwyr maeth o'r farn eu bod wedi eu hyfforddi a'u cefnogi'n dda, ac maent yn hyderus y byddant yn derbyn cymorth cyflym pan fydd ei angen. Rheolir y gwasanaeth yn gryf ac yn effeithiol. Fodd bynnag, amlygodd yr arolygiad yr angen i'r cyngor ddatblygu system fwy effeithiol o werthuso profiadau plant sy'n defnyddio ei wasanaethau.

Mae gan y cyngor gartref plant a reolir gan Weithredu dros Blant a chanfu arolygiad diweddar AGGCC bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda gan reolwr rhagweithiol, a cheir synnwyr da o ofal sy'n canolbwyntio ar bobl wedi ei ddarparu gan aelodau staff galluog sydd wedi eu hyfforddi'n dda.

### Meysydd o gynnydd

- Y gefnogaeth i blant sy’n derbyn gofal a ddarperir gan wasanaeth maethu’r cyngor a chan y cartref preswyl a gomisiynwyd gan y cyngor.

### Meysydd i’w gwella

- Datblygu’r amrywiaeth o wasanaethau yn y gymuned yn y gwasanaethau i oedolion ac i blant.

**Yr effaith ar fywydau pobl:**

### Oedolion

Mae perfformiad y cyngor yn dangos ei fod yn parhau i ddarparu gofal preswyl ac nad yw’n hyrwyddo byw’n annibynnol neu daliadau uniongyrchol. Tyfodd y boblogaeth sy’n hŷn na 65 oed o fwy na 1,100 yn ystod 2012/13. Gostyngodd nifer yr oedolion a gynorthwyir yn y gymuned a chynyddodd nifer yr oedolion sy’n derbyn gwasanaethau preswyl. O’r oedolion a gynorthwywyd, mae'r gyfran a gefnogwyd yn y gymuned yn un o’r canrannau isaf yng Nghymru. Mae nifer y bobl sy’n derbyn taliadau uniongyrchol wedi gostwng.

Mae gan y cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer amddiffyn oedolion sy’n agored i niwed, ond ceir rhywfaint o amrywiaeth o ran cadeirio a threfniadau cyfarfodydd Amddiffyn Oedolion sy’n Agored i Niwed oherwydd problemau niferoedd. Mae’r cyngor wedi gweithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn i adolygu ei drefniadau o ran Amddiffyn Oedolion sy’n Agored i Niwed ac mae’n datblygu bwrdd diogelu oedolion y Gogledd-orllewin. Mae’r bwrdd hwn wedi bod yn sefydlu ei swyddogaeth gan ymateb hefyd i faterion diogelu strategol sydd angen sylw. Mae’r wybodaeth am berfformiad yn dangos y rheolwyd y risg mewn achosion o amddiffyn oedolion ym mhob achos ac eithrio un.

Ni chynhaliwyd unrhyw asesiadau Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yng Ngwynedd yn 2011/12. Achosodd hyn bryder nad oedd yr asesiadau priodol yn cael eu cynnal ac nad yw’r mesurau diogelu yn cael eu rhoi ar waith. Adolygodd y cyngor rai o’i drefniadau yn 2012/13; cododd ymwybyddiaeth trwy hyfforddiant, dosbarthu taflenni ac amlygu’r canllawiau. Cynhaliwyd pedwar asesiad Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn 2012/13 ac ni nodwyd unrhyw asesiadau Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid nad oedd wedi eu cynnal pryd y dylid bod wedi gwneud hynny gan arolygwyr AGGCC yn ystod eu harolygiadau o gartrefi gofal.

### Plant

Mae’r data perfformiad yn dangos bod y cyngor wedi sicrhau cyrhaeddiad addysgol da a phresenoldeb da yn yr ysgol ar gyfer ei blant sy’n derbyn gofal. Fodd bynnag, nid yw wedi cynnal y tueddiad o ran gostwng nifer yr achosion o newid ysgol ymhlith plant sy’n derbyn gofal.

Sicrhaodd y cyngor welliant parhaus o ran prydlondeb cynadleddau amddiffyn plant. Nodwyd hwn fel maes i'w wella i'r cyngor yn adroddiad gwerthuso perfformiad 2011/12.

Mae'r canlyniadau addysgol i blant sy'n derbyn gofal i gyd yn y chwartelau uchaf. Bu'r cyngor yn agos at gynnal y gwelliant a welwyd yn 2011/12 ar gyfer plant 19 oed a fu'n derbyn gofal gynt. Cynhaliodd y cyngor gyswllt â 14 o 16 o bobl ifanc perthnasol ac, o'r rhain, roedd dau o bobl ifanc yn y carchar a dim ond pump oedd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Fodd bynnag, mae'r cyngor wedi gwella ei berfformiad o ran darparu cynghorwyr personol a chynlluniau llwybr i'r holl blant a fu'n derbyn gofal gynt a oedd yn gymwys.

Cyhoeddodd Estyn "Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc" ym mis Mawrth 2013. Nododd yr adroddiad bod y gwasanaeth i bobl ifanc wedi cael cryn lwyddiant o ran cynyddu nifer y bobl ifanc a gwblhaodd unedau neu gymwysterau achrededig, ac o ran hyrwyddo prentisiaethau a llwybrau entrepreneuriaeth a dysgu.

Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Ngwynedd wedi bod yn tyfu ac mae cyfran y plant sy'n derbyn gofal yng Ngwynedd ychydig yn uwch nag mewn awdurdodau tebyg.

Un maes i'w wella yn adroddiad y llynedd oedd cwblhau asesiadau iechyd yn brydlon ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, ond mae'r perfformiad wedi dirywio ymhellach yn 2012/13. Mae'r cyngor wedi gwneud sylwadau i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr dro ar ôl tro ond nid yw wedi cynorthwyo i wella'r perfformiad hwn.

Roedd archwiliadau dannedd amserol i blant sy'n derbyn gofal yn faes i'w wella yn adroddiad y llynedd. Fodd bynnag, prin oedd y gwelliant i berfformiad yn 2012/13 ac mae'n dal i fod yn faes i'w wella felly.

Maes arall i'w wella yn adroddiad y llynedd oedd cwblhau cynlluniau addysgol personol yn brydlon ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a dirywiodd y perfformiad yn sylweddol yn 2012/13. Nid yw'r adran gwasanaethau cymdeithasol wedi gallu dylanwadu ar yr adran addysg o ran cymorth i gwblhau'r cynlluniau hyn yn brydlon. Mae hwn yn faes o gyfrifoldeb corfforaethol a dylid mynd i'r afael ag ef fel mater o flaenoriaeth.

Roedd y cyngor wedi sefydlu cynllun gofal ar gyfer yr holl blant wrth iddynt ddechrau derbyn gofal ac roedd nifer y plant a oedd wedi bod mewn tri lleoliad neu fwy ymhlith yr isaf yng Nghymru. Roedd cynllun ar gyfer sefydlogrwydd ym mhob ail adolygiad ar gyfer plant a oedd yn derbyn gofal.

Roedd prydlondeb adolygiadau yn faes i'w wella y llynedd. Fodd bynnag, dirywiodd y perfformiad yn 2012/13 ac mae'r cyngor ymhlith y perfformwyr gwaethaf yng Nghymru bellach. Dywed y cyngor bod y nifer gynyddol o blant sy'n derbyn gofal wedi cyfrannu at y dirywiad hwn mewn perfformiad. Cytunodd y cyngor bod angen iddo gynyddu gallu yn y maes hwn trwy benodi cadeirydd adolygu annibynnol arall ar gyfer 2013/14.

Mae’r cyngor wedi gwella’r cynllunio a’r ddarpariaeth o gynghorwyr personol ar gyfer plant a fu’n derbyn gofal gynt yn sylweddol.

Gyda’n Gilydd yw’r model Tîm o Amgylch y Teulu yng Ngwynedd a chytunwyd ar brotocol ar gyfer camu i fyny a chamu i lawr i ac o’r gwasanaeth. Bydd hwn yn hwyluso gwasanaeth gwell i deuluoedd gydag amser.

**Meysydd o gynnydd**

- Cynadleddau amddiffyn plant mwy prydlon.

**Meysydd i’w gwella**

- Sicrhau bod gwasanaethau yn hybu annibyniaeth i bobl hŷn.
- Sicrhau adolygiadau prydlon ar gyfer plant sy’n derbyn gofal yn unol â chanllawiau statudol.
- Gwella’r broses o gynllunio addysg ar gyfer plant sy’n derbyn gofal.
- Sicrhau gwasanaethau iechyd i blant sy’n derbyn gofal.

**GALLU**

**<u>Darparu Gwasanaethau Cymdeithasol</u>:**

Roedd sicrhau goruchwyliaeth reolaidd a chyson o aelodau staff yn faes i’w wella yng ngwerthusiad y llynedd. Fodd bynnag, prin yw’r hyn y mae’r cyngor wedi’i gyflawni yn y maes hwn. Mae’r cyngor bellach yn bwriadu cynnwys rheolwyr yn y gwaith o ddatblygu’r systemau sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad sydd eu hangen ar gyfer goruchwyliaeth effeithiol. Bydd system sicrhau ansawdd yn cael ei datblygu a bydd dogfen electronig a’r system rheoli cofnodion yn rheoli’r prosesau yn 2014/15. Gweithredwyd cynllun arbrofol yn 2012/13 i ystyried ansawdd goruchwyliaeth yn y gwasanaethau i blant.

Mae’r cyngor wrthi’n ystyried dau adroddiad beirniadol gan yr Ombwdsmon ac yn nodi’r gwelliannau y mae angen iddo eu gwneud i reoli cwynion a wneir yn erbyn y gwasanaethau cymdeithasol. Gwnaed gwelliannau diweddar i brosesau’r cyngor ac mae system rheoli cwynion electronig y cyngor yn weithredol bellach, ac mae cwynion yn cael eu rheoli’n fwy effeithiol. Mae swyddog ychwanegol yn ymdrin â chwynion bellach a bydd hyn yn helpu i leihau’r amser y mae’n ei gymryd i ystyried cwynion a sicrhau canlyniadau prydlon.

Ceir meysydd lle mae angen i’r cyngor wella’r prosesau cwynion o hyd, ac nid yw’r gwasanaethau cymdeithasol yn cofnodi llawer o gwynion anffurfiol na sylwadau pan gaiff y problemau eu datrys yn gyflym. Nid yw’r canllawiau cwynion yn pwysleisio pwysigrwydd y broses hon a’r gweithredoedd a’r manteision dysgu sy’n digwydd ar gam cynnar. Mae angen gwella’r canllawiau trwy egluro’r hyn sy’n gŵyn a beth yw’r cysylltiadau â phrosesau eraill, megis gwrandawiadau llys neu brosesau diogelu. Mae angen gwella’r gallu ymhellach i reoli a chefnogi’r prosesau cwynion, a gwella'r prosesau i ddefnyddio’r gwersi

a ddysgir yn weithredol, yn strategol ac o fewn y prosesau sy'n goruchwylio'r gwasanaeth.

Mae'r cyngor wedi nodi'r angen i wella yn y maes hwn; mae tîm rheoli'r gwasanaethau cymdeithasol yn rhoi sylw iddo, ac mae hwn yn faes y bydd AGGCC yn gwneud gwaith dilynol arno yn ystod y flwyddyn.

Ceir tystiolaeth eglur bod y swyddog sicrhau ansawdd yn cynnal archwiliadau yn y gwasanaethau i blant ac mae'r adroddiadau yn cynnig beirniadaeth adeiladol ac yn gwneud argymhellion ar gyfer camau ymarferol a fydd yn gwella perfformiad. Ni welwyd tystiolaeth gadarn eto o ddatblygiad system sicrhau ansawdd effeithiol yn y gwasanaethau i oedolion. Mae angen i'r cyngor wneud rhagor o waith i wneud yn siŵr y ceir systemau sicrhau ansawdd effeithiol mewn cartrefi gofal i oedolion y mae'r cyngor yn eu gweithredu.

Mae'r cyngor wedi gwneud gwelliannau sylweddol o ran cofnodi data ac mae'r rheolwyr yn cadarnhau bod systemau, cywirdeb ac ansawdd y wybodaeth wedi gwella. Ceir rhai problemau o hyd ac mae'r cyngor yn cydnabod yr angen i wneud mwy o waith yn y maes hwn. Gwnaeth y cyngor drefniadau gwell i ddefnyddio data perfformiad yn 2012/13 a gwelir tystiolaeth o hyn yn y ffaith y sefydlwyd cyfarfodydd gwasanaeth misol sy'n ystyried perfformiad. Mae hyn wedi arwain at ddealltwriaeth well o berfformiad ymhlith y tîm rheoli ac mae'r digwyddiadau perfformiad gwasanaeth ar gyfer aelodau staff yn cynnig y cyfle i drafod perfformiad a'i bwysigrwydd o ran gwelliant yn y dyfodol. Mae'r cyngor hefyd yn gwneud defnydd gwell o'i system electronig sy'n rhybuddio gweithwyr a rheolwyr bod angen cyflawni gweithgareddau allweddol.

**Meysydd i'w gwella**

- Sefydlu system sicrhau ansawdd yn y gwasanaethau i oedolion.
- Sicrhau goruchwyliaeth reolaidd a chyson o aelodau staff.

**Darparu cyfeiriad:**

Newidiwyd cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghyngor Gwynedd ym mis Awst 2012 ac, ym mis Hydref 2012, cytunwyd ar raglen gynhwysfawr o gymorth, ac roedd hyn yn cynnwys mentora gan gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol profiadol.

Cynhaliodd AGGCC arolygiad cenedlaethol o swyddogaeth cyfarwyddwr statudol y gwasanaethau cymdeithasol a chyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mehefin 2013. Gwnaed gwaith maes mewn saith cyngor, gan gynnwys Gwynedd, ym mis Rhagfyr 2012. Argymhelliad cyntaf yr adroddiad oedd y dylai cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol fod yn aelod o'r tîm rheoli corfforaethol bob amser, ac y dylai allu mynd yn uniongyrchol at bennaeth y gwasanaeth cyflogedig ac at gynghorwyr.

Roedd y cyngor wedi nodi'r gwendidau yn y strwythur corfforaethol blaenorol a oedd ar waith ac yn cydnabod nad oedd swyddogaeth cyfarwyddwr y

gwasanaethau cymdeithasol yn darparu digon o awdurdod, dylanwad nac effaith ac nad oedd yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol.

Mae swyddogaeth cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol wedi cael ei ddyrchafu erbyn hyn o lefel pennaeth gwasanaethau i lefel cyfarwyddwr corfforaethol a gwnaeth y cyngor benodiad i'r swydd cyfarwyddwr corfforaethol hon ym mis Gorffennaf 2013. Nododd adroddiad arolygu cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol bwysigrwydd y cysylltiadau, y swyddogaethau a'r protocolau o ran y cyfarwyddwr statudol. Mae'n hanfodol bod y trefniadau yn cynyddu'r gallu i reoli ac yn sicrhau cyngor proffesiynol a chefnogaeth gadarn ac effeithiol.

Mae cyfrifoldebau anwahanadwy'r cyfarwyddwr am ddiogelu yn arbennig o bwysig ac mae'r cyngor yn gweithredu ei bolisi diogelu corfforaethol. Amlygwyd gwendidau'r trefniadau a'r angen am y gwaith hwn yn adroddiad arolygu awdurdodau lleol Estyn a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2013. Canfu'r arolygiad nad oedd dealltwriaeth eglur o swyddogaethau a chyfrifoldebau am amddiffyn a diogelu plant ar lefel gorfforaethol na rhwng adrannau yn y cyngor. Datblygodd y cyngor bolisi diogelu corfforaethol i blant ac i oedolion er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg hwn a bydd AGGCC yn monitro gweithrediad y polisi hwn.

O ystyried y gefnogaeth wael i gyflawni cynlluniau addysg ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, mae'n rhaid gofyn cwestiynau difrifol am y gefnogaeth gorfforaethol i'r gwasanaethau cymdeithasol, yn enwedig o ran plant sy'n derbyn gofal a chyfrifoldeb y cyngor i weithredu fel rhiant corfforaethol.

Mae pwyllgor craffu'r cyngor yn nodi'r meysydd i graffu arnynt. Mae'r pwyllgor wedi nodi ei raglen waith a'i brosesau.

**Meysydd o gynnydd**

- Mae cyfarwyddwr statudol y gwasanaethau cymdeithasol ar lefel cyfarwyddwr corfforaethol erbyn hyn.

**Meysydd i'w gwella**

- Sicrhau bod cysylltiadau, protocolau a chyngor proffesiynol yn cefnogi'r cyfarwyddwr statudol.
- Gweithredu'r polisi diogelu corfforaethol.
- Codi proffil cyfrifoldebau rhianta corfforaethol gyda'r aelodau.
- Sicrhau cefnogaeth gorfforaethol i blant sy'n derbyn gofal, yn enwedig ym maes cynllunio addysg.

**ATODIAD '2'**

## Crynodeb o gamau ymateb 2013-14 Cyngor Gwynedd i'r meysdd gwella a adnabuwyd gan AGGCC

| Gweithgaredd | Meysydd i'w gwella | Uwch Swyddog Arweiniol | Cynllun Gweithredu | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|---|
| **1. Llunio Gwasanaethau** | i. Cynnal y momentwm o ran ad-drefnu gwasanaethau preswyl i bobl hŷn. | **Morwena Edwards** | Cynllun Gweithredu 2013-14 Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau Pobl Hŷn (gan anelu i sicrhau cydweithio gwell gyda'r Gwasanaeth Iechyd) ac yn benodol:<br><br>Gofal Preswyl<br>• Ystyried argymhellion asesiad lletya a gofal Porthmadog.<br>• Adnabod ffordd ymlaen i'r ddarpariaeth yn nalgylch Porthmadog.<br>• Gweithredu rhaglen ymgysylltu ynglŷn â'r ffordd ymlaen.<br>• Cytuno ffordd ymlaen gyda chartrefi preswyl y Cyngor.<br>• Agor Uned Ysbaid benodol ar sail peilot. | Mawrth 2014 |
| | ii. Cynnal y momentwm o ran ad-drefnu gwasanaethau preswyl i bobl hŷn. | **Morwena Edwards** | • Datblygu cynigion er mwyn darparu ystod o wlâu sydd yn diwallu'r galw drwy Adolygiad Dechrau i Ddiwedd 'End to End' y Gwasanaeth Oedolion. | Mawrth 2014 |
| | | | | |
| **2. Cael gafael ar gymorth** | i. Rhagweld y galw am gymorth cymunedol. | **Morwena Edwards** | • Parhau i fonitro er rhagweld y galw.<br>• Ymchwil a dadansoddi mewn perthynas a newidiadau demograffig a'r effaith ar y gwasanaeth. | Mawrth 2014<br>Parhaus |
| | | | | |

**ATODIAD '2'**

| Gweithgaredd | Meysydd i'w gwella | Uwch Swyddog Arweiniol | Cynllun Gweithredu | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|---|
| **3. Y gwasanaethau a ddarparwyd** | i. Datblygu'r amrywiaeth o wasanaethau yn y gymuned yn y gwasanaethau i oedolion | **Morwena Edwards** | Cynllun Gweithredu 2013-14 Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau Pobl Hŷn (gan anelu i sicrhau cydweithio gwell gyda'r Gwasanaeth Iechyd) ac yn benodol:<br>Gofal Dydd<br>• Cytuno ar gynllun sy'n cyfarch anghenion gofal dydd pobl hŷn gan gynnwys cyfleon gwaith / gwirfoddoli /cymdeithasu / gofal personol a gofal dwys.<br>• Adnabod opsiynau gofal dydd Maesincla Caernarfon.<br>• Datblygu Rhaglen Waith ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynglŷn â darpariaeth gofal dydd arbenigol dementia.<br>Teleofal<br>• Cwblhau adolygiad o achos fusnes teleofal.<br>• Cytuno ar y ffordd ymlaen. | Mawrth 2014 |
| | ii. Datblygu'r amrywiaeth o wasanaethau yn y gymuned yn y gwasanaethau i oedolion | **Morwena Edwards** | Cynllun Gweithredu 2013-14 Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau Anabledd Dysgu ac yn benodol:<br>• Adnabod modelau llety a gofal dydd ar gyfer pobl ac Anableddau Dysgu. | Mawrth 2014 |
| | iii. Datblygu'r amrywiaeth o wasanaethau yn y gymuned yn y gwasanaethau i blant. | **Dewi R Jones** | Cynllun Gweithredu 2013-14 Prosiect Anghenion Dysgu Ychwanegol ac yn benodol:<br>• Cytuno ar fodel newydd o ddarparu profiadau a chyfleoedd addysgol i blant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol.<br>• Penderfynu ar safleoedd posibl ar gyfer sefydlu Canolfan Rhagoriaeth Addysg Arbennig newydd yn ardal Dwyfor-Meirionnydd. | Mawrth 2014 |

| Gweithgaredd | Meysydd i'w gwella | Uwch Swyddog Arweiniol | Cynllun Gweithredu | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|---|
| **3. Y gwasanaethau a ddarparwyd** | iv. Datblygu'r amrywiaeth o wasanaethau yn y gymuned yn y gwasanaethau i blant. | **Morwena Edwards** | • Dod a'r gwasanaethau ataliol a statudol i blant at ei gilydd. | Mawrth 2014 |
| | v. Datblygu'r amrywiaeth o wasanaethau yn y gymuned yn y gwasanaethau i blant. | **Marian Parry Hughes** | • Datblygu cynigion er mwyn Canfod ffurf o gynnig gwell gwerth am arian wrth gynnig gwasanaeth effeithiol drwy Adolygiad Dechrau I Ddiwedd 'End to End' y Gwasanaeth Plant. | Mawrth 2014 |
| | | | | |
| **4. Yr effaith ar fywydau pobl** | i. Sicrhau bod gwasanaethau yn hybu annibyniaeth i bobl hŷn. | **Morwena Edwards** | Cynllun Gweithredu 2013-14 Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau Pobl Hŷn( gan anelu i sicrhau cydweithio gwell gyda'r Gwasanaeth Iechyd) ac yn benodol:<br><br>Gofal Preswyl<br>• Ystyried argymhellion asesiad lletya a gofal Porthmadog.<br>• Adnabod ffordd ymlaen i'r ddarpariaeth yn nalgylch Porthmadog.<br>• Gweithredu rhaglen ymgysylltu ynglŷn â'r ffordd ymlaen.<br>• Cytuno ffordd ymlaen gyda chartrefi preswyl y Cyngor.<br>• Agor Uned Ysbaid benodol ar sail peilot.<br><br>Gofal Dydd<br>• Cytuno ar gynllun sy'n cyfarch anghenion gofal dydd pobl hŷn gan gynnwys cyfleon gwaith / gwirfoddoli /cymdeithasu / gofal personol a gofal dwys.<br>• Adnabod opsiynau gofal dydd Maesincla Caernarfon.<br>• Datblygu Rhaglen Waith ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynglŷn â darpariaeth gofal dydd arbenigol dementia. | Mawrth 2014 |

| Gweithgaredd | Meysydd i'w gwella | Uwch Swyddog Arweiniol | Cynllun Gweithredu | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|---|
| **4. Yr effaith ar fywydau pobl** | | | Teleofal<br>• Cwblhau adolygiad o achos fusnes teleofal.<br>• Cytuno ar y ffordd ymlaen. | |
| | ii. Sicrhau adolygiadau prydlon ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn unol â chanllawiau statudol. | **Marian Parry Hughes** | • Y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd i barhau i fonitro'n agos ac i dderbyn rhesymau gan Gadeirydd Cynhadleddau Achos ar gyfer pob cynhadledd sy'n hwyr. | Parhaus |
| | iii. Gwella'r broses o gynllunio addysg ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. | **Marian Parry Hughes / Dewi R Jones** | • Y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd i barhau i fonitro'n agos.<br>• Rôl allweddol i'r Cydlynydd Addysg Grwpiau Bregus i sicrhau a chodi ymwybyddiaeth ymysg ysgolion Gwynedd am bwysigrwydd cwblhau y cynlluniau addysg personol yn amserol. | Parhaus<br>Parhaus |
| | iv. Sicrhau gwasanaethau iechyd i blant sy'n derbyn gofal. | **Marian Parry Hughes / BIPBC** | • Y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd i barhau i fonitro'n agos.<br>• Parhau i gynnal y drafodaeth gyda BIPBC i sicrhau adolygu trefniadau gweithredu asesiadau iechyd yn amserol | Parhaus<br>Parhaus |
| | | | | |

**ATODIAD '2'**

| Gweithgaredd | Meysydd i'w gwella | Uwch Swyddog Arweiniol | Cynllun Gweithredu | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|---|
| **5. Darparu Gwasanaethau Cymdeithasol** | i. Sefydlu system sicrhau ansawdd yn y gwasanaethau i oedolion. | **Morwena Edwards** | • O ran data – datblygu system newydd fydd yn tynnu data yn uniongyrchol o system Rheoli Cofnodi Data yr Adran ac a fydd yn adrodd ar ansawdd data<br>• Defnyddio'r system newydd i adrodd yn chwarterol.<br>• Paratoi, datblygu a hyrwyddo canllawiau defnyddio'r system i weithwyr o fewn y meysydd blaenoriaeth.<br>• Llunio a chytuno strategaeth sicrhau ansawdd ar draws y gwasanaeth. | Mawrth 2014<br>Hydref 2013<br>Parhaus<br>Mawrth 2014 |
| | ii. Sicrhau goruchwyliaeth reolaidd a chyson o aelodau staff. | **Morwena Edwards / Marian Parry Hughes** | • Datblygu a chytuno ar bolisi a chyfundrefnau ffurfiol.<br>• Ystyried opsiynau amrywiol ar gyfer y drefn monitro gan gynnwys cytuno ar y drefn iw mabwysiadu.<br>• Gweithredu ar y drefn | Hydref 2013<br>Mawrth 2014<br>Parhaus |
| | | | | |
| **6. Darparu cyfeiriad** | i. Sicrhau bod cysylltiadau, protocolau a chyngor proffesiynol yn cefnogi'r cyfarwyddwr statudol. | **Morwena Edwards** | • Adolygiad i'w gynnal gan y Cyfarwyddwr Statudol.<br>• Datblygu rhaglen waith er mwyn ymateb yn seiliedig ar y strwythur, systemau, sgiliau staff a diwylliant rheoli. | Mawrth 2013<br>Parhaus |
| | ii. Gweithredu'r polisi diogelu corfforaethol. | **Morwena Edwards** | • Y Panel Strategol Corfforaethol i godi ymwybyddiaeth ymhlith staff ag aelodau Cyngor Gwynedd ar eu cyfrifoldebau diogelu.<br>• Paratoi a mabwysiadu Polisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion Corfforaethol ag Adrannol.<br>• Adrodd ar waith y Panel yn rheolaidd i'r Cabinet. | Parhaus<br>Mai 2013<br>Parhaus |

| Gweithgaredd | Meysydd i'w gwella | Uwch Swyddog Arweiniol | Cynllun Gweithredu | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|---|
| **6. Darparu cyfeiriad** | | | | |
| **6. Darparu cyfeiriad** | iv. Sicrhau cefnogaeth gorfforaethol i blant sy'n derbyn gofal, yn enwedig ym maes cynllunio addysg. | **Morwena Edwards** | • Datblygu Strategaeth.<br>• Gweithredu'r strategaeth | Ebrill 2014<br>Parhaus o Ebrill 2014 |

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **13 Chwefror 2014** |
| **TEITL YR EITEM** | **Darpariaethau o fewn y Sir er mwyn ymateb i anghenion cyflwr problemau cof (Dementia)** |
| **AELOD CABINET** | **Y Cynghorydd R H Wyn Williams** |

## A. Pwrpas yr Adroddiad

A.i Cyflwynir yr adroddiad hwn ar y maes Dementia mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau am wybodaeth trosolwg ar drefniadau gofal i unigolion gyda dementia a sut y byddwn yn cyfarch prinder cyfleusterau ar gyfer unigolion.

A.ii Yn unol â chais y Pwyllgor, rhoddir sylw i'r agweddau penodol canlynol:

1. Beth yw'r wybodaeth ddiweddaraf o ran yr asesiad angen am wasanaethau o'r fath ar draws y Sir a beth yw'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol y mae'r Gwasanaeth yn cynllunio ar eu cyfer?
2. Beth yw'r wybodaeth ddiweddaraf ar y sefyllfa o ran darpariaeth dementia ar draws y sir, yn cynnwys cynlluniau sydd ar y gweill?
3. Beth yw'r patrwm o ran cydweithio rhwng darpariaeth gyhoeddus a darpariaeth breifat ar draws y sir a sut y mae'r cydweithio hynny yn gweithio?
4. O ran y gwasanaethau sydd ar gael ac sy'n cael eu Cynllunio beth yw'r sefyllfa o ran gallu i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg?

## B. Gwybodaeth trosolwg - y cyd-destun strategol

### B.i Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2013-2017

B.i.i Gweledigaeth maes gofal iechyd a lles Cynllun Strategol Gwynedd 2013-17 yw i "gefnogi plant a phobl fregus i fyw bywydau cyflawn" ac i "ysbrydoli pobl Gwynedd i fyw bywydau iach".

B.i.ii Mae'r cynllun strategol wedi adnabod yr angen i gyfrannu at sicrhau'r gwahaniaethau canlynol erbyn 2017:

- Sicrhau darpariaeth addas o ofal yn y lleoliad cywir
- Darparu llais cryfach i ddefnyddwyr gwasanaethau cymdeithasol Gwynedd
- Rhwydwaith o gefnogaeth ragweithiol ar gael i gynorthwyo oedolion a phobl hyn fyw yn annibynnol heb ymyrraeth ffurfiol Gwasanaethau Cymdeithasol
- Sicrhau fod oedolion Gwynedd yn fwy diogel

**B.ii Cynllun Comisiynu Pobl Hyn 2011-2016**

B.ii.i O ran y weledigaeth, amlygir yng Nghynllun Comisiynu Pobl Hyn 2011-2016 mai nod Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd wrth gomisiynu gwasanaethau ar gyfer oedolion fydd sicrhau yr angen i:

- Gwrdd ag anghenion yr unigolyn
- Gyfrannu tuag at gynnal annibyniaeth
- Gynnig dewisiadau ac opsiynau i'r unigolyn
- Bod ddigon hyblyg i allu newid i gyfarch unrhyw newidiadau i amgylchiadau ac anghenion yr unigolyn

B.ii.ii Ceir yn ogystal ddatganiad pendant o fewn y Cynllun Comisiynu bod bwriadau Comisiynu Gwynedd ar gyfer 2011-2016, parthed y gwasanaethau hynny i'w darparu yn uniongyrchol neu o dan gontract / cynaladwyedd gwasanaeth i gynnwys *"Sicrhau darpariaeth i gyfarch anghenion gofal preswyl arbenigol dementia a nyrsio."*

**<u>B.iii Adolygiad Strategol Gwasanaethau Preswyl a Nyrsio 2009 ac 2010</u>**

B.iii.i Yn 2009 cytunodd y Cyngor i ymgymryd ag adolygiadau strategol er mwyn herio'r ffordd y darparwyd gwasanaethau preswyl a nyrsio gan y Cyngor. Nod yr adolygiadau yma fyddai i sicrhau bod gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn hyblyg, cost effeithiol ac yn cynnig gwerth am arian. Ymgymerwyd ag astudiaeth o sut roedd y gwasanaeth presennol yn cael ei ddarparu, costau'r gwasanaeth ac anghenion y gwasanaeth yn y dyfodol, gan ystyried y nifer cynyddol o breswylwyr hŷn o fewn y gymdeithas.

B.iii.ii Roedd y casgliadau yn dangos bod y galw am ofal preswyl traddodiadol yn lleihau, ac roedd gwaith ymgynghori yn dangos yn glir bod defnyddwyr yn ffafrio model sy'n caniatáu iddynt fyw yn annibynnol am gyhyd a phosibl.

B.iii.iii Roedd casgliadau o'r adolygiad yn dangos y dylai'r ddarpariaeth yn y dyfodol:

1. lleihau nifer gwelyau preswyl traddodiadol
2. gynyddu nifer gwelyau mewn Tai Gofal Ychwanegol
3. gynyddu nifer gwelyau nyrsio (yn arbennig mewn rhai ardaloedd)
4. **gynyddu nifer gwelyau ar gyfer rhai a phroblemau'r cof (preswyl a nyrsio).**

**----------------------------------**

## 1. Beth yw'r wybodaeth ddiweddaraf o ran yr asesiad angen am wasanaethau o'r fath ar draws y Sir a beth yw'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol y mae'r Gwasanaeth yn cynllunio ar eu cyfer?

### 1.1 Gwybodaeth gyfredol

1.1.1 Dengys y tablau canlynol wybodaeth am niferoedd o ddefnyddwyr gwasanaeth dementia yng Ngwynedd am y cyfnodau 2010-11, 2011-12 ac 2012-13. Mae'r wybodaeth wedi ei rannu i ddangos defnyddwyr 65 oed a throsodd a defnyddwyr o dan 65 oed.

**Tabl 1: Nifer o Gleientiaid â Dementia yn Derbyn Gwasanaeth**
**(Cleientiaid sydd 65 mlwydd oed a throsodd.)**

| Cyfnod | Nifer cleientiaid â Dementia yn derbyn gwasanaeth Preswyl neu Nyrsio ar 31 Fawrth | Nifer cleientiaid â Dementia yn derbyn gwasanaeth yn y Gymuned ar 31 Fawrth | **Cyfanswm** | Nifer cleientiaid â Dementia yn derbyn gwasanaeth Preswyl neu Nyrsio yn ystod y flwyddyn | Nifer cleientiaid â Dementia wnaiff derbyn gwasanaeth yn y Gymuned yn ystod y flwyddyn | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2010 - 2011** | 99 | 62 | **161** | 154 | 138 | **248** |
| **2011 - 2012** | 94 | 65 | **159** | 122 | 135 | **220** |
| **2012 - 2013** | 92 | 54 | **146** | 129 | 121 | **215** |

**Tabl 2: Nifer o Gleientiaid â Dementia Dechreuad Cynnar yn Derbyn Gwasanaeth**
**(Cleientiaid sydd rhwng 18 a 64 mlwydd oed.)**

| Cyfnod | Nifer cleientiaid â Dementia yn derbyn gwasanaeth Preswyl neu Nyrsio ar 31 Fawrth | Nifer cleientiaid â Dementia yn derbyn gwasanaeth yn y Gymuned ar 31 Fawrth | **Cyfanswm** | Nifer cleientiaid â Dementia yn derbyn gwasanaeth Preswyl neu Nyrsio yn ystod y flwyddyn | Nifer cleientiaid â Dementia wnaiff derbyn gwasanaeth yn y Gymuned yn ystod y flwyddyn | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2010 - 2011** | 1 | 5 | **6** | 1 | 6 | **7** |
| **2011 - 2012** | 1 | 1 | **2** | 1 | 5 | **6** |
| **2012 - 2013** | 2 | 1 | **3** | 2 | 2 | **3** |

**1.2 <u>Rhagolygon angen i'r dyfodol</u>**

1.2.1 O ran ystadegau rhagolygon achosion dementia i'r dyfodol, gwneir defnydd o wybodaeth o'r Cynllun Comisiynu Pobl Hyn 2011-2016 ac o'r System Daffodil sy'n rhagolwg yr angen am wasanaethau gofal yng Nghymru. Mae'r rhagolygon yma yn cyfleu y bydd cynnydd yn y niferoedd o'r boblogaeth sydd gyda rhyw ffurf o ddementia. Mae'r ystadegau hefyd yn amlygu'r agwedd bod cyfran o'r boblogaeth rhwng 30-64 oed gyda symptomau dementia cynnar.

1.2.2 Mae'r wybodaeth o System Daffodil yn nodi bod y niferoedd yng Ngwynedd yn 2012 rhwng 30-64 oed gyda symptomau dementia cynnar yn 32 gyda'r un lefel yn 2030. Mae'r niferoedd yn y grŵp yma ar gyfer ardal Awdurdod Iechyd Betsi Cadwaladr yn 190 yn 2012 ac 188 yn 2030.

1.2.3 Yn ychwanegol i hyn, mae System Daffodil yn nodi bod y cyfanswm yn 2012 o bobl 65 oed ag uwch yng Ngwynedd gyda dementia yn 1,773 ac y bydd wedi cynyddu i 2,686 erbyn 2030.

**1.3 Cynllun Comisiynu Pobl Hyn 2011-2016**

1.3.1 Nodir yn y cynllun parthed dementia tudalen 12:

*"Dementia yw un o'r prif resymau dros anabledd mewn henaint. Mae gan un o bob chwech o bobl dros 80 mlwydd oed rhyw ffurf o ddementia tra bo un ym mhob 14 o bobl dros 65 oed gyda dementia. Mae'r cynnydd yn nifer y bobl gyda dementia yn adlewyrchu'r tuedd demograffeg a ragwelir yng Ngwynedd.*

*Rhagwelir y bydd nifer y bobl fydd â dementia yng Ngwynedd yn cynyddu 35% o 1,718 i 2,325 rhwng 2007 a 2021. O'r bobl dros 65 mlwydd oed sydd â dementia, mae gan 55.4% ddementia ysgafn, 32.1% ddementia cymedrol a 12.5% ddementia dwys."*

## 1.4 Rhagolygon o System Daffodil: "Projecting the need for care services in Wales"

### 1.4.1 Dementia - Ardal Gwynedd

**Dementia**

People aged 30-64 predicted to have early onset dementia, and people aged 65 and over predicted to have dementia, by age and gender, projected to 2030

Show next five years

| Dementia - all people<br>Show by gender | 2012 | 2015 | 2020 | 2025 | 2030 |
|---|---|---|---|---|---|
| People aged 30-39 with early onset dementia | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| People aged 40-49 with early onset dementia | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 |
| People aged 50-59 with early onset dementia | 15 | 15 | 16 | 15 | 13 |
| People aged 60-64 with early onset dementia | 13 | 12 | 12 | 13 | 12 |
| **Total population aged 30-64 with early onset dementia** | **32** | **31** | **32** | **32** | **30** |
| People aged 65-69 with dementia | 97 | 103 | 88 | 90 | 98 |
| People aged 70-74 with dementia | 157 | 175 | 208 | 180 | 184 |
| People aged 75-79 with dementia | 276 | 290 | 332 | 396 | 344 |
| People aged 80-84 with dementia | 449 | 448 | 490 | 572 | 688 |
| People aged 85 and over with dementia | 793 | 851 | 958 | 1,122 | 1,371 |
| **Total population aged 65 and over with dementia** | **1,773** | **1,867** | **2,077** | **2,360** | **2,686** |

Figures may not sum due to rounding
Copyright 2010

### 1.4.2 Dementia - Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

**Dementia**

People aged 30-64 predicted to have early onset dementia, and people aged 65 and over predicted to have dementia, by age and gender, projected to 2030

Show next five years

| Dementia - all people<br>Show by gender | 2012 | 2015 | 2020 | 2025 | 2030 |
|---|---|---|---|---|---|
| People aged 30-39 with early onset dementia | 6 | 6 | 7 | 7 | 7 |
| People aged 40-49 with early onset dementia | 21 | 20 | 18 | 17 | 18 |
| People aged 50-59 with early onset dementia | 87 | 91 | 98 | 93 | 85 |
| People aged 60-64 with early onset dementia | 75 | 69 | 71 | 80 | 78 |
| **Total population aged 30-64 with early onset dementia** | **190** | **187** | **194** | **198** | **188** |
| People aged 65-69 with dementia | 562 | 605 | 537 | 552 | 622 |
| People aged 70-74 with dementia | 934 | 1,038 | 1,249 | 1,117 | 1,153 |
| People aged 75-79 with dementia | 1,568 | 1,708 | 1,980 | 2,400 | 2,172 |
| People aged 80-84 with dementia | 2,383 | 2,464 | 2,897 | 3,415 | 4,183 |
| People aged 85 and over with dementia | 4,571 | 4,898 | 5,635 | 6,942 | 8,682 |
| **Total population aged 65 and over with dementia** | **10,018** | **10,714** | **12,298** | **14,426** | **16,811** |

Figures may not sum due to rounding
Copyright 2010

## 2. Beth yw'r wybodaeth ddiweddaraf ar y sefyllfa o ran darpariaeth dementia ar draws y sir, yn cynnwys cynlluniau sydd ar y gweill?

2.1 Yn y blynyddoedd dilynol ers Adolygiad Strategol Gwasanaethau Preswyl a Nyrsio 2009 ac 2010, rydym wedi gweld datblygiad a chyflenwi ystod o gynlluniau a darpariaethau ar draws y Sir o fewn y maes dementia. Cydnabyddir bod llwyddiannau wedi amrywio o ran meysydd penodol o ofal a rhwng ardaloedd ond mae'n bwysig cofio bod ymdrechion yn parhau. Cyflwynir isod grynodeb fesul darpariaeth gwasanaeth o'r llwyddiannau hyd yma a hefyd y cynlluniau sydd ar y gweill.

**A. Gofal Preswyl**

- Fel y nodwyd eisoes, bu i Adolygiad Strategol Gwasanaethau Preswyl a Nyrsio 2009 ac 2010 adnabod yr angen i leihau'r nifer o welyau preswyl traddodiadol a chynyddu'r nifer o welyau arbenigol ar gyfer unigolion gyda phroblemau cof. Er mwyn ymateb, gwelwyd hyd yma:

- Darpariaeth gan Cyngor Gwynedd:

1. Newid cofrestriad Cartref Gofal Maesincla yng Nghaernarfon o gartref preswyl traddodiadol i gartref preswyl arbenigol ar gyfer unigolion gyda phroblemau cof.
2. Adeiladu estyniad i gartref preswyl Bryn Blodau yn Llan Ffestiniog er mwyn gallu sefydlu uned arbenigol ar gyfer unigolion gyda phroblemau cof.
3. Agor Uned yng nghartref Llys Cadfan yn Nhywyn.

- Darpariaeth gan y sector annibynnol:

1. Ymateb wedi bod i'r angen am welyau ac arbenigol yn Nwyfor gan i gartref Plas Madryn ym Morfa Nefyn newid eu cofrestriad a hwnnw bellach yn gartref ar gyfer unigolion gyda phroblemau cof.
2. Nifer o welâu preswyl arbenigol wedi cofrestru mewn cartrefi eraill yn Nwyfor.
3. Yn Arfon – agorwyd uned yng nghartref Gwynfa II, ger Bontnewydd, Caernarfon.

**B. Gofal Nyrsio**

- Nododd Adolygiad Strategol Gwasanaethau Preswyl a Nyrsio 2009 ac 2010 yr angen i gynyddu darpariaeth mewn rhannau o'r Sir. Mae ymdrechion wedi mynd rhagddo gan y Cyngor i sicrhau denu darparwyr i Dde'r Sir ond hyd yma ni lwyddwyd i ddenu darparwyr sy'n barod i ddatblygu gwasanaethau arbenigol yn Ne Meirionydd.

- Sefyllfa wedi gwella yn Arfon a Dwyfor gan i gartref nyrsio arbenigol agor yn y ddwy ardal yn y blynyddoedd diwethaf. Y cartref yn Nwyfor yn gwasanaethu Gogledd Meirionnydd ond pryder yn parhau am ddiffyg darpariaeth yn Ne Meirionnydd ac yn sgil hyn unigolion heb ddewis ond yn gadael yr ardal pan fo hwy angen gofal arbenigol.

- O ran y dyfodol, rhoddwyd caniatâd cynllunio yn Nhachwedd 2013 i gwmni Pendine Park ar gyfer datblygu safle hen Ysbyty Bryn Seiont yng Nghaernarfon. Y bwriad fydd datblygu cyfleuster gofal nyrsio arbenigol a darparu 16 uned breswyl gofal ychwanegol ar gyfer cynnig cefnogaeth i ddioddefwyr dementia a'u teuluoedd.

**C. Gofal Dydd**

- Gofal dydd arbenigol ar gyfer unigolion gyda phroblemau cof wedi ei ddarparu ar y cyd gan y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn Nwyfor ers nifer o flynyddoedd.

- Yn fwy diweddar darpariaeth yn Arfon gyda'r Cyngor yn agor Canolfan Ddydd newydd ar safle Plas Hedd ym Mangor. Gofal dydd arbenigol yn cael ei ddarparu yno ddau ddiwrnod yr wythnos sef dydd Mercher a Sadwrn.

- Y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio i sefydlu darpariaeth yn Meirionnydd a darpariaeth un diwrnod ym Mlaenau Ffestiniog.

**CH. Cefnogi gofalwyr**

- Gweler manylion y datblygiadau Gofal Dydd y cyfeirir atynt ym Mlwch C uchod.

- Gofal ysbaid – o ran yr anghenion, gellir eu cwrdd drwy gyfrwng gofal preswyl y Cyngor gyda gwely ysbaid yng nghartref Plas Maesincla yng Nghaernarfon ac ym Mryn Blodau yn Llan Ffestiniog.

- Trafodaethau yn parhau gyda'r Bwrdd Iechyd o ran cyd gomisiynu gwely i ddarparu gofal ysbaid mewn cartref nyrsio arbenigol.

- Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Cyngor Gwynedd a Chymdeithas Alzheimer's ar gyfer darpariaeth Gweithiwr Cefnogi Dementia (24 awr yr wythnos).

- I'r dyfodol, mae'r Cyngor yn awyddus i ystyried sut y gellir gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg i gefnogi Gofalwyr.

## 3. Beth yw'r patrwm o ran cydweithio rhwng darpariaeth gyhoeddus a darpariaeth breifat ar draws y sir a sut y mae'r cydweithio hynny yn gweithio?

3.1 Ni allai'r Gwasanaethau Cymdeithasol gyflawni'i raglen waith na gweithredu fel cyfundrefn effeithiol ar ei ben ei hun. Mae'n ddibynnol ar berthynas gref gyda nifer o wasanaethau eraill o fewn y Cyngor a gyda nifer o gyrff eraill oddi allan gan gynnwys awdurdodau lleol eraill, Iechyd, yr heddlu, y trydydd sector, mentrau cymdeithasol, cymdeithasau tai, mudiadau gwirfoddol a chwmnïau preifat.

3.2 Mae'r rhan flaenorol o'r papur yma yn ymhelaethu ar ymdrechion cydweithio cyhoeddus a phreifat o ran sicrhau darpariaeth briodol o fewn y maes gofal penodol yma. Ceir hefyd ymdrechion cynyddol o'r ochr cydweithio'n strategol.

**3.3 O ran y cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd:**

3.3.1 O ran cyfeiriad cydweithio i'r dyfodol, gwneir datganiad clir gan Llywodraeth Cymru o fewn y ddogfen ymgynghori "Fframwaith ar gyfer Darparu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig ar gyfer Pobl Hŷn sydd ag Anghenion Cymhleth"

(Gorffennaf 2013) fod disgwyliad i gynlluniau comisiynu i'r dyfodol fod yn gynlluniau ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd. Mae trafodaethau lefel uchel eisoes ar y gweill i gryfhau'r berthynas yma.

3.3.2 Mae'r Fframwaith ar gyfer Pobl Hŷn sydd ag anghenion cymhleth yn amlinellu'r angen i sefydlu patrwm newydd o wasanaethau, gan adeiladu ar sylfeini da sydd eisoes yn eu lle, eu haddasu a'u datblygu. Cydnabyddir y dystiolaeth gynyddol sy'n dangos manteision integreiddio, ac amlinellai uchelgais Llywodraeth Cymru i gael gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gwirioneddol integredig i bobl hŷn. Mae disgwyl i bartneriaid trwy Gymru i symud ymlaen yn gyflym i sicrhau mai'r model hon yw'r norm. Mae angen newid sylweddol dros y tair blynedd nesaf.

### 3.4 O ran y cydweithio yn rhanbarthol:

3.4.1 Mae awdurdodau lleol unigol wedi bod yn datblygu gwasanaethau i bobl sydd â dementia ond hyd yn ddiweddar, ni welwyd cydweithio yn y maes hwn ac mae hynny wedi arwain at ddarpariaeth gwasanaeth sy'n anghyson ar draws y rhanbarth. O ystyried ardal weithredu'r bwrdd iechyd yng ngogledd Cymru a phwysigrwydd hanfodol datblygu gwasanaethau ar y cyd â iechyd, byddai cydweithio yn ein galluogi i wella gwasanaethau i bobl sydd â dementia yn gynt ac yn fwy effeithiol nag wrth geisio gwneud hynny fel awdurdodau unigol.

3.4.2 Llwyddwyd i ddenu Arian refeniw o'r Gronfa Cydweithio Rhanbarthol i bwrpas ariannu prosiect rhanbarthol o dan y teitl ***"Inspiring Action*** *– developing person centred dementia care in North Wales"* am 3 mlynedd rhwng 2013 ac 2016. Bydd y prosiect rhanbarthol yn canolbwyntio ar agweddau gan gynnwys:

- Asesiad o'r farchnad er mwyn deall yn well y capasiti presennol a bylchau yn y farchnad,
- Ymarferiad anghenion i ragweld galw am wasanaethau i'r dyfodol,
- Datblygu strategaeth comisiynu ranbarthol ar gyfer gwasanaethau i bobl gyda dementia,
- Ymchwilio mewn i ymarfer da o ran cefnogi pobl gyda dementia ac ystyried sut y gellir datblygu'r modelau yma yng Ngogledd Cymru.

3.4.3 Eisoes fel rhan o'r prosiect yma, mae Grŵp Tasg Dementia Rhanbarthol wedi ei sefydlu, a hwylusir gan Ganolfan Comisiynu Gogledd Cymru, sydd yn canolbwyntio ar ddatblygu Manylyn Rhanbarthol fydd yn gosod allan y gofynion i gartrefi gofal ar gyfer pobl gydag anghenion dwys yn gysylltiedig â'u cyflwr dementia.

3.4.4 Bydd Canolfan Comisiynu Gogledd Cymru yn cynnal digwyddiad ar 28ain o Fawrth 2014 yng Nghanolfan Optic, Llanelwy er mwyn rhannu gwybodaeth am y prosiect rhanbarthol cyffrous yma.

## 4. O ran y gwasanaethau sydd ar gael ac sy'n cael eu Cynllunio beth yw'r sefyllfa o ran gallu i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg?

4.1 O fewn y Cyngor, mae gennym gefnogaeth gref i sicrhau ein bod yn cwrdd â gofynion deddfwriaeth ym maes Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac rydym yn ymwybodol iawn o'r angen i ystyried goblygiadau cydraddoldeb, ac i ymgymryd ag neu ddatblygu asesiadau effaith wrth geisio newid darpariaeth neu wasanaeth.

4.2 Mae gennym ddyletswydd i gynnig ein gwasanaethau yn dewis iaith ein defnyddwyr a gwneir pob ymdrech i sicrhau gweithlu dwyieithog. Mae cynllun Gweithlu'r Adran yn rhoi sylw i sgiliau iaith y sector yn ei gyfanrwydd gan gynnig mewnbwn ar ymwybyddiaeth ieithyddol a hyfforddiant perthnasol.

4.3 Rydym fel Gwasanaeth yn croesawu "Mwy na Geiriau", sef y fframwaith strategol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer sicrhau gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ym maes Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol.

4.4 Yn 2012/13 gofynnodd y Cyngor i ymgynghorydd gynnal "Arolwg o ofynion ac ymarfer Cyngor Gwynedd wrth ddarparu gwasanaethau Cartrefi Gofal (Preswyl a Nyrsio), a Gofal Cartref". Ymgynghorwyd gyda darparwyr cartrefi gofal a chwmnïau gofal cartref yn y broses o lunio'r adroddiad a chwblhawyd yr arolwg ym Mawrth 2013. Fel ymateb i'r adroddiad fe fyddwn yn diwygio rhai elfennau o'n gytundebau gyda darparwyr i adlewyrchu disgwyliadau anghenion ieithyddol y defnyddwyr gwasanaeth.

4.5 Drwy gyfrwng ymdrechion Uned Contractau Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor, rydym yn sefydlu Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda'n darparwyr fydd yn cynnwys cymalau penodol mewn perthynas â iaith. Bydd y Darparwr, ar gyfer cyfnod y fframwaith cytundeb yn cydymffurfio gydag egwyddorion Polisïau Iaith Gymraeg Cyngor Gwynedd.

4.6 Dyma'r cymal penodol parthed Gofynion Ieithyddol fel yr ymddengys yn ein Cytundebau Lefel Gwasanaeth.

*"Bydd gofyn i chwi gydymffurfio gyda'r cymalau perthnasol yn Polisi Iaith Gymraeg Cyngor Gwynedd drwy:*

- *Sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu yn dewis iaith defnyddiwr y gwasanaeth a'u teuluoedd*
- *Recordio iaith ddewisol y defnyddiwr gwasanaeth a'i deulu/theulu*
- *Sicrhau bod yr wybodaeth a'r llenyddiaeth a ddarperir i'r cyhoedd yn ddwyieithog.*
- *Sicrhau bod arwyddion a hysbysebion yn ddwyieithog.*
- *Sicrhau fod trefniadau ar gael ar gyfer cyfieithu."*

4.7 Bydd y broses monitro Cytundeb Lefel Gwasanaeth / Cytundebau yn cynnwys ffurflen cyn-ymweliad sy'n gofyn cwestiynau ynglŷn â'r canran o'r staff sydd yn gallu ysgrifennu, darllen a siarad Cymraeg; faint sydd yn dysgu'r Gymraeg. Bydd monitro hefyd os oes ganddynt Bolisi Iaith Gymraeg.

4.8 Yn ystod yr ymweliad bydd proses o wirio eu holl bolisïau / taflenni / unrhyw wybodaeth ar gyfer staff / cyhoedd gan sicrhau eu bod yn ddwy ieithog ac os ydynt yn gallu darparu gwasanaeth yn dewis iaith y defnyddiwr.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **13 Chwefror 2014** |
| **TEITL YR EITEM** | **Awtistiaeth** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd R. H. Wyn Williams** |
| | |

Anabledd datblygiadol hir oes yw awtistiaeth, sydd yn effeithio ar sut mae unigolion yn cyfathrebu ac yn ymwneud a phobl eraill, yn ogystal ag effeithio ar sut mae pobl yn gwneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas.

Mae awtistiaeth yn gyflwr sbectrwm, sy'n golygu er bod pawb ag awtistiaeth yn rhannu anawsterau penodol, bydd y cyflwr yn effeithio arnynt mewn ffyrdd gwahanol. Gall rhai pobl ag awtistiaeth fyw bywydau cymharol annibynnol, tra gall eraill fod ag anableddau dysgu a rhai unigolion fod angen cymorth arbenigol.

**Gwasanaethau Plant ar y Sbectrwm Awtistiaeth**

- Arweinir ar waith ar gyfer plant gydag awtistiaeth yn y lle cyntaf gan Seicolegwr Clinigol yn y Tîm Integredig Plant Anabl, Derwen.
- Yn dilyn asesiad mae'n bosib bydd cyfeiriad i wasanaeth nyrsio, gweithiwr cymdeithasol, neu wasanaeth egwyl fer/cefnogol o fewn y tîm.
- Darperir gwasanaethau arbenigol o fewn yr Adran Addysg i nifer o blant ar y sbectrwm awtistiaeth.
- Mae'r Seicolegwr Clinigol wedi derbyn 62 o gyfeiriadau rhwng Ebrill a Rhagfyr 2013 ar gyfer asesiad ASA.
- Oherwydd diffyg capasiti yn y Tîm Seicoleg Glinigol mae rhestr aros o hyd at flwyddyn mewn rhai achosion.
- Mae 38 plentyn o dan 6 oed a 23 plentyn rhwng 6 a 9 oed ar y rhestr aros ar gyfer asesiad ASA,
- Mae plant sydd eisoes wedi cael asesiad a diagnosis ar y rhestr aros am ymyrraeth bellach.
- Drwy gymorth grantiau gan gynnwys Grant Awtistiaeth, Cymorth a Theuluoedd yn Gyntaf mae peth gwaith ataliol drwy gynnig ymyrraeth arbenigol megis PACT, ymyrraeth therapi cerdd ac ymyrraeth gwsg.
- Heb y grantiau hyn gwasanaeth asesu a rhoi diagnosis yn unig fyddai ar gael ar y cyfan.
- Darperir ymyrraeth ymddygiad heriol sy'n cymryd llawer mwy o amser ac yn fwy costus felly edrychir ar ymyrraeth y grantiau fel arbediad sylweddol.

**Anghenion Gwasanaeth Plant**

- Capasiti i allu torri lawr ar y rhestrau aros i deuluoedd.
- Cynnig gwaith ataliol tymor hir ar sail grant ( dim sicrwydd efo'r grantiau a thrwy hynny'n colli staff ar ôl eu hyfforddi oherwydd ansicrwydd ynglŷn â'u swyddi)
- Gwasanaeth ar gyfer pobl ifanc sydd ar ochr uchaf y sbectrwm ond heb anabledd dysgu – teuluoedd yn amlwg mewn angen ond ddim yn blant/pobl ifanc sy'n cyrraedd criteria Derwen.

**Gwasanaeth Oedolion ar y Sbectrwm Awtistiaeth**

- Mae 6 unigolyn yng Ngwynedd gyda diagnosis ASA yn agored i'r Tîm Oedolion Bregus.
- Mae Gweithiwr Cefnogol Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth yn cefnogi 53 o oedolion gyda diagnosis ASA ond nid yw'r unigolion yma yn cyrraedd meini prawf mynediad i wasanaeth oedolion.
- Ar hyn o bryd mae 534 o oedolion ar gofrestr anabledd dysgu yng Ngwynedd, mewn astudiaeth amcangyfrif fod rhwng 20 – 33% o oedolion ag anabledd dysgu hefyd ag awtistiaeth.
- Mae amrywiaeth o wasanaethau ar gyfer oedolion syndrom Asperger (neu awtistiaeth gweithrediad uwch) yn cael eu darparu gan Y Cyngor a chan ddarparwyr allanol/annibynnol:
    - Coleg Menai - Cyrsiau coginio a datblygu sgiliau byw.
    - Cyflogaeth wedi'i chynnal –mudiadau megis Agoriad a Mantell Gwynedd yn lleoli, hyfforddi a chynnal unigolion gyda chyflogaeth, cefnogaeth yn lleihau dros gyfnod o amser.
    - Welsh Football Trust: North Wales Futsal Project: PORT – Hyfforddiant i oedolion i fod yn hyfforddwyr Futsal a dysgu sgiliau cyfathrebu, mathemateg, cyfrifiadurol.
    - Grŵp Cefnogaeth Asperger/Autism Gwynedd a Môn - cyfleoedd ar gyfer gwaith grŵp, cymdeithasu a hamdden.
- Yn y maes anabledd dysgu mae amrediad o wasanaethau yn cefnogi pobl gydag Awtistiaeth ac anghenion cymhleth.
    - Cefnogaeth Dydd - darperir gwasanaeth gan y darparwr mewnol a'r sector annibynnol e.e.; Cynllun Cymunedol Arfon, Canolfan Y Gwystl, Antur Waunfawr, Menter Fachwen a Seren
    - Gwasanaeth Cefnogol – cyfleoedd cymdeithasu a hamddena, datblygu sgiliau byw bob dydd.
    - Coleg Addysg bellach
    - Grwpiau Diddordeb/Datblygu Sgiliau
    - Llety gyda Chefnogaeth – cefnogi unigolion mewn tenantiaeth gan feithrin diwylliant sy'n osgoi gorddibyniaeth.

- Cynllun Lleoli Oedolion –galluogi oedolion i fyw mor annibynnol â phosib o fewn sefyllfa deuluol.
- Technoleg Gynorthwyol.
- Gofal ysbaid – mae 2 dŷ gofal ysbaid gan y sector annibynnol ag ysbaid ar gael drwy ‘r cynllun lleoli oedolion.
- Gwasanaeth preswyl (gan gynnwys darpariaeth y tu allan i Wynedd)

- Hyfforddiant wedi ei gynnal i godi ymwybyddiaeth staff a datblygu sgiliau a defnydd o fodelau ‘Active Support’, PECS, ‘Positive Behaviour Support’ ynghyd a defnydd iPads.
- Datblygiad lletya newydd -adeiladu 6 byngalo un ystafell wely ac un byngalo dwy ystafell wely ar dir Pant yr Eithin yn Harlech.

Oherwydd natur ASA rhaid cael amrywiaeth o weithwyr proffesiynol ac asiantaethau i gydweithio yn effeithiol er mwyn sicrhau gwelliannau priodol a chynaliadwy yn y gwasanaeth sy’n canolbwyntio ar y person a’r canlyniadau.

**Mae tudalen 16 o Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr yn cyfeirio at grwpiau o ddefnyddwyr allweddol y mae’r adran yn eu gwasanaethu. Y cwestiwn yw pam nad yw Awtistiaeth wedi cael ei grybwyll yn y rhestr?**

Mae’r grwpiau a nodir (Pobl Hŷn, Anabledd Corfforol a Synhwyred, Cefnogaeth Iechyd meddwl, Anabledd Dysgu, Diogelwch Oedolion -POVA  yn Grwpiau Lefel Uwch o ran categorïau defnyddwyr. Mae Awtistiaeth yn gyflwr penodol fel sawl cyflwr arall ac yn amlwg ni allwn fod yn rhestru'r holl gyflyrau gan fyddai yn amhriodol yn y cyd-destun adnabod Grwpiau Lefel Uwch.

**Sut mae’r Grŵp Cynllunio a Budd-ddeiliaid ASA ar y cyd Gwynedd ac Ynys Môn yn gweithio- Cylch Gorchwyl?**

Pwrpas Grŵp Cynllunio a Budd-ddeiliaid ASA ar y cyd Gwynedd ac Ynys Môn yw bod yn gyfrifol am oruchwylio datblygiad Strategaeth Anhwylderau’r Sbectrwm Awtistiaeth (ASA) Cymru gyfan yn lleol er mwyn diwallu anghenion plant ac oedolion sydd ag ASA yng Ngwynedd ac Ynys Môn.

Mae cyfansoddiad y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o’r asiantaethau isod:

- Gwasanaethau Arbenigol Plant
- Gwasanaethau Oedolion
- Addysg
- Cydbwyllgor Addysg
- Bwrdd Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
- Gwasanaeth Plant Prifysgol Betsi Cadwaladr

- Gwasanaethau Oedolion Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Therapi Iaith a Lleferydd
- Grŵp Cefnogi Awtistiaeth/Asperger Gwynedd a Môn
- Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth
- Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
- Prifysgol Bangor
- Hamdden
- Defnyddiwr Gwasanaeth
- Rhieni/gofalwyr

Mae cyfrifoldebau'r grŵp, sydd fel arfer yn cyfarfod bob chwarter, yn cynnwys:

1. Sicrhau cysylltiadau effeithiol rhwng pob gwasanaeth wrth gynllunio, datblygu a chyflwyno gwasanaethau i bobl ag ASA.
2. Cydgysylltu dull gweithredu aml-asiantaeth o gynllunio, comisiynu a datblygu gwasanaethau.
3. Cydgysylltu a goruchwylio rheolaeth Grant ASA Llywodraeth Cymru.
4. Datblygu gwaith i gefnogi ffurfio Cynllun Gweithredu lleol ASA er mwyn:

    - Cynnal dadansoddiad o anghenion y boblogaeth;
    - Nodi nifer y plant a'r oedolion ag ASA y mae Iechyd, Addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol yn gwybod amdanynt;
    - Blaenoriaethu anghenion;
    - Datblygu dull gweithredu integredig aml-asiantaeth o gomisiynu a datblygu gwasanaeth a chyflwyno gwasanaeth;
    - Mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ddarparu ymyriadau a datblygiadau gwasanaeth effeithiol;
    - Nodi a chefnogi anghenion Gofalwyr;
    - Hyrwyddo llais defnyddwyr a gofalwyr wrth gynllunio, comisiynu a datblygu'r gwasanaeth.

5. Adolygu trefniadau cydweithio a chynllunio sefydledig ac argymell unrhyw newidiadau sydd eu hangen i gryfhau dulliau cyd-gynllunio a datblygu gwasanaethau mwy integredig fel rhan o'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a Strategaeth a Chynllun Gweithredu ASA Cymru gyfan.
6. Derbyn adroddiadau cynnydd gan asiantaethau partner a grwpiau cynllunio a mentrau gwasanaeth cysylltiedig eraill.
7. Archwilio opsiynau i hyrwyddo gwell trefniadau gweithio mewn partneriaeth.
8. Adolygu gweithrediad cynlluniau gweithredu ac adrodd yn ôl i'r Bwrdd Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a grwpiau cynllunio cysylltiedig.

Strategaeth a Chynllun Gweithredu ASA Cymru Gyfan a'r Grant ASA sydd yn llywio ac yn pennu cyfeiriad gwaith y Grŵp.

**Sut mae'r Grŵp Cynllunio a Budd-ddeiliaid ASA ar y cyd Gwynedd ac Ynys Môn yn gweithio- sut y dyrennir y gyllideb?**

Derbyniwyd llythyr cadarnhad o'r grant ASA gan y Llywodraeth ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013/14 ar 27ain Mehefin 2013, yn nodi bod £40,000 ar gael i bob sir ar gyfer grant isadeiledd. Anfonwyd allan am geisiadau ar draws Gwynedd ac Ynys Môn gyda dyddiad cau o19eg Gorffennaf 2013. Cysylltwyd â phob aelod o'r Grŵp ar e-bost yn eu gwahodd i geisio am y grant gyda ffurflen gais ynghlwm. Cafodd papur ar ganllawiau ac amcanion y grant eu dosbarthu yng nghyfarfod y grŵp ar 18fed Gorffennaf 2013 oedd yn rhoi arweiniad ar sut i ddyrannu'r grant.

**Yr Amcanion ar gyfer 2013/14**

- Hybu cyfleoedd cymdeithasol
- Datblygu Addysg
- Cefnogi Plant a Phobl Ifanc
- Cefnogi oedolion
- Hyfforddiant, mentora a gwybodaeth
- Hyrwyddo a datblygu ymwybyddiaeth a chefnogaeth
- Cryfhau prosesau a threfniadau diagnosis ac asesu
- Hyrwyddo cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth

O ran y canllawiau ar gyfer y defnydd o'r arian grant, ni ddylai'r Grant ASA gael ei defnyddio i ddarparu gwasanaethau statudol nac i arbed cyllidebau gwasanaethau statudol. Dylai'r Grant gael ei defnyddio i:

1. Ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth sy'n dangos gwerth ychwanegol er budd defnyddwyr gwasanaeth a'u rhieni/gofalwyr.
2. Sicrhau cydbwysedd yn y Cynllun Gwariant rhwng buddsoddiad mewn prosiectau ar gyfer y maes Plant a'r maes Oedolion.
3. Sbarduno cychwyn prosiectau arloesol / cynlluniau peilot er budd defnyddwyr gwasanaeth a'u rhieni/gofalwyr.
4. Ariannu seminarau / gweithdai, sesiynau hyfforddiant ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth, gwybodaeth a sgiliau defnyddwyr gwasanaeth a'u rhieni/gofalwyr.
5. Hyrwyddo cyfleoedd hyfforddiant/datblygu sgiliau ar gyfer grwpiau o staff proffesiynol yn hytrach na hyrwyddo datblygiad personol staff unigol.
6. Ariannu mentrau/prosiectau sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth am anghenion defnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd yn y maes ASA.

Cytunwyd yng nghyfarfod y grŵp ar 18fed Gorffennaf 2013 y byddai Gareth Llwyd Cydlynydd ASA Cyngor Sir Ynys Môn a Sioned Thomas Rheolwr Polisi a

Gwireddu Gofal ac Iechyd Cyngor Gwynedd yn derbyn y cyfrifoldeb o greu cynllun gwariant ar gyfer y ddwy sir. Cafodd y cynllun gwariant ei gylchredeg i'r Grŵp unwaith i'r gwaith gael ei gwblhau.

Yn dilyn creu'r cynllun gwariant cafodd llythyrau eu hanfon i'r ceisiadau llwyddiannus yn nodi eu llwyddiant, ynghyd â ffurflen derbyn a ffurflen adroddiad cynnydd ar y prosiectau. Nodir y ffurflen derbyn bod y grant yn amodol ar dderbyn adroddiad cynnydd ar y gwariant a'r gweithgarwch erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Yn gyd-destun trefniadau eleni rydym wedi derbyn gwybodaeth bod Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar ddarparu £40,000 i bob sir ar gyfer y grant isadeiledd ASA yn 2014/15. Nid ydym eto wedi derbyn cadarnhad swyddogol na chwaith unrhyw ganllawiau ynghlwm, ond mae'r wybodaeth yma yn rhoi cyfle i ni gynllunio yn well ar gyfer defnydd y grant.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **Pwyllgor Craffu Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **Chwefror 13, 2014** |
| **TEITL** | **Datganiad o fwriad - Darparu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig** |
| **AWDUR** | **Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Cynghorydd R H Wyn Williams** |

## 1.0 <u>Cefndir</u>

1.1 Cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2013 ddogfen ymgynghori sef Fframwaith ar gyfer Darparu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig gan Lywodraeth Cymru.

1.2 Mae'r Fframwaith hwn ar gyfer Pobl Hŷn sydd ag anghenion cymhleth.

1.3 Amlinellir o fewn y fframwaith hwn yr angen i sefydlu patrwm newydd o wasanaethau, gan adeiladu ar sylfeini da sydd eisoes yn eu lle, eu haddasu a'u datblygu.

1.4 Maent yn cydnabod y dystiolaeth gynyddol sy'n dangos manteision integreiddio, ac yn amlinellu uchelgais Llywodraeth Cymru i gael gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wirioneddol integredig i bobl hŷn.

1.5 Mae disgwyl i bartneriaid trwy Gymru i symud ymlaen yn gyflym i sicrhau mai'r model hon yw'r norm. Mae angen newid sylweddol dros y tair blynedd nesaf.

1.6 O ran diffiniad o'r term 'integreiddio' ac o ran pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt dylai olygu:-

"Mae fy ngofal yn cael ei gynllunio gennyf i gyda phobl yn cydweithio i'm deall i, fy nheulu a'm gofalwyr, gan roi rheolaeth i mi, a dod â gwasanaethau ynghyd i sicrhau'r canlyniadau sy'n bwysig i mi."

1.7 I gyflawni'r uchod, rhaid i'r gofal a ddarperir gael ei anelu at sicrhau gwell gofal i ddefnyddwyr a chleifion trwy gydlynu gwasanaethau'n well.

1.8 Mae integreiddio'n galw am gyfres o ddulliau, modelau a phrosesau sydd, gyda'i gilydd, yn ceisio gwella cydlynu. Dyma'r elfennau hanfodol:-

- bod darparwyr gwasanaeth yn chwalu'r rhwystrau sydd wedi atal cydweithio effeithiol ac yn llunio'r gwasanaeth ar sail dealltwriaeth gyffredin o'r canlyniadau sy'n bwysig i'r unigolyn.

- bydd gan y sawl sy'n derbyn gwasanaeth fwy o lais a mwy o reolaeth dros y gofal y mae'n ei dderbyn.

1.9 Mae Llywodraeth Cymru am weld system newydd sydd â thair prif nodwedd:-

1.9.1 Dylai fod yn system wedi ei chynllunio a'i rheoli'n gydwybodol, wedi ei hadeiladu ar uchelgais.

1.9.2 Dylid ei hadeiladu gyda defnyddwyr gwasanaeth a'r gymuned leol ac ar eu cyfer. Mae angen canolbwyntio ar brofiad y sawl sy'n derbyn gwasanaethau. Sicrhau bod cyd-gynhyrchu yn egwyddor sylfaenol.

1.9.3 Dylid sicrhau bod ymrwymiad gwirioneddol i fonitro a gwella'n gyson. Mae symud yn benodol i ddull mwy integredig yn golygu nad yw cyfrifoldebau weithiau mor eglur. Mae angen i'r partneriaid weithio'n agos i sicrhau bod trefniadau llywodraethu diogel a chlir.

## 2.0 <u>Datganiad o Fwriad</u>

2.1 Erbyn diwedd Ionawr 2014, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i holl bartneriaid lleol gymeradwyo a chyhoeddi 'Datganiad o fwriad' ynghylch Gofal Integredig.

2.2 Mae gofyn i'r 'Datganiad o fwriad' fod ar sail ranbarthol (Gogledd Cymru) ac mae cydlynydd wedi bod yn ceisio dod a gwybodaeth o chwe awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd. Atodir fersiwn 16 o'r 'Datganiad o fwriad' er gwybodaeth.

2.3 Bydd y fersiwn yma yn cael ei yrru fel yr Iteriad Cyntaf i'r Llywodraeth erbyn diwedd mis Ionawr, ond bydd fersiwn terfynol yn mynd erbyn diwedd Mawrth 2014. Bydd felly yn bosib ychwanegu ato yn ystod mis Chwefror.

## 3.0 <u>Prif Gasgliadau o'r Datganiad o Fwriad (DoF)</u>

3.1 Noder yn y DoF bod hi'n gyfnod o ansicrwydd ar hyn o bryd yn y Gogledd oherwydd yr ailstrwythuro rheolaeth glinigol yn BIPBC a hefyd y newidiadau yn sgil adroddiad Williams.

3.2 Er y cyfnod o ansicrwydd mae gweithio mewn ffordd sy'n gwella canlyniadau i bobl Gogledd Cymru ac yn benodol pobl hŷn Gogledd Cymru i'w groesawu.

3.3 Dyma'r prif gasgliadau sydd yn cael eu hamlinellu o fewn y DoF:-

3.3.1 Sicrhau trefniadau llywodraethu cadarn sy'n sicrhau bod gweithio'n integredig yn cael ei gefnogi drwy Fforwm Sirol gall ddileu rhwystrau a sicrhau canlyniadau gorau i bobl Gwynedd.

3.3.2 Comisiynu gwasanaethau ar y cyd fel bod y canlyniadau iechyd a llesiant gorau yn cael eu diwallu. Mae hyn yn cynnwys comisiynu mewn partneriaeth hefyd â'r trydydd sector. Y bwriad yw sicrhau bod pobl hŷn yn osgoi mynediad diangen i ysbyty a gan hefyd hyrwyddo hybu diwylliant o gefnogaeth, cymuned a chymdogaeth.

3.3.3 Mae angen gwell dealltwriaeth o faterion ariannol ar draws partneriaethau yn y maes pobl hŷn. Bydd angen gweld sut gallwn drefnu cyllidebau mewn ffordd sy'n rhoi ein defnyddwyr yn ganolog ac yn rhoi rheolaeth ariannol iddynt am eu gofal lle bo hynny'n bosib.

3.3.4 Yn allweddol mae angen sicrhau bod y gweithlu a rheolaeth yn addas i bwrpas i'r dyfodol. Mae hyn yn allweddol i ni, yn enwedig mewn ardal wledig, ac mewn cyfnod o gyfyngder ariannol. Bydd timau ar y cyd yn cael eu hyrwyddo yn ogystal â cheisio cyfleoedd i ddatblygu llwybrau gofal esmwyth i bobl hŷn. Y bwriad yw sicrhau bod pobl hŷn heb rwystrau sefydliadol. Bydd trafodaethau am y posibilrwydd o gael rheolwyr ardal ar y cyd ar draws partneriaethau.

3.3.5 Rhan bwysig o unrhyw weithio'n integredig yw sicrhau bod systemau 'swyddfa gefn' yn cydgysylltu yn rhwydd. Mae prosiect ar y gweill sy'n cynnwys Gwynedd i bwrcasu system gofal ar y cyd ag iechyd (gwasanaethau cymunedol). Bydd yng Ngwynedd wedyn un system TG ar gyfer gwasanaethau gofal ac iechyd cymunedol. Golyga hyn

- gwell penderfyniadau
- gwell diogelwch
- gwell cysylltiadau rhwng asiantaethau
- llai o ddyblygu data a throsglwyddo gwybodaeth
- lleihau'r angen i fynd i leoliadau penodol - gallu cysylltu â system o leoliadau gwahanol
- un set o ddata ar draws iechyd a gofal.

3.3.6 Datblygiad o lwybrau gofal sy'n cefnogi cleifion/defnyddwyr drwy eu siwrne gyda gwasanaethau gwahanol.

3.3.7 Fel sydd wedi'i amlinellu gennyf yn yr Adroddiad Blynyddol, mae cyd-gynhyrchu gwasanaethau yn un o'm mhrif amcanion ar gyfer y dyfodol. Un rhan o hwn fydd sicrhau bod llais defnyddwyr yn hafal i asiantaethau ffurfiol. Bydd angen newid ymarfer/diwylliant pobl broffesiynol i adlewyrchu hyn. Bydd y Cyngor hefyd yn parhau i geisio datblygu mentrau cymdeithasol.

3.3.8 Mae Fframwaith Asesu newydd ar fin ei ddefnyddio fydd yn sicrhau bod canlyniadau yn cael eu casglu gan po bynnag berson proffesiynol sy'n gwneud yr asesiad.

3.3.9 Rhan amlwg o egwyddor o integreiddio yw ceisio darparu gwasanaethau ar y cyd. Un enghraifft o hyn sydd ar y gweill ym Meirionnydd yw datblygiad gofal dydd arbenigol i bobl â dementia fydd yn cael ei ddarparu ar y cyd. Y bwriad yw ceisio uchafu'r cyfleoedd o wneud hyn fwyfwy drwy Wynedd.

## 4.0 <u>Casgliad</u>

4.1 Rydym eisoes wedi cychwyn ar y daith o geisio gweithio yn integredig ond mae mwy i'w wneud os am sicrhau gwasanaethau sy'n cynnig y canlyniadau gorau i bobl Gwynedd.

4.2 Mae tueddiadau demograffig yn golygu bod galw cynyddol am wasanaethau llem a chymuned i bobl hŷn. Yn ogystal mae cyfyngder ariannol y blynyddoedd presennol a rhagolygon anodd i ddod yn sicrhau bod rhaid cydweithio er mwyn uchafu gwerth ein hasedau i bobl Gwynedd.

4.3 Drwy drefniadau'r Fforwm Sirol a Thimau Ardal, bydd y Cyngor, BIPBC, Y Trydydd Sector yn cydweithio i geisio sicrhau bod gwasanaethau integredig yn datblygu yn effeithiol.

# Datganiad o Fwriad Gogledd Cymru

## Crynodeb Gweithredol

Mae'r Datganiad o Fwriad ar Ofal Integredig i Bobl Hŷn sydd ag Anghenion Cymhleth yng Ngogledd Cymru wedi ei ddatblygu ar y cyd gan gydweithwyr o'r chwe Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'n darparu datganiad rhanbarthol sengl, sydd hefyd yn rhoi lle i angen lleol a datblygiadau gwasanaeth hanesyddol.

Mae'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi datgan yn glir yr angen i ddelio'n fwy cadarn ag Integreiddiad Gwasanaethau ar gyfer Pobl Hŷn ac i wneud hynny ar unwaith.
Mae'r Datganiad yn adeiladu ar weithio cyfredol mewn partneriaeth er mwyn datblygu agenda uchelgeisiol sy'n gwthio ffiniau presennol ac sy'n datblygu gwasanaethau a systemau newydd ac arloesol.

Gall 'gweithio integredig' fod ag amrywiaeth o ddehongliadau ac i ddibenion yr adroddiad hwn, fe ddefnyddir y diffiniad canlynol, sy'n ymwneud â chanlyniadau i ddinasyddion:

> *"Mae 'ngofal i'n cael ei gynllunio gen i â phobl sy'n gweithio efo'i gilydd i 'neall i, fy nheulu i a 'ngofalwyr/'ngofalwr i, a hynny'n rhoi rheolaeth i mi ac yn dod â gwasanaethau at ei gilydd i gyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig i mi."*

Mae'r Datganiad wedi'i honni ar y ddealltwriaeth y dylai iechyd, gofal cymdeithasol, y trydydd sector a gwasanaethau annibynnol gael eu llunio a'u cyflenwi i hyrwyddo ac i gynyddu lles er mwyn i bobl allu byw'n annibynnol yn eu cymuned cyn hired ag sydd bosib. Golyga hynny ddarparu gwasanaethau yng nghartref y person ei hun neu o fewn lleoliad cymunedol i osgoi'r angen am ofal parhaus, aciwt neu sefydliadol.

Drwy weithio integredig, byddai Partneriaid yn disgwyl defnyddio'u sgiliau, eu gwybodaeth, eu profiad a'u hadnoddau cyfunol i gyflawni canlyniadau gwell ar gyfer Pobl Hŷn.

Mae’r Datganiad yn cydnabod fod gofal integredig yn ymwneud nid â strwythurau, sefydliadau neu lwybrau per se, nac â’r ffordd y mae gwasanaethau’n cael eu comisiynu neu eu hariannu. Ei brif bwrpas yw gofalu fod dinasyddion yn cael profiad gwell o ofal a chymorth, yn profi llai o anghydraddoldeb a’u bod yn cyflawni gwell canlyniadau.
Ond, yn yr hinsawdd ariannol bresennol, mae’n hanfodol hefyd cydnabod y rheidrwydd i unrhyw newid fod, o leiaf, yn gost niwtral yn y tymor hir a bod systemau wedi eu llunio i ddatblygu effeithlonrwydd.

Nid oes yna un model cydlynol ar gyfer Integreiddio yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd sy’n ymgrynhoi gwasanaethau iechyd cyhoeddus, sylfaenol, cymunedol, aciwt gofal cymdeithasol a gwasanaethau’r trydydd sector, ac sy’n cael ei gefnogi gan y rhanddeiliaid i gyd - a’i ddinasyddion yn arbennig.

Mae datblygu Model Gwasanaeth Integredig Gogledd Cymru ar gyfer Pobl Hŷn yn flaenoriaeth amlwg i Bartneriaid ac yn un y disgwylir ei chyflawni yn y 12 mis nesaf.

Mae Partneriaid hefyd wedi nodi ystod o fwriadau eraill a fydd yn cynnal y Model Gwasanaeth Integredig:

- Cryfhau trefniadau llywodraethu.
- Adolygu partneriaethau sy’n bod yn barod.
- Datblygu strategaethau comisiynu ar y cyd.
- Nodi adnoddau sy’n bod yn barod ar lefel ardal a fforio’r potensial ar gyfer cyllidebau cyfun.
- Dylunio cymysgedd sgiliau priodol ar gyfer y gweithlu a fforio’r opsiwn o gyd-leoli timau gyda threfniadau rheoli llinell sengl.
- Datblygu systemau gwybodaeth ar y cyd a rhannu swyddogaethau “ystafell gefn”.
- Datblygu gwasanaethau sy’n canolbwyntio ar ganlyniad, wedi’u cyfeirio tuag at ddinasyddion lle mae partneriaid allweddol eraill, e.e. tai a hamdden, wedi eu hymgysylltu a’u cydlynu’n llwyr.
- Gofalu fod sgiliau, gwybodaeth a phrofiad pobl hŷn eu hunain yn cyfrannu tuag at atebion cymunedol gwell.
- Gweithredu Pwyntiau Mynediad Sengl sirol,
- Gweithredu Cyfarwyddyd newydd Llywodraeth Cymru “*Proses Asesu Integredig ar gyfer Pobl Hŷn”*

# Datganiad o Fwriad Gogledd Cymru—

## 1 Rhagarweiniad

Mae'r papur canlynol yn cynnwys y Datganiad o Fwriad ar gyfer Gofal Integredig i Bobl Hŷn sydd ag Anghenion Cymhleth, rhwng Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Cafodd ei ddatblygu ar y cyd gan gydweithwyr o Awdurdodau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, i ddarparu datganiad rhanbarthol sengl.

Mae yna gydnabyddiaeth gadarn ar draws Gogledd Cymru o'r angen i weithio o fewn ôl troed rhanbarthol - er mwyn cymhwyso strwythur y Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) ac i wella effeithlonrwydd hyd yr eithaf; a bod yn ymatebol, yr un pryd, i angen lleol a datblygiadau gwasanaeth hanesyddol. Canlyniad hyn yw bod angen i gynllunio a chyflenwi gwasanaeth weithredu ar lefel ranbarthol, isranbarthol a sirol.

Mae strwythur rheolaeth glinigol y Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) yn cael ei adolygu ar hyn o bryd wrth i Awdurdodau Lleol aros am ganlyniad Adolygiad Williams – mae hyn yn rhwym o arwain at lefel o ansicrwydd trefniadaethol. Fodd bynnag, fe ysgrifennwyd y papur i adlewyrchu bwriad strategol y Partneriaid, gyda'r Weledigaeth, y Nodau a'r Amcanion ar gyfer Integreiddio ledled Gogledd Cymru'n rhai a fydd yn cael eu gweithredu beth bynnag fo strwythurau trefniadaethol y dyfodol.

Mae'r angen i fabwysiadu dull cadarnach a di-oed gydag Integreiddio Gwasanaethau ar gyfer Pobl Hŷn, wedi ei ledaenu'n glir gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r neges hon y un y mae asiantaethau partner yng Ngogledd Cymru'n ei chroesawu ac yn wir mae yna lawer o enghreifftiau o weithio cadarn mewn partneriaeth sy'n dangos yr ymrwymiad i'r dull gweithredu hwn. Rydyn ni'n bwriadu adeiladu ar hyn er mwyn datblygu agenda uchelgeisiol sy'n gwthio ffiniau sy'n bod yn barod ac sy'n datblygu gwasanaethau a systemau newydd ac arloesol.

Gellir dehongli "gweithio'n integredig" mewn sawl ffordd ac i ddibenion yr adroddiad hwn, rydyn ni'n defnyddio'r diffiniad (trefniadaethol) canlynol:

*System sengl o asesu anghenion, comisiynu a/neu ddarparu gwasanaeth sydd â'r nod o hyrwyddo aliniad a chydweithredu rhwng y sectorau gofal a gwella (Ham, 2008).*

Dylid ystyried y diffiniad hwn hefyd yn erbyn y Naratif i esbonio gofal a chymorth integredig i'r dinesydd, a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru.

*“Mae ’ngofal i’n cael ei gynllunio gen i â phobl sy’n gweithio efo’i gilydd i ’neall i, fy nheulu i a ’ngofalwr/’ngofalwyr i, a hynny’n rhoi rheolaeth i mi ac yn dod â gwasanaethau at ei gilydd i gyflawni’r canlyniadau sy’n bwysig i mi.”*

Rydym yn deall fod Gofal Integredig yn ymwneud nid â strwythurau, sefydliadau na llwybrau per se, nac â’r ffordd y mae gwasanaethau’n cael eu comisiynu neu eu hariannu. Ei brif bwrpas yw gofalu fod dinasyddion yn cael profiad gwell o ofal a chymorth, yn profi llai o anghydraddoldeb ac yn cyflawni gwell canlyniadau.

Yn yr hinsawdd ariannol bresennol, fodd bynnag, mae’n hanfodol hefyd cydnabod y rheidrwydd i unrhyw newid fod o leiaf yn gost niwtral yn y tymor hir.

Wrth ystyried unrhyw symudiad tuag at Integreiddio, mae angen i ni ofyn y canlynol:-

- A fydd o’n gwella ansawdd bywyd?
- A fydd o’n gwella ansawdd y gofal?
- A fydd o’n gwella profiad y dinesydd?
- A fydd o’n cynyddu effeithlonrwydd cost?

Y ddealltwriaeth sy’n honedig yn y papur yw y dylai iechyd, gofal cymdeithasol, gwasanaethau’r trydydd sector a gwasanaethau annibynnol ar gyfer Pobl Hŷn, gael eu llunio a’u cyflenwi i hyrwyddo ac i gynyddu lles er mwyn i’r person allu byw’n annibynnol yn eu cymuned cyn hired ag sydd bosib gyda gwasanaethau’n cael eu darparu yng nghartref y person hwnnw neu o fewn lleoliad cymunedol i osgoi’r angen am ofal parhaus, aciwt neu sefydliadol.

Y nodweddion craidd hyn yw’r sylfaen greiddiol ar gyfer cyd-bolisi diweddar - Gosod y Cyfeiriad, Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, Cyflawni Gofal Iechyd Lleol a Fframwaith ar gyfer Darparu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig. Maen nhw hefyd yn hanfodol i’r Fframwaith Asesu Pobl Hŷn newydd a’r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru).

Drwy weithio’n integredig byddai Partneriaid yn disgwyl defnyddio’u sgiliau, eu gwybodaeth, eu profiad a’u hadnoddau cyfunol i gyflawni canlyniadau gwell ar gyfer Pobl Hŷn.

Yn benodol, fe fydden nhw’n disgwyl:-

- Hyrwyddo perchnogaeth a rheolaeth dinasyddion o’u hanghenion personol o ran lles a gofal, gan greu diwylliant gofal annibynnol yn hytrach nag un dibynnol.
- Cynorthwyo pobl hŷn i fyw’n annibynnol ac i fod wedi’u cysylltu â’u cartref a’u cymuned, gyda’r bwriad o leihau’r posibilrwydd o unigrwydd ac arwahanrwydd.

- Darparu gofal rhagweithiol yn ogystal ag adweithiol gan ystyried ffyrdd o fodloni anghenion unigolion drwy amrywiaeth o ddulliau cynorthwyo o fewn y gymuned a beth bynnag fo'u meini prawf cymhwyster.
- Symleiddio gwasanaethau a gofal i fodloni anghenion unigol y person hŷn yn well.
- Lleihau dyblygu a chynyddu ymwybyddiaeth o wasanaethau a ddarperir i bobl hŷn ar draws pob sector.
- Lleihau defnydd anaddas o ofal tymor hirach a gofal dwysach neu fwy aciwt
- Manteisio cymaint ag sydd bosib ar yr adnoddau a fuddsoddwyd mewn gofalu am bobl hŷn

## 2 Fframwaith Cysyniadol

Er mwyn cynllunio ar gyfer datblygu Gwasanaethau Integredig a'u disgrifio, mae'r Datganiad o Fwriad hwn wedi defnyddio Partnership Continuum [(i)](gweler Atodiad 1). Gellir ei gymhwyso ar lefelau Strategol, Rheolaethol a Chyflenwi Gwasanaeth, gyda gweithrediad yn bosib ar sail ranbarthol, isranbarthol, ledled y sir ac ar sail ardal.

Bydd gweithio integredig yn datblygu ar gyflymder gwahanol ac ar gyfer gwasanaethau gwahanol ledled Gogledd Cymru. Fe wnawn sicrhau y bydd dysgu'n cael ei rannu drwy strwythurau partneriaeth. Gallai hyn fod drwy wefan a rennir gyda llyfrgell adnoddau a thempledi cyffredin ar gyfer dogfennau allweddol a/neu ddigwyddiadau dysgu rheolaidd.

Mae dysgu oddi wrth "Cydweithredu mewn Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru" [(ii)], o ddogfennau allweddol fel "Making integrated care happen at scale and pace"[(iv)] a phrofiadau'n genedlaethol wedi amlygu'r materion sy'n helpu ac yn llesteirio Integreiddiad ac fe ddaw â phragmatiaeth i'n dadl.

## 3 Model ar gyfer Integreiddio Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Bobl Hŷn / Model Gweithredu Targed

Yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd, nid oes yna un model cydlynol ar gyfer Integreiddio sy'n crynhoi'r holl wasanaethau iechyd cyhoeddus, gofal sylfaenol, cymunedol, aciwt, gofal cymdeithasol a gwasanaethau'r trydydd sector, ac sy'n cael ei gefnogi gan bob rhanddeiliad - gan gynnwys ei ddinasyddion.

Ond mae'r cydrannau model gwasanaeth canlynol yn rhai rydym yn eu cydnabod i allu cyfarfod y 4 thema allweddol a nodwyd gan bobl hŷn pan ofynnwyd iddyn nhw am yr anawsterau gwasanaeth a brofwyd ganddyn nhw h.y. cydlyniad gofal, dilyniant mewn gofal, systemau cyfeirio a chyfathrebu syml a chyson a chyrchiad i wasanaethau[(v)]:-

- Strwythurau Integredig o fewn Fframwaith Lywodraethu
- Integreiddiad Gweithredol/Gwasanaethau
- Atal ac ymyrryd cynnar
- Gofal Canolraddol/Ymyrryd Tymor Byr
- Cymorth Cymunedol Tymor Hirach
- Gofal Is-aciwt/Cleifion mewnol
- Gweithlu wedi'i gynllunio
- Swyddogaethau cefn swyddfa wedi'u symleiddio

Mae datblygu model gwasanaeth Integredig Gogledd Cymru ar gyfer Pobl Hŷn yn flaenoriaeth amlwg i Bartneriaid ac mae'n un y gwnawn ni weithio i'w gyflawni yn y 12 mis nesaf. Wrth wneud hyn, rydyn ni'n cydnabod bod amrywiadau'n bosib rhwng y 6 Ardal Awdurdod Lleol ynglŷn â pha gydrannau o'r 6 a restrir uchod fydd yn cael eu mabwysiadu, ym mha gam yn y 'Partnership Continuum' ac a fyddai hynny ar lefel strategol/reolaethol neu lefel cyflenwi gwasanaeth.

## 4 Trefniadau Cyfredol a'r Bwriad ar gyfer y Dyfodol

Mae'r adrannau canlynol yn darparu llinell sylfaen i "integreiddiad" cyfredol ynghyd â'r bwriad a'r dyhead ar gyfer y dyfodol yng Ngogledd Cymru.

### 4.1 Arweinyddiaeth i yrru'r Weledigaeth

Trefniadau cyfredol

i) Mae **Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru'n** cynnwys:-

- Arweinwyr a Phrif Weithredwyr chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru
- Cadeirydd a Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Cadeirydd a Phrif Swyddog Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru
- Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

Amcan allweddol Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yw hyrwyddo gweithio ar y cyd rhwng awdurdodau lleol a rhwng awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus eraill fel yr heddlu, iechyd a gwasanaethau tân ac achub. I'r diben hwn mae'n rheoli portffolio o brosiectau cydweithredol.

ii) Caiff gweithio mewn partneriaeth yng Ngogledd Cymru ei gynorthwyo ymhellach gan y **Bwrdd Rhaglen Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd.** Caiff y Bwrdd hwn ei gadeirio gan Brif Weithredwr sy'n noddi ac mae ei aelodaeth yn cynnwys Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol; Arweinydd neu aelod Gweithredol ar ran Gofal Cymdeithasol; swyddogion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol.

iii) Bydd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn cyfarfod yn ffurfiol â Chyfarwyddwyr Gweithredol BIPBC yn chwarterol yn **Fforwm Strategol Chwarterol Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGC) BIPBC.**

iv) Mae pob **Bwrdd Gwasanaeth Lleol**, o fewn ei Gynllun Integredig Sengl, ag ymrwymiad i wella gweithio cydweithredol.

v) Mae Awdurdodau Lleol â chysylltiadau allweddol â phedwar o **Grwpiau Rhaglen Glinigol (GRhG)** BIPBC - Meddygaeth Sylfaenol, Gymunedol ac Arbenigol, Plant a Phobl Ifanc, Therapïau a Chymorth Clinigol, ac Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. Mae Rheolwr Gwasanaethau Cymdeithasol uwch wedi ei gynnwys fel aelod ar bob un o'r pedwar GRhG ac fe'i gwahoddir i ddod i gyfarfodydd misol.

vi) Gweithio mewn ardaloedd yw sylfaen gwasanaethau Integredig yng Ngogledd Cymru. O fewn y trefniadau gweithio ar y cyd yng Ngogledd Cymru daw partneriaid allweddol ynghyd yn **Fforwm Partneriaeth Gwasanaethau Cymunedol** (rhanbarthol). Mae'r Fforwm hwn yn cynnwys cynrychiolwyr BIPBC (o ran iechyd y cyhoedd, gofal sylfaenol, gwasanaethau iechyd cymunedol ac iechyd meddwl), galwedigaethau contractwyr annibynnol, gwasanaethau cymdeithasol (o bob un o'r chwe Awdurdod Lleol) a'r Trydydd Sector. Fe sefydlwyd y Fforwm yn wreiddiol i yrru ymlaen ddatblygiad a gweithrediad gweithio mewn ardaloedd ac elfennau allweddol eraill gyda *Gosod y Cyfeiriad*.

Mae trafodaethau ar y gweill yn awr i ganfod a all y Fforwm gymryd rôl strategol ehangach i ddod yn Grŵp Cyflenwi rhanbarthol sy'n gyfrifol am yrru ymlaen yr holl gamau gofynnol a amlinellir yn y "Fframwaith ar gyfer Darparu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig" a "Darparu Gofal Iechyd Lleol". Drwy'r Fforwm hwn bydd anghenion poblogaeth hŷn Gogledd Cymru am gyflenwad gwasanaeth cydlynol a chyson yn cael ei gynllunio gan ddefnyddio data ardal / sirol / rhanbarthol a chenedlaethol.

<u>Bwriad ar gyfer y dyfodol</u>

i) Mae'r angen am strwythurau llywodraethu sirol cadarn sy'n hyrwyddo ac yn cynorthwyo arweinyddiaeth ar y cyd ar lefelau strategol, rheolaethol a chyflenwi gwasanaeth wedi ei gydnabod, gyda strwythur Fframwaith lleol (wedi'i atodi fel Atodiad 2) yn dangos y cysylltiadau rhwng ardaloedd, y sir a rhanbarth Gogledd Cymru gyfan.

Mae hwn wedi'i addasu i gyfarfod ag anghenion pob Sir.
Bwriedir y Fforwm ar lefel Sir i gynorthwyo gweithio integredig drwy ddatgloi rhwystrau a biwrocratiaeth ddiangen.

ii) Mae Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ddiweddar wedi symbylu Adolygiad Partneriaeth a bydd ei ganfyddiadau'n helpu i oleuo cynlluniau strategol ar gyfer Integreiddio.

**4.2 Comisiynu**

Trefniadau cyfredol

i) Mae Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus BIPBC 2012, yn darparu gwybodaeth ar asesiad o anghenion y boblogaeth a chysylltiadau pellach â nhw, a blaenoriaethau sy'n ymwneud ag iechyd a lles pobl hŷn yng Ngogledd Cymru. Yn ogystal mae yna Ddangosyddion Pobl Hŷn (2012) sydd wedi eu datblygu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

ii) Mae gweithgor rhanbarthol sy'n cynnwys rheolwyr gofal cymdeithasol ac iechyd wedi ei sefydlu fel symudiad cychwynnol tuag at gynllun comisiynu sengl, i sefydlu cwmpas y ddarpariaeth gyfredol a nodi continwwm gwasanaethau cymunedol sy'n dod dan ymbarél eang "Gwasanaethau Gofal Canolraddol".

iii) Mae Canolbwynt Comisiynu Gogledd Cymru ar gyfer lleoliadau drud, bychan eu nifer yn enghraifft bositif o weithgaredd comisiynu rhanbarthol ar y cyd ac mae'n weithgaredd y gellir adeiladu arno i ddatblygu cyd-gaffael lleoliadau preswyl, goruchwylio contract rhanbarthol a sicrhau dull cyson o osod ffioedd.

Bwriad ar gyfer y Dyfodol

Mae comisiynu'n gysyniad eang ac mae yna lawer o ddiffiniadau. Gellir ei ddisgrifio fel y dull o sicrhau'r gwerth gorau i ddinasyddion a threthdalwyr lleol. Dyma'r broses o drosi dyheadau ac angen, drwy nodi a chaffael gwasanaethau ar gyfer y boblogaeth leol, yn wasanaethau sy'n cyflenwi'r canlyniadau gorau posib o ran iechyd a lles a'r ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol orau posib o fewn y defnydd gorau o adnoddau sydd ar gael.

i) Gellir gwireddu manteision felly ar gyfer gwasanaethau Pobl Hŷn drwy gynllunio a chomisiynu gwasanaethau ar y cyd ar draws gofal cymdeithasol ac iechyd mewn partneriaeth â'r trydydd sector a'r sector annibynnol. Fe gaiff y rhain eu datblygu ar lefel ardal, sir a rhanbarth.

ii) Elfen gychwynnol o'r gweithgaredd yma fydd datblygiad datganiadau o sefyllfa'r farchnad.

iii) Bydd haeniad risg yn cael ei gynnwys hefyd gan fod hynny'n caniatáu targedu gwasanaethau priodol er mwyn gallu cyflawni cynllunio gofal sy'n rhagweithiol ac sydd wedi'i bersonoli. Yna gallai defnyddwyr y mae angen i'w hachos gael ei reoli oherwydd cymhlethdod ac anwadalwch eu cyflwr, ddisgwyl derbyn gofal drwy lwybrau gofal cyd-gysylltiedig a fydd yn sicrhau trosglwyddiad llyfn rhwng gwasanaethau.

iv) Mater allweddol fydd mabwysiadu dull o ofalu fod darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithredu mewn diwylliant sy'n galluogi, gan gefnogi annibyniaeth ac osgoi gwaethygiad diangen, e.e. derbyn i ysbyty.

v) Mae'r angen i ddatblygu model cadarn ar gyfer cyd-gomisiynu wedi ei drefnu gan Bartneriaid fel blaenoriaeth ar gyfer gweithredu ac mae bid am gymorth ychwanegol yn yr ymdrech yma'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

### 4.3 Rheoli Adnoddau/Cyllidebau Cyfun

Trefniadau cyfredol

i) O ran Cytundebau Ffurfiol S-33, mae pob sir â Chyllideb Gyfun ar gyfer y Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol.

ii) Mae **Conwy** â

- dau o Fflatiau Tai Gofal Ychwanegol Tymor Byr a ariennir ar y cyd i hwyluso rhyddhau cynnar o ysbyty ac ailalluogi pan na all pobl ddychwelyd adref.

iii) Mae **Sir Ddinbych** â

- chyllideb gyfun a gytunwyd ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

iv) Mae **Gwynedd** ag

- un fflat Tai Gofal Ychwanegol Tymor Byr a ariennir ar y cyd ar gyfer seibiant a gofal canolraddol

v) Mae **Wrecsam** ag

- iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cyd-ariannu nifer o fentrau ar hyn o bryd yn cynnwys teleofal, gofal canolraddol, rhaglen atal codymau, a chontractau trydydd sector sy'n cyflenwi gwasanaethau ataliol lefel isel, er enghraifft.

vi) Mae **Ynys Môn** â

- Chynllun Prynu Ategol sydd wedi bodoli am y 15 mlynedd ddiwethaf i gyd-ariannu iechyd a phecynnau gofal cymdeithasol i gynnal a chynorthwyo pobl gartref gydag anghenion gofal dwys a chymhleth er mwyn osgoi derbyniadau amhriodol neu gynamserol i ofal tymor hir.
- trefniadau sy'n bodoli ers amser maith gydag Iechyd i ariannu gwasanaethau Ymateb Cyflym er mwyn hwyluso rhyddhau o ysbyty ac i ddarparu ymyriad brys i osgoi derbyniadau amhriodol i ysbyty.

Bwriad ar gyfer y Dyfodol

i) Mae'n ofynnol i bob sefydliad gyflawni effeithlonrwydd sylweddol yn y blynyddoedd nesaf a gallai hyn fod yn rhwystr i ddatblygiad pellach cyllidebau cyfun ffurfiol. Fodd bynnag, gellid dadlau hefyd y gallai cronni cyllidebau arwain at effeithlonrwydd. Fel gydag unrhyw agwedd ar Integreiddio, mae angen fforio'r manteision i ddinasyddion a'r manteision trefniadaethol fel sail resymegol i gymryd camau felly. Mae hyn yn amcan a nodwyd o ran y gweithgor gwasanaethau Gofal Canolraddol y cyfeirir ato uchod.

Fodd bynnag, mae'n amlwg fod arnom angen gwell dealltwriaeth o'r adnoddau sydd ar gael yn y sir, yn ôl yr ardal fyddai orau, fel bod Partneriaid, fel cam cyntaf, yn gweithio efo'i gilydd i fapio'r gyllideb gyfredol, y stad a'r staffio sydd wedi'u dyrannu ar hyn o bryd i wasanaethau Pobl Hŷn.

## 4.4 Integreiddio Rheolaethol/Gwasanaeth

### 4.4.1 Gweithlu

Mae yna uchelgais yng Ngogledd Cymru gyfan i symud tuag at strwythur gweithlu sy'n fwy integredig ar gyfer Pobl Hŷn. Bydd y rhagfynegiadau ar gyfer y galw yn y dyfodol yn seiliedig ar newid demograffig a newid gwasanaethau o ofal cyfredol, aciwt neu sefydliadol i'r gymuned, ac ar yr un pryd yn ystyried y galw cynyddol sy'n codi o'r angen i ddelio â lles, cynhwysiad cymdeithasol, iechyd y cyhoedd a'r cynnydd disgwyliedig mewn rheolaeth cyflyrau cronig.

Trefniadau cyfredol

i) Mae'r sefydliadau i gyd yn darparu cyfleoedd datblygu sy'n cynorthwyo staff o'r awdurdodau iechyd a'r awdurdodau lleol yn ogystal â defnyddio grantiau Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol i gynnal datblygiadau yn y trydydd sector a'r sector annibynnol.

ii) Mae **Conwy** â

- rheolaeth sengl o Wasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion.
- cyd-leoliad staff iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn yng Nghanolfan Crwst, Plas Menai a Meddygfa Abergele gyda Llys Dyfrig yn Llandudno'n agor ym Mawrth 2014.
- cynllunio gofal a thriniaeth integredig, mewn perthynas â'r Mesurau Iechyd Meddwl.

ii) Mae **Sir Ddinbych** â

- threfniant rheolaethol llinell sengl ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion.
- 2 Dîm Ardal sy'n gyffiniol â ffiniau ardal iechyd. Mae yna gyfleuster swyddfa i'w rannu mewn un rhan o'r Sir.

iii) Mae **Sir y Fflint** â

- threfniant rheolaeth llinell sengl ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion
- 3 o dimau Ardal ar gyfer Gwasanaethau Pobl Hŷn sy'n gyffiniol ag ardal iechyd. Mae un wedi'i gyd-leoli â chydweithwyr iechyd mewn ysbyty cymunedol lleol. Mae'r rhain wedi eu sefydlu yn cynnwys Gweithwyr Cymdeithasol a Therapïau Galwedigaethol gyda'r dyhead o gyd-leoli'r 2 dîm sy'n weddill yn 2014.

iv) Mae **Gwynedd** â

- staff gofal cymdeithasol sy'n gweithio ym Meirionnydd, wedi eu cyd-leoli â chydweithwyr iechyd. Ar hyn o bryd mae staff yn gweithio o 6 o "fannau glanio", a 5 o'r rheiny mewn Canolfannau Iechyd neu Ysbytai Cymunedol.
- Trefniant rheoli llinell sengl ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Oedolion.

v) Mae **Wrecsam** â

- gweithio cadarn mewn partneriaeth o ran gwasanaethau gofal canolraddol gyda gweithwyr generig cyflogedig iechyd wedi'u lleoli â thîm gwaith cymdeithasol pobl hŷn ac yn cael eu rheoli gan reolwr tîm gwaith cymdeithasol.
- dull gweithredu tîm amlddisgyblaeth integredig sy'n cael ei arbrofi yn Ysbyty Maelor yn rhan o'r prosiect eiddilwch i leihau derbyniadau y gellid eu hosgoi ac i hwyluso rhyddhau amserol.
- Gweithwyr cymdeithasol wedi'u cyd-leoli yn Ysbyty'r Waun yn rhan o Brosiect Ardal y De.
- Cynllunio gofal a thriniaeth integredig o ran Mesurau Iechyd Meddwl.

vi) Mae **Ynys Môn** â

- Thîm Nyrsio Ardal wedi ei gyd-leoli o fewn Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion yn Llangefni.
- Tîm Gwaith Cymdeithasol integredig Gwynedd ac Ynys Môn wedi ei leoli yn Ysbyty Gwynedd.
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol integredig wedi'i gyd-leoli ar ddau safle yn Llangefni a Chaergybi.

<u>Bwriad ar gyfer y dyfodol</u>

i) Fe wnawn bennu'r gweithlu sy'n ofynnol i gyfarfod â'r Model Gwasanaeth Integredig ar gyfer Pobl Hŷn i ofalu fod gennym ddigon o staff sydd â'r sgiliau priodol yn y lle priodol. Mae'n wirebol fod hyn yn sialens arbennig i ardaloedd gwledig y Sir.

ii) Fe wnawn fforio cyfleoedd ar gyfer cyd-leoli timau - gan nodi'r angen am bragmatiaeth yn yr oblygiadau cost a rennir o ran darpariaeth felly.

iii) Mae trefniadau a rennir wedi eu nodi i fod yn allweddol o ran arwain newid a thorri ar draws y gwasanaethau tameidiog a'r gweithio ynysig sy'n nodweddu systemau sy'n gamweithredol. Mae angen i ni ddatblygu llwybrau integredig sydd wedi eu datblygu'n dda i ofalu nad yw dinasyddion yn profi datgysylltiad.

Rydyn ni'n bwriadu dechrau trafodaeth i fforio opsiynau sefydlu Rheolwyr Ardal ar y cyd. Byddai ganddyn nhw gyfrifoldeb o drefnu a datblygu rheolaeth ystod gymhleth o wasanaethau arbenigol, amlasiantaethol mewn ffordd sy'n gost-effeithiol ac ymatebol, gan integreiddio arferion sefydledig a staff amlddisgyblaeth ar draws y llwybrau gofal.

iv) Mae ymarfer Asesu Partneriaeth diweddar a gynhaliwyd gan y Timau Ardaloedd ym mhob Sir, wedi dadansoddi trefniadau gweithio cyfredol ac wedi nodi meysydd sydd i'w gwella. Bydd yr asesiad hwn yn sylfaen ar gyfer y dyfodol.

4.4.2 Swyddogaethau Cefn Swyddfa

Mae'r angen i sicrhau fod Integreiddiad yn seiliedig ar ddull systemau cyfan/trefniadaethol yn cael ei amlygu yn "Cydweithio mewn Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru"[(ii)]. Mae'r ddogfen hon yn dangos y risgiau o ddatblygu gwasanaethau integredig pan nad yw'r holl adrannau allweddol e.e. cyllid, adnoddau dynol, gwybodaeth, yn gysylltiedig â'r siwrne o'r cychwyn. Mae angen iddyn nhw fod yn ymglymedig â chytuno'r lefel sydd i'w chyflawni ar y 'Partnership Continuum'.

Ar gyfer y Bwrdd Iechyd, fe ddarperir swyddogaethau cynnal fel 'cyflogres, caffael ac agweddau trafodaethol ar Adnoddau Dynol' gan Bartneriaeth Cyd-wasanaethau Cymru Gyfan.

Dylid cynnal gweithio integredig effeithiol â pholisïau a gweithdrefnau sydd, ar y gorau, ar y cyd ac o leiaf wedi eu halinio ac fe wnawn ni fforio hyn yng nghyd-destun Partneriaeth Cymru Gyfan.
Mae yna hefyd angen rhaglenni hyfforddi a rennir, rheolaeth data "ar y cyd" a systemau gwybodaeth sy'n "siarad" â'i gilydd.

<u>Trefniadau cyfredol</u>
i) Mae BIPBC a'r 6 Awdurdod Lleol yn datblygu Polisi Dewis ar y cyd i gynorthwyo rhyddhau o ysbyty'n amserol ac yn briodol.

ii) Mae pob Awdurdod Lleol â chytundeb i wneud taliadau gofal nyrsio sydd wedi'u hariannu ar ran y Bwrdd Iechyd

iii) Mae **Conwy**
- wedi datblygu protocol o rannu gwybodaeth ynglŷn â threfniant monitro a chyd-fonitro cartrefi gofal.

iv) Mae **Sir Ddinbych** a v) **Sir y Fflint** â

- Chytundebau Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) mewn nifer o wasanaethau i gynorthwyo gweithio ar y cyd.

vi) **Gwynedd**

- Mae'n aelod o'r 'Welsh Systems Consortium' [WSC] sy'n cynnwys 8 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru, a brynodd system ofal cymdeithasol yn 2013. Mae'r WSC ar hyn o bryd yn ymgymryd â chaffael ar y cyd ag Iechyd - ar gyfer system wybodaeth Gofal Cymunedol er mwyn gwireddu gweledigaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cymunedol gan ddefnyddio'r un system.

vii) Mae **Wrecsam** â

- Thîm Strategaeth Gweithlu a Datblygu Gofal Cymdeithasol Oedolion sy'n hyfforddi staff gweithredol sy'n gweithio ar draws y sbectrwm Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- Gofal Canolraddol, Gofal Uwch a Phrosiect Ardal y De – sy'n cael eu cynnal gan systemau rheoli data ar y cyd.

<u>Bwriad ar gyfer y dyfodol</u>

i) Yng Ngogledd Cymru fe wnawn ystyried sut y gellir mynd â datblygiad systemau gwybodaeth ar y cyd ymlaen o fewn model cyfredol y Bartneriaeth Gwasanaethau a Rennir. Bydd hyn yn ystyried y rhaglen gaffael genedlaethol ar gyfer System Wybodaeth Gofal Cymunedol h.y. ateb electronig a fydd yn hwyluso rhannu data ar draws Iechyd Cymunedol a Gofal Cymdeithas.

ii) Mae'r Consortiwm Systemau Cymreig sy'n cynnwys tri o Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn ynghyd â phump o Awdurdodau Lleol eraill, wedi cofrestru ar gyfer ymarferiad caffael ar y cyd â Gwasanaeth Gwybodeg y GIG. Mae wedi ei alw'n 'Community Care Information Solution' (CCIS). Mae pob un o'r 22 o Awdurdodau Lleol a'r 7 Bwrdd Iechyd Rhanbarthol wedi eu henwi yn y broses o dendro, sydd eisoes ar y gweill.

iii) Mae grŵp CCIS rhanbarthol Gogledd Cymru wedi ei sefydlu ac mae'n cynnwys arweinwyr Cymorth Busnes a Phenaethiaid TGCh. Mae'r grŵp hefyd yn cynnwys partneriaid o gyflenwyr cyfredol PARIS (Conwy, Sir y Fflint a Sir Ddinbych) gyda'r bwriad o gael dull gweithredu rhanbarthol ledled Gogledd Cymru.

iv) Y bwriad yw cynnal yr amcanion gweithio integredig sydd ynddynt eu hunain yn cyflenwi gwelliannau i gleifion ac arferion gweithio mwy effeithlon. Yn gyffredinol, byddai system sengl ar gyfer iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol yn galluogi:

- Gwell penderfyniadau a hynny’n arwain at well canlyniadau i bobl – drwy gyrchiad i ddata sy’n fwy cyflawn.  Dylai hyn wella canlyniadau i gleifion a helpu i osgoi derbyniadau a gwella cynllunio gwasanaeth.
- Gwell cydgysylltu – rhwng awdurdodau a hynny’n golygu gwell effeithlonrwydd a gwell gwasanaethau i gleifion.
- Gwell diogelwch i gleifion unigol – drwy lai o wallau trawsysgrifol, gwell prydlondeb, lleihad mewn cyfeiriadau ‘coll’, y gallu i olrhain yn well i un pwynt.
- Lleihau ymweliadau â’r ganolfan – drwy gyrchiad i wybodaeth wrth deithio.
- Llai o ddyblygu wrth gipio data a gwirio gwybodaeth.
- Lleihad mewn ymyriadau diangen.
- Mwy o hyder yn hunaniaeth y person.
- Set ddata graidd ar y cyd ar draws iechyd a gofal cymdeithasol

### 4.4.3 Partneriaethau Ehangach

Mae’n ofynnol i ddinasyddion a gofalwyr gael ystod o wasanaethau ar wahân i iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn iddyn nhw fyw bywydau annibynnol.  Er enghraifft, bydd tai a chludiant yn effeithio’n gyfartal ar y ffordd y bydd pobl yn byw, eto gall y gwasanaethau hyn weithredu weithiau’n gyfochrog, yn hytrach nag mewn partneriaeth â’i gilydd.

<u>Trefniadau cyfredol</u>
Hyd yma cafwyd rhai trafodaethau a pheth cydweithredu drwy bartneriaethau sy’n bod yn barod, yn enwedig drwy strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ac ymgysylltiad achlysurol â phrosiectau penodol.

Mae Grŵp Cludiant i Iechyd yng Ngogledd Cymru wedi ei sefydlu.  Fe’i cadeirir gan BIPBC ac mae’n cynnwys Llywodraeth Cymru, cynrychiolwyr y chwe Awdurdod Lleol, Taith – y consortiwm cludiant rhanbarthol, WAST a Chludiant Cymunedol.

Nod y grŵp hwn yw deall a gwella cyrchiad i wasanaethau a chyfleusterau iechyd yng Ngogledd Cymru.  Mae’r grŵp hefyd yn ceisio sicrhau ffit strategol gwell rhwng cynllunio a chyflenwi ar gyfer yr holl bartneriaid sy’n cymryd rhan.

<u>Bwriad ar gyfer y dyfodol</u>

Mewn ymateb i rai o’r anawsterau hyn, dylem fod â llwybrau gofal sy’n cynorthwyo cleifion â’u taith drwy wasanaethau amlasiantaeth a’r rhai sy’n gweithio ar draws ffiniau i gynorthwyo pobl i gyrchu a thrafod gwasanaethau ac i drawsnewid o un lleoliad gofal i un arall.  Mae hyn yn arbennig o berthnasol i’r dinasyddion a’r gofalwyr hynny sy’n profi anawsterau’n cyrchu gofal gan dimau sydd y tu allan i gylch gwaith darpariaeth integredig.

4.5 Gwasanaethau sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd / sy'n cael eu Cyd-gynhyrchu

Trefniadau cyfredol

Rydyn ni yng Ngogledd Cymru'n cydnabod gwerth nid dim ond mabwysiadu ymddygiadau ffordd iach o fyw, ond hefyd sicrhau fod rhwydweithiau cymdeithasol cadarn yn eu lle i gynorthwyo unigolion. Gall bod yn aelod gweithgar o gymuned gynyddu lefel y rheolaeth sydd gan bobl o'u bywydau a chyfrannu tuag at iechyd a lles gwell. Gall cyd-gynhyrchu – defnyddio profiad, gwybodaeth a galluoedd gweithwyr proffesiynol, asiantaethau partner, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u cymunedau – gyfrannu tuag at well canlyniadau. Gall hefyd helpu i sicrhau cyflawni gwell gwerth am arian a gall helpu i rymuso cymunedau.

Mae Adroddiad Blynyddol 2013 Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd yn cydnabod ac yn ategu pwysigrwydd agweddau fel hyn. “Mae cyd-gynhyrchu'n golygu fod pobl yn rhannu penderfyniadau am eu hiechyd a'u lles â gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n golygu fod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn symud tuag at swyddogaeth o hyrwyddo ac i ffwrdd oddi wrth y rôl draddodiadol o drefnu. Mae'n golygu newid grym, ac mae'n golygu fod ar bawb angen y sgiliau i gymryd rhan yn y cyd-benderfynu.”

Fe ddefnyddir dulliau cyd-gynhyrchu wrth gynllunio a datblygu rhai mentrau cymunedol ac mae'r chwe Awdurdod Lleol yn datblygu cyd-ddealltwriaeth o'r fethodoleg yma.

Rydyn ni hefyd yn ymchwilio datblygiad potensial cynlluniau mentrau cymdeithasol - busnesau sy'n masnachu i daclo problemau cymdeithasol, i wella cymunedau, cyfleoedd bywyd pobl, neu'r amgylchedd.

Mae'r Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd wedi nodi'r angen i ddatblygu dull gweithredu a rennir tuag at fentrau cymdeithasol yn rhan o'r gweddnewid sydd ei angen i weithredu'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles. Mae ein cynigion ar gyfer defnyddio'r cyllid yn cynnwys comisiynu arbenigedd i'n cynorthwyo â'r dull gweithredu yma.

Fe lansiwyd y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yn 2003 i ddelio â phroblemau a dyheadau pobl sy'n 50 a hŷn ac sy'n byw yng Nghymru. Mae'r strategaeth yn seiliedig ar heneiddio fel cysyniad positif. Mae dulliau a strwythurau wedi eu sefydlu ar lefelau lleol ym mhob rhan o Ogledd Cymru ac maen nhw'n caniatáu i wasanaethau cyhoeddus glywed llais pobl hŷn a chaniatáu i bobl hŷn fod yn gysylltiedig â'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Cydnabyddir fod Gofalwyr yn bartneriaid allweddol yng nghyflenwad gofal ac mae cefnogi eu hymglymiad yn ganolog i gynaladwyedd darpariaeth gofal. Disgwylir i'r Bwrdd Iechyd, Awdurdodau Lleol a sefydliadau'r Trydydd Sector yng Ngogledd

Cymru weithio mewn partneriaeth i gyflawni'r newid diwylliannol ac i gyflenwi'r prif ddyletswyddau sy'n codi o'r Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010. Bydd partneriaethau cadarn ac effeithiol yn hanfodol i gyflenwad llwyddiannus y camau allweddol sy'n cynnwys gwell gweithio ar y cyd, systemau adrodd ar y cyd a gwasanaethau gwybodaeth i ofalwyr wedi'u cryfhau.

i) Yng **Nghonwy**...

- Fe sicrhaodd yr Ymgynghoriad ar foderneiddio Gwasanaethau Pobl Hŷn fod dinasyddion yng nghraidd y datblygiadau ac mae pob cynllun newydd wedi ei ordanysgrifio.
- Felly hefyd mae Gofalwyr â phroffil uchel ac maen nhw'n weithredol gysylltiedig â datblygu gwasanaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd ac Awdurdod Lleol Conwy wedi bod yn gweithio efo'i gilydd i baratoi, cyhoeddi a gweithredu Strategaeth ar gyfer Gofalwyr.
- Mae newid diwylliannol yng ngrymusiad gofalwyr i fod yn rhan o'r prosesau o benderfynu ynghylch rheoli gofal.
- Datrysiadau Symud Ymlaen, mae ail-ddarparu gweithgareddau iechyd a lles (cymdeithasol a Hamdden) yn enghraifft dda o gyd-gynhyrchu, wedi'i reoli gan y trydydd sector gyda sail o wirfoddolwyr a chymorth gan yr Awdurdod Lleol drwy grant.

ii) Yn **Sir Ddinbych** –

- Mae prosiect Gwasanaethau Gofal Iechyd Cymunedol Gogledd Sir Ddinbych wedi bod yn gweithio â defnyddwyr gwasanaeth a chynrychiolwyr y gymuned sy'n cymryd rhan yn natblygiad cynigion ar gyfer yr ysbyty cymunedol newydd sydd wedi'i gynllunio yn yr ardal. Rydyn ni'n archwilio potensial menter gymdeithasol neu entrepreneuriaeth i gefnogi pobl leol i ddod yn ymglymedig â chyfleusterau a gwasanaethau'r ysbyty, gan weithio gydag asiantaethau lleol eraill.
- Mae NEWCIS wedi'u contractio i gynnal Asesiadau Gofalwyr

iii) Yn **Sir y Fflint**

- mae yna nifer o enghreifftiau ardderchog o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd / sy'n cael eu cyd-gynhyrchu. Mae'r rhain yn cynnwys:-
- defnyddwyr gwasanaeth presennol a chyn-ddefnyddwyr gwasanaeth Iechyd Meddwl fel partneriaid ym mhob agwedd ar ddarparu gwasanaeth. Maen nhw'n cynorthwyo gyda chyflenwi hyfforddiant, yn mynychu cyrsiau hyfforddi ac maen nhw'n rhan o'r agwedd bositif gyffredinol tuag at gyd-gynhyrchu darpariaeth gwasanaeth a chyflenwi canlyniadau.
- fel rhan o ddatblygiad gwasanaethau parhaus, mae Cyngor Sir y Fflint yn rhoi cyfle i gymunedau gyd-gynhyrchu opsiynau ar gyfer cyflenwi gwasanaeth yn y dyfodol yn 2014

- Cynlluniau Busnes unigol yn ôl y gwasanaeth yn ystyried opsiynau i ddatblygu gwasanaethau pellach sydd wedi'u cyd-gynhyrchu.

iv) Yng **Ngwynedd**

- mae yna nifer o grwpiau sy'n bod yn barod, er enghraifft y Fforwm Pobl Hŷn, a Chanolfannau Heneiddio'n Dda sy'n rhoi cyfle'n rheolaidd i gael sgyrsiau sy'n helpu i oleuo cyfeiriad ein gwasanaeth o ganolbwyntio ar y dinesydd. Y bwriad yw defnyddio mwy ar y grwpiau sy'n bod yn barod gan sicrhau llenwi unrhyw fylchau sy'n ymwneud ag ymgysylltu dinasyddion.

v) Yn **Wrecsam**

- Mae cyd-gynhyrchu gwasanaethau a datblygu cymunedau cryf a gwydn yn flaenoriaeth i'r Awdurdod. Mae'r adran Gofal Cymdeithasol Oedolion wedi arwain ar ystod o fentrau sydd wedi'u cyd-gynhyrchu, yn cynnwys y cynllun Grant Cynhwysiant Cymunedau, sy'n darparu cyllid cychwynnol i grwpiau cymunedol newydd a rhai sy'n bod yn barod er mwyn datblygu cymorth cymunedol lefel isel i bobl hŷn. Mae Wrecsam hefyd yn defnyddio cyfwelwyr sy'n gyfoedion, wedi'u recriwtio o Fforwm Dros 50 Wrecsam, i gynnal cyfweliadau ansoddol manwl â defnyddwyr gwasanaethau pobl hŷn.

vi) Yn **Ynys Môn**

- mae yna nifer o grwpiau sy'n bod yn barod sy'n cynnwys, er enghraifft, Gyngor a Fforwm Pobl Hŷn a 3 o Ganolfannau Heneiddio'n Dda lle ceir cyfleoedd rheolaidd i sgwrsio a hynny'n helpu i oleuo cyfeiriad datblygiad a chyflenwad ein gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Y bwriad yw defnyddio mwy ar y grwpiau hyn wrth ddatblygu gwasanaethau ataliol cymunedol ar yr Ynys drwyddi draw.
- mae model o ymgysylltu di-ffael, dan y Strategaeth Pobl Hŷn, wedi ei ddatblygu â nifer o gymunedau lleol i ail-lunio a datblygu ystod o wasanaethau ataliol cymunedol sy'n hyrwyddo iechyd a lles a chynhwysiant cymdeithasol i bobl hŷn.
- yn rhan o ddatblygiad gwasanaeth parhaus dan y Rhaglen Trawsnewid ar gyfer Gwasanaethau Oedolion Hŷn, bydd cyfleoedd i gymunedau gyd-gynhyrchu opsiynau ar gyfer cyflenwi gwasanaeth yn y dyfodol yn 2014 a thu hwnt yn parhau. Mae dull gweithredu Partneriaeth Gymunedol â rhanddeiliaid allweddol a grwpiau cymunedol lleol yn cael ei ddatblygu yn ardal Biwmares er mwyn defnyddio asedau ac adnoddau cymunedol yn fwy effeithiol.

<u>Bwriad ar gyfer y dyfodol</u>

i) Gyda'n gilydd fe wnawn ni archwilio'r ffordd y gallwn adeiladu ar waith cynnar ar gyd-gynhyrchu, gan weithio i sefydlu'r egwyddorion wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau'r dyfodol.

ii) Fe wnaiff Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd weithio ag Adrannau Adfywio Awdurdodau Lleol a mentrau cymdeithasol sefydledig yng Ngogledd Cymru drwyddo draw i ymchwilio, fforio a dysgu mwy am ddatblygiad mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol. Er bod yna enghreifftiau o fentrau cymdeithasol sydd wedi eu hen sefydlu yn gweithredu ledled Gogledd Cymru, mae yna le i ddysgu oddi wrthyn nhw, i'w datblygu ymhellach ac i sefydlu Mentrau Cymdeithasol a / neu Gydweithfeydd mewn meysydd gwasanaeth eraill. Fe wnaiff Gogledd Cymru gynnal cyfres o ddigwyddiadau i ddysgu mwy am ddatblygiad mentrau felly ac ymdrechu i sefydlu mentrau pellach mewn gofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd.

iii) Mae'r Tîm Arweinyddiaeth Ardal yn cydnabod yr angen am ddull sy'n Canolbwyntio ar Ganlyniadau, wrth weithio'n uniongyrchol â phobl hŷn a hefyd wrth ddatblygu gwasanaethau. Bydd y Fframwaith Asesu newydd yn sicrhau fod canlyniadau'n cael eu cipio gan ba broffesiwn bynnag sy'n cynnal yr asesiad, tra bo'r ddogfen ranbarthol ddiweddar "Datblygu Canlyniadau ar y Cyd ar gyfer Ardaloedd" yn galluogi partneriaid i gytuno ar y canlyniadau blaenoriaethol sydd i'w cyflawni drwy gamau cyfundrefnol y naill a'r llall.
.
iv) Fe ddatblygir y ddarpariaeth llwybrau sy'n cwmpasu hunanreolaeth drwodd hyd at ofal diwedd oes.

v) Mae **Conwy** â

- Grŵp Corfforaethol wedi ei sefydlu i ystyried cyfleoedd o weithio â mentrau cymdeithasol i gyflenwi ystod o wasanaethau'n cynnwys gofal cymdeithasol.

vi) Yn **Sir y Fflint,**

- Mae Gwasanaethau Cynnal Iechyd Meddwl yn disgwyl bwrw ymlaen â Menter Gymdeithasol yn gynnar yn 2014 gyda defnyddwyr gwasanaeth, y gymuned a'r cyngor er mwyn ymgysylltu'r gymuned ac unigolion yn ehangach â darpariaeth gwasanaeth.

vii) Yn **Wrecsam**

- I ehangu ac adeiladu ar y gwaith positif a wnaethpwyd gyda chyd-gynhyrchu mewn partneriaeth â BIPBC.

## 4.6 Integreiddio Cyflenwad Gwasanaeth

4.6.1 Darparu gwasanaeth

Trefniadau presennol

i) Yng **Nghonwy**

- darperir Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol i oedolion drwy drefniant rheolaeth llinell sengl.
- Mae'r Awdurdod Lleol yn rhoi mewnbwn proffesiynol i wasanaethau Gofal Canolraddol ac mae â Chytundebau Lefel Gwasanaeth i roi cymorth i Wasanaethau Gofal Canolraddol a gwasanaethau Diwedd Oes.

ii) Yn **Sir Ddinbych**,

- Darperir Timau Iechyd Meddwl Cymunedol ar gyfer oedolion drwy strwythur rheolaeth llinell sengl. Rheolir y Gweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn lleol gan yr Awdurdod Lleol drwy gyllideb gyfun. Mae'r Awdurdod Lleol yn rhoi mewnbwn proffesiynol i'r Gwasanaeth Gofal Uwch ac fe gefnogodd y Cynllun Tymhorol.

iii) Yn **Sir y Fflint,**

- mae'r Tîm Ymyrryd mewn Argyfwng yn cynnwys staff iechyd a gofal cymdeithasol ac mae'n gweithio mewn partneriaeth ar draws ffiniau iechyd a gofal cymdeithasol i gynnal pobl gartref yn ystod argyfwng meddygol ac mae'n cynorthwyo rhyddhau cyflym o ysbyty.
- fe ariennir 3 Gweithiwr Cymorth Dementia gan Gyllid Gofal Iechyd Parhaus a gyflenwir gan Ofal Cymdeithasol yn benodol i gysylltu pobl sydd â dementia â'r gwasanaethau cymorth cymunedol fel eu bod yn gallu cynnal eu lle yn y gymuned am gyn hired ag sydd bosib.
- mae Gweithiwr Cymdeithasol Dementia Cynnar yn gweithio ar draws ffiniau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn arbenigo mewn achosion sy'n unigryw yn eu cymhlethdod ac yn cefnogi datrysiadau creadigol sy'n cynnal pobl gartref.
- mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru'n cyflenwi asesiad gofalwyr ar ran partneriaid statudol.
- mae Cytundebau Gwasanaeth yn bodoli ar gyfer darparu gwasanaethau cyfarpar gyda "Gofal a Thrwsio" ac ar gyfer cymorth gweledol a nam ar y clyw gyda Vision Support a Chymdeithas y Byddar Gogledd Cymru a Chyngor Cymru i'r Deillion.
- mae 3 o staff iechyd o fewn y tîm Ailalluogi sydd wedi'u lleoli o fewn yr awdurdod lleol, yn cael eu rheoli'n ddyddiol gan y Rheolwr Ailalluogi.

iv) Yng **Ngwynedd**

- Mae darpariaeth gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion drwy drefniant rheolaeth llinell sengl.
- Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu mewnbwn proffesiynol i wasanaethau Gofal Canolraddol a Gofal Lefel Uwch.
- Mae darpariaeth Gofal Dydd Arbenigol ar gyfer unigolion sydd â dementia'n cael ei ariannu ar y cyd o fewn dwy ardal – Dwyfor ac Arfon.

v) Yn **Wrecsam**

- Mae'r Gwasanaeth Gofal Canolraddol yn cynrychioli partneriaeth ar y cyd rhwng Adran Gofal Cymdeithasol Oedolion Wrecsam a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r fenter hon yn cynnal yn llwyddiannus gyflawniad canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol wrth gyflenwi'r gofal a'r cymorth gorau i fodloni anghenion pobl hŷn Wrecsam.
- Mae Gofal Lefel Uwch wedi ei weithredu'n llwyddiannus yn Ne Wrecsam ac mae'n dangos cydweithio effeithiol rhwng iechyd a gofal cymdeithasol ar lefel strategol a lefel weithredol.
- Mae Peilot Ardal y De'n cynrychioli Menter Iechyd a Gofal Cymdeithasol llwyddiannus ar y cyd. Mae'n rheoli rhyddhad cleifion sydd â chyflyrau cronig o ysbytai. Fel arall fe allent wynebu arhosiad hir diangen mewn ysbyty.
- Mae Hyfforddwyr Technegol a gyflogir gan Iechyd yn rhan greiddiol o'r Gwasanaeth Ailalluogi.
- mae nifer o brosiectau peilot ar y gweill i asesu (a) gwerth Gwasanaeth Gofal Canolraddol sydd wedi'i ehangu (Gweithwyr Cymdeithasol, Therapyddion, Nyrsys Ardal a gweithwyr generig) - ar gael dros y penwythnos er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n cael eu rhyddhau o ysbyty'n ddiogel yn ystod cyfnod pwysedd Gaeaf; (b) gwerth presenoldeb gweithiwr cymdeithasol o fewn yr Uned Asesu Feddygol yn Ysbyty Maelor i helpu i atal derbyniadau y gellid eu hosgoi i ysbyty a hwyluso rhyddhau cynharach.

vi) Yn **Ynys Môn**

- Mae asesiadau amlddisgyblaeth a threfniadau rheoli gofal effeithiol wedi bodoli am yr 20 mlynedd diwethaf drwy'r Cynllun Model Môn sydd wedi gweithredu ym mhob un o'r 6 llain ddaearyddol sy'n gyffiniol ag ardaloedd dalgylch Meddygon Teulu. Ar hyn o bryd, mae'r Tîm Ardal yn arwain ar gefnogi a datblygu parhaus y trefniadau hyn ar lefel leol.
- Mae Gofal lefel uwch wedi ei weithredu'n llwyddiannus yn Ynys Môn ac mae'n dangos y cydweithio effeithiol rhwng iechyd a gofal cymdeithasol ar lefel strategol a lefel weithredol.
- Mae yna gydweithio parhaus drwy drefniadau Timau Ardaloedd i ddatblygu dull mwy integredig o gyflenwi gwasanaethau Gofal Canolraddol sy'n cynnwys Gwasanaeth Ymateb Cyflym a model derbyn o Wasanaeth Ailalluogi.
- Mae staff Nyrsys Ardal wedi eu cyd-leoli o fewn Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion yn Llangefni er mwyn cynorthwyo trefniadau'r Un Pwynt Mynediad, Asesu a Rheoli Gofal.
- Caiff Gweithwyr Cymorth Dementia eu hariannu gan Gyllid Gofal Iechyd Parhaus a gyflenwir yn arbennig gan Ofal Cymdeithasol i gysylltu pobl sydd â dementia â gwasanaethau cymorth cymunedol.

Bwriad ar gyfer y dyfodol

i) Yng **Nghonwy**

- Bydd Gofal Lefel Uwch, Gofal Canolraddol a Gofal Diwedd Oes yn cael eu cyflenwi ar y cyd drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

ii) Yn **Sir Ddinbych**,

- mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio â Phrifysgol Betsi Cadwaladr ar ddatblygiad Prosiect Gwasanaethau Gofal Iechyd Gogledd Sir Ddinbych a Chanolfan Gofal Sylfaenol Llangollen a chyflwyniad Gwasanaethau Gofal Lefel Uwch yn yr Ardaloedd Canolog a De.

iii) Yn **Sir y Fflint,**

- mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio â BIPBC i ddatblygu Canolfannau Gofal Sylfaenol ym Mwcle a Fflint a chyflwyniad Gwasanaethau Gofal Lefel Uwch ym mhob ardal yn Sir y Fflint. Mae Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gweithredu strwythurau ardaloedd sy'n gyffiniol ac maen nhw wedi datblygu timau arweinyddiaeth ardaloedd sy'n gyrru agendâu lleol.

iv) Yng **Ngwynedd**

- Bydd gofal dydd arbenigol ar gyfer unigolion sydd â dementia'n cael ei ariannu ar y cyd yn y drydedd ardal – Meirionnydd.

v) Yn **Wrecsam**

- bydd y Gwasanaeth Gofal Canolraddol yn cael ei wella yn ei faint a'i gwmpas er mwyn cyfarfod â'r twf yn y galw. Y dyhead yw i oriau gweithredu'r gwasanaeth gael eu hymestyn er mwyn derbyn cyfeiriadau gyda'r nos ac ar benwythnosau.
- bydd Gofal Canolraddol, Gofal Lefel Uwch a gwasanaethau Ailalluogi'n cael eu datblygu i gyflenwi gwasanaeth sy'n ddi-dor, yn gymesur ac yn cael ei arwain gan angen.
- bydd gwerth integreiddio pellach a chyd-leoli staff iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei werthuso a'i ddilyn fel y bo'n briodol.
- bydd gwerth datblygiad cyfleuster cam-i-fyny / cam-i-lawr yn y dyfodol i gynnal cyflawniad canlyniadau Gofal Canolraddol yn cael eu hymchwilio.
- Yn unol â Datganiad Safle Ailalluogi'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (2013) – mae datblygiad Strategaeth Ailalluogi ar y cyd, a chyfleoedd ar gyfer cyd-ariannu gwell yn cael eu fforio.

iv) Yn **Ynys Môn**

- bydd y Gwasanaeth Gofal Canolraddol yn cael ei wella yn ei faint a'i gwmpas er mwyn cyfarfod â'r twf yn y galw. Y dyhead yw y bydd oriau gweithredu'r gwasanaeth yn cael eu hymestyn er mwyn derbyn cyfeiriadau gyda'r nos ac ar benwythnosau.
- fe gaiff Gofal Canolraddol, Gofal Lefel Uwch a gwasanaethau Ailalluogi eu datblygu i gyflawni gwasanaeth sy'n ddi-dor, yn gymesur ac sy'n cael ei arwain gan angen.
- fe gaiff gwerth integreiddio pellach a chyd-leoli staff iechyd a gofal cymdeithasol ei werthuso a'i ddilyn fel y bo'n briodol.

**4.7 Ymgysylltu**

Trefniadau cyfredol

i) O fewn y model Ardaloedd rhanbarthol, fe nodwyd Grwpiau Rhanddeiliaid Ardaloedd fel y dull o ymgysylltu'n uniongyrchol â'r boblogaeth, i drafod darpariaeth bresennol ac i nodi angen yn y dyfodol / opsiynau ar gyfer newid.
Fe ddefnyddiwyd y dull yma i ddechrau i drafod newidiadau i iechyd a ddarparwyd gan wasanaethau cymunedol.

ii) Mae Byrddau Gwasanaeth Lleol yn datblygu strategaethau ymgysylltu i alluogi cymunedau lleol i fod yn fwy abl i ddeall gwaith y Byrddau Gwasanaeth Lleol. Yn yr un ffordd, mae strategaethau ymgysylltu a rennir o gwmpas y Cynlluniau Integredig Sengl yn cael eu defnyddio neu eu datblygu.

iii) Mae archwiliad cychwynnol o ddulliau ymgysylltu ac ymgynghori a rennir wedi dechrau drwy grŵp Swyddogion Ymgynghori Gogledd Cymru, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r chwe Awdurdod Lleol ac, yn fwy diweddar, y Bwrdd Iechyd.

iv) Cydnabyddir manteision dull a rennir yn y Canllawiau ynglŷn ag Ymgysylltu ac Ymgynghori ar Newidiadau i Wasanaethau Iechyd[v] sy'n rhagweld y dylai partneriaid y Bwrdd Gwasanaeth Lleol fod yn gwbl ymglymedig ag ymgysylltu ac ymgynghori er mwyn sicrhau fod cynigion y cael eu gweld ac yn cael eu trin o fewn cyd-destun "system gyfan" y ddarpariaeth gwasanaeth cyhoeddus.

v) Yng **Nghonwy**

- mae'r Bwrdd Ardaloedd ar y Cyd (sy'n cyflenwi'r strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles bresennol) yn datblygu strategaeth gyfranogi ar hyn o bryd i sicrhau dull o weithredu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.

vi) Yn **Sir Ddinbych**

- mae yna Grŵp Strategaeth Pobl Hŷn, Grŵp Fy Mywyd i, Fy Ffordd i a chontractau â sefydliadau'r trydydd sector ar gyfer eiriolaeth ac ymgynghori er mwyn hysbysu ansawdd gwasanaeth a datblygiadau. Rydyn ni ar hyn o bryd yn ymgysylltu â grwpiau i archwilio 'Cynnal Annibyniaeth yn Sir Ddinbych', a nodweddir gan 'SID', gŵr hŷn sy'n cynrychioli unigolion sydd ag ystod o wahanol anghenion cymdeithasol, iechyd a gofal a'r ffordd y gall gwasanaethau gynnal ei annibyniaeth a'i les.

vii) Yn **Sir y Fflint**

- fe drawsnewidiwyd gwasanaethau ar gyfer oedolion mewn gofal cymdeithasol yn dilyn ymgysylltu eang â phartneriaid cymunedol.
- mae yna drefniadau amlasiantaeth cadarn i ymgysylltu â phobl hŷn yn Sir y Fflint ac fe ddefnyddir holiadur gwasanaeth ardal i gael gwybodaeth hanfodol gan y gymuned. Mae yna strwythur cadarn mewn Iechyd Meddwl i gynnal ymgysylltiad defnyddwyr gwasanaeth yng nghyflenwad gwasanaeth cyfredol ac yn y dyfodol.
- Mae'n gyffredin i ddefnyddwyr gwasanaeth fod ar baneli i gefnogi penodiadau o fewn meysydd allweddol.

viii) Yng **Ngwynedd**

- Mae proses o ymgysylltu cymunedol â grwpiau o ddinasyddion wedi dechrau'n ddiweddar. Pwrpas hyn yw eu hysbysu o ddatblygiad Un Pwynt Mynediad Integredig (SPOA), rhwng iechyd cymunedol a gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion Gwynedd.

ix) Yn **Wrecsam**

- Mae proses gadarn ar gyfer ymgysylltu cymunedau a defnyddwyr gwasanaeth wedi'i gwreiddio o fewn y swyddogaeth gomisiynu er mwyn gofalu bod lleisiau rhanddeiliaid allweddol yn cael eu clywed a'u hystyried wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau.

x) Yn **Ynys Môn**

- dan y Rhaglen Trawsnewid ar gyfer Oedolion Hŷn, mae trefniadau ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a chymunedau lleol yn cael eu datblygu er mwyn ymgynghori ar gynigion i ail-lunio a datblygu ystod o wasanaethau cymunedol a fydd yn cynnwys gwasanaethau gofal a llety i Bobl Hŷn.

- mae cysylltiadau effeithiol yn bodoli â'r Cyngor Pobl Hŷn er mwyn hyrwyddo trafodaethau ar ddatblygiadau pellach yn y gwasanaeth ac ail-fodelu gwasanaethau dan y Rhaglen Trawsnewid.

- mae yna nifer o gytundebau lefel gwasanaeth â sefydliadau'r 3ydd sector i roi cyngor a chymorth eiriolaeth a fforymau i ddefnyddwyr gwasanaeth.

Bwriad ar gyfer y dyfodol

i) Mae'r angen i adolygu gwaith a ffocws y Grwpiau Rhanddeiliaid Ardal wedi ei nodi ac fe'u trafodir yn y Fforwm Partneriaethau Gwasanaethau Cymunedol. Mae'r grwpiau hyn yn rhoi cyfle ar gyfer dull gweithredu a rennir rhwng y chwe Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd

ii) Fe wnawn archwilio cyfleoedd i ddatblygu ymgysylltiad a chysylltiadau a rennir. Argymhellir, yn rhan o'r newid trawsffurfiol yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, bod strategaeth ranbarthol yn cael ei datblygu i'w chyflenwi dros 3 blynedd i sicrhau cyfathrebu effeithiol, yn cynnwys ystyriaeth o ddefnyddiau addas fel baneri, taflenni deunydd ar gyfer y cyfryngau ac ymgysyllto â chymunedau. Mae hyn i danategu dull gweithredu ar y cyd o ran ymgysylltu cymunedau a gwybodaeth.

iii) Fe wnawn barhau i archwilio a nodi cyfleoedd i ddod â gweithgareddau at ei gilydd ar sbectrwm cyfranogiad – cyfathrebu, gwybodaeth, ymgysylltu ac ymgynghori, penderfyniadau ar y cyd – o fewn trefniadau llywodraethu pob sefydliad.

iv) Mae'r partneriaid i gyd yn ymrwymedig i ddarparu pob gwasanaeth yn yr iaith ddewisol ac i weithrediad Mwy na geiriau… – fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau'r iaith Gymraeg. Mae hyn yn bwysig i wasanaethau y byddwn yn eu comisiynu gan ddarparwyr eraill, yn ogystal â gwasanaethau a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdodau Lleol. Fe geisiwn sicrhau fod gwasanaethau iaith Gymraeg ar gael ble bynnag y bydd hynny'n bosib; gallai mwy o weithio cydweithredol helpu i hwyluso hyn. Rydyn ni hefyd yn ymroddedig i hyrwyddo defnyddio'r iaith a chynnal y diwylliant Cymreig ac fe wnawn ni ymdrechu i sicrhau fod ein strategaethau ar gyfer gweithio integredig yn cynnal ac yn ategu'r ymrwymiadau hyn.

v) Rydyn ni hefyd yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb cyfleoedd a diogelu a hyrwyddo hawliau pawb i gyflawni canlyniadau gwell a gwella bywydau unigolion, cymunedau a phoblogaeth Gogledd Cymru. Mae'n ofynnol i ni, yn ôl y dyletswyddau cydraddoldeb penodol ar awdurdodau yng Nghymru, gynnal Asesiad o Effaith Cydraddoldeb (AEC) ar unrhyw bolisïau neu gynigion a allai effeithio ar grwpiau nodweddiadol a ddiogelir ac i ymgysylltu â'r grwpiau hynny a allai gael eu heffeithio gan y cynigion. Wrth i ni ddatblygu ein syniadau ar y model gofal integredig ar gyfer pobl sydd ag anghenion cymhleth, fe wnawn gynnal asesiad effaith a cheisio ymgysylltu â chynrychiolwyr grwpiau a allai gael eu heffeithio.

**4.8 Trawsffurfio Mynediad**

Trefniadau cyfredol

i) Mae **Conwy**

- yn rhan o'r prosiect rhanbarthol sy'n ymwneud â thrawsffurfio mynediad. Mae yna ddealltwriaeth amlwg fod datblygiad Un Pwynt Mynediad yn sylfaenol i lwyddiant gwasanaethau cymunedol. Mae Conwy wedi ymgymryd ag ymchwil i ystyried mynediad i wasanaethau ac wedi nodi ystod o ganlyniadau a ddymunir a gaiff eu cyflawni yn y 12 – 18 mis nesaf drwy ddull rheoli prosiect.

ii) Yn **Sir Ddinbych**,

- mae yna dîm prosiect wedi bod yn datblygu Un Pwynt Mynediad ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion. Cafwyd cytundeb ar yr hyn gaiff ei gynnwys yng Nghyfnod 1 y datblygiad, er mwyn defnyddio'r hyn a ddysgwyd o hyn i hysbysu dulliau gweithredu lleol a rhanbarthol.

iii) **Sir y Fflint**

- yw'r sefydliad llywyddol ar gyfer y Rheolwr Rhaglen Rhanbarthol ac mae'n datblygu tîm prosiect Un Pwynt Mynediad lleol i fynd â'r datblygiad ymlaen yn lleol.
- Mae trefniadau cyfredol Gwaith Cymdeithasol Ysbytai a strwythurau cyswllt cyntaf yn cynorthwyo mynediad ardderchog i gymorth gofal cymdeithasol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ac ar gyfer cyfeiriadau gan bartneriaid. Yn ogystal mae gofal cymdeithasol oedolion wedi datblygu Hunanasesiad ar gyfer darparu cyfarpar a hynny'n lleihau amseroedd aros ac yn ennyn parch yn gyffredinol.
- Mae hefyd yn gweithio â BIPBC i ddatblygu llwybr cwympiadau ac mae'n ceisio gwneud y ddogfennaeth yn haws i Reolwyr Cartrefi Gofal ei defnyddio.

iv) Mae **Gwynedd**

- â Grŵp Strategol Un Pwynt Mynediad sefydledig (Un Pwynt Mynediad Integredig). Mae Grŵp partneriaeth amlddisgyblaeth hwn yn trawsffurfio mynediad i wasanaethau cymunedol integredig drwy arwain datblygiad yr Un Pwynt Mynediad i Wynedd. Fe wnaethpwyd y penderfyniad i ymestyn cylch gwaith y Grŵp i gynnwys yr agenda integreiddio ehangach yn ddiweddar. Fe sefydlodd y Grŵp Strategol hwn (Tachwedd 2013) grŵp gweithredol Un Pwynt Mynediad ar gyfer Ardal Meirionnydd i ddechrau cyflenwi'r Un Pwynt Mynediad yn y fan a'r lle.

ix) Yn **Ynys Môn**

- Mae Un Pwynt Mynediad wedi ei sefydlu o fewn y System Dyletswydd Gwasanaethau Cymdeithasol i brosesu cyfeiriadau'n dilyn rhyddhau o ysbyty a chyfeiriadau i bob disgyblaeth gymunedol sy'n cynnwys Gwaith Cymdeithasol, Nyrsys Ardal a Therapïau Cymunedol.
- Mae Bwrdd Prosiect Amlasiantaeth wedi ei sefydlu i fwrw ymlaen Rhaglen Waith a gytunwyd i ddatblygu prosesau busnes a chysylltiadau Technoleg Gwybodaeth er mwyn i staff Iechyd allu cyrchu System Wybodaeth Gofal Cymunedol RAISE.

<u>Bwriad ar gyfer y dyfodol</u>

i) Mae Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru, mewn partneriaeth â BIPBC, y sector wirfoddol a'r sector annibynnol, yn symud cynlluniau ymlaen ar hyn o bryd i ddatblygu Pwyntiau Mynediad Sengl Cymunedol, ym mhob ardal awdurdod lleol.

Mae'r rhaglen yma o waith yn cael ei gynnal drwy gyllid a dderbyniwyd drwy Gronfa Gydweithredu Ranbarthol Genedlaethol gyda'r nod o sefydlu pob pwynt mynediad erbyn Ebrill 2016.

Bydd y datblygiad hwn yn hanfodol i gefnogi ein hymrwymiad i ddarparu mynediad cyflym a chydlynol i gyngor a chymorth sy'n cael ei gydlynu dros asiantaethau a bydd yn chwarae rhan barhaus i gynorthwyo pwysau gofal brys.

ii) Yn **Sir Ddinbych**,

- yn ystod Cyfnod 1 bydd yr Un Pwynt Mynediad Integredig yn:
  --prosesu cyfeiriadau i wasanaethau gofal cymdeithasol cymunedol i gynorthwyo rhyddhau trigolion Sir Ddinbych o ysbyty (hyn i gynnwys cyfeiriadau am Ofal Lefel Uwch, Tîm Nyrsio Ardal y Rhyl, gwasanaethau Therapi Cymunedol, ysbytai cymunedol.
  --cydlynu ymateb gwasanaeth yn ôl anghenion yr unigolyn.
  --hysbysu'r sawl sy'n cyfeirio a phob gwasanaeth o ba wasanaethau eraill fydd yn cymryd rhan, gyda manylion pob cydlynydd gofal, lle bydd hynny'n briodol, pan wneir cyfeiriadau lluosog ar gyfer claf/defnyddiwr gwasanaeth
  --cynnig cyngor ar y ffôn, gwybodaeth a dangos y ffordd (neu gyfeirio fel y bo'n briodol) at wasanaethau cymunedol y sector anstatudol yn Sir Ddinbych.
  --cynnal a datblygu Cyfeiriadur Gwasanaethau ar gyfer Sir Ddinbych, cyhoeddi'r wybodaeth ar wefan Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a bod ynghlwm â datblygiadau gwybodaeth gyhoeddus y dyfodol yn y sir.
  --Cofnodi a dadansoddi gweithgaredd Un Pwynt Mynediad.
- Bydd y gweithwyr Un Pwynt Mynediad yn cael eu cyd-leoli a'u rheoli gan un arweinydd Tîm ond ni fydd eu gwaith wedi ei integreiddio'n llawn. Bydd aelod staff 'iechyd' ar ddyletswydd bob amser i arwain ar gyfeiriadau Iechyd a bydd aelod staff y Gwasanaethau Cymdeithasol ar ddyletswydd i arwain ar gyfeiriadau Gwasanaethau Cymdeithasol.

Bydd pob gweithiwr yn gyfarwydd â gweithdrefnau'r naill a'r llall fel y gellir rhannu gwaith ond fe reolir y baich gwaith yn ôl yr adnoddau sydd ar gael. Fe nodir eithriadau ac fe gaiff capasiti ei fonitro'n ddyddiol gan yr Arweinydd Tîm er mwyn gallu delio â phroblemau ar unwaith.

iii) Yn **Sir y Fflint**

- bydd yr Un Pwynt Mynediad yn adeiladu ar y tîm Cyswllt Cyntaf sydd eisoes yn hen sefydledig.

iv) Yn **Ynys Môn**

- ynglŷn â'r Un Pwynt Mynediad a sefydlwyd o fewn Tîm Dyletswydd y Gwasanaethau Cymdeithasol, mae trafodaethau ar y gweill i wella prosesau busnes drwy ganiatáu i staff Iechyd rheng flaen o ddisgyblaethau allweddol, gael mynediad i system wybodaeth gofal Cymunedol RAISE. Mae'r trefniadau presennol yn prosesu cyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau cymunedol iechyd a gofal cymdeithasol i gynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth sy'n cael eu rhyddhau o ysbyty neu sy'n cael eu cyfeirio drwy wasanaethau cymunedol.
- Bydd Rheolwr Prosiect – a ariennir drwy'r Gronfa Gydweithredu Ranbarthol – yn dechrau ar ei ddyletswyddau yn Ionawr 2014 i fwrw ymlaen â datblygiadau a nodwyd yn y Ddogfen Cychwyn Prosiect sydd wedi ei llunio a'i chymeradwyo gan y Bwrdd Prosiect.

### 4.9 Asesu Pobl Hŷn

<u>Bwriad ar gyfer y dyfodol</u>

Fe wnawn weithredu'r Canllawiau ar Asesu Integredig, Trefniadau Cynllunio ac Adolygu ar gyfer Pobl Hŷn, fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru ar Ragfyr 2<sup>il</sup> 2013, gan gydnabod y cam yma fel catalydd i gefnogi integreiddiad gofal yn ehangach

Rydyn ni'n ystyriol, er mwyn cyflenwi'r Fframwaith newydd, fod angen newid gweithredol a diwylliannol mewn arferion ac efallai mai'r olaf fydd y mwyaf heriol

## 5 . Cyfeiriadau


I. addaswyd o 'Community Based Collaborations', Oregon Centre for Community Leadership 1994

II. Cydweithredu o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, AGGC (Asiantaeth Gwella Gwasanaetha Cymdeithasol) 2013

III. 'Lessons from experience—Making integrated care happen at scale and pace', King's Fund, Mawrth 2013

IV. Mc Cormack et al 2008


V. Canllaw ar gyfer Ymgysylltu ac Ymgynghori ar Newidiadau i'r Gwasanaethau Iechyd, Llywodraeth Cynulliad Cymru

**Continwwm Partneriaeth** **Atodiad 1**

| Lefelau | Pwrpas |
| --- | --- |
| **Rhwydweithio** | * Dialog a dealltwriaeth gyffredin<br>* Tŷ clirio ar gyfer gwybodaeth<br>* Creu sylfaen o gymorth |
| **Cydweithrediad neu Gynghrair** | * Cydweddu anghenion a darparu cydlyniad<br>* Cyfyngu ar ddyblygiad gwasanaethau<br>* Gofalu bod tasgau'n cael eu gwneud |
| **Cydgysylltiad** | * Rhannu adnoddau i ddelio â phroblemau cyffredin<br>* Cyfuno sail adnoddau i greu rhywbeth newydd |
| **Cynghrair** | * Rhannu syniadau a bod yn fodlon tynnu adnoddau o systemau sy'n bod yn barod<br>* Datblygu ymrwymiad am isafswm o dair blynedd |
| **Integreiddiad** | * Cyflawni cydweledigaeth a meincnodau effaith<br>* Adeiladu system ryng-ddibynnol i ddelio â phroblemau a chyfleoedd |

Atodiad 2

## STRWYTHUR LLYWODRAETH AR GYFER GWASANAETHAU INTEGREDIG YN Y GYMUNED




*Fersiwn 5-5/11/13* ⟷ *adrodd uniongyrchol* ↔ ↔ hysbysu

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **13 CHWEFROR, 2014** |
| **TEITL YR EITEM** | **YMCHWILIAD CRAFFU – ADDYSG GYMRAEG** |
| **AELOD CABINET** | **Y CYNGHORYDD SIAN GWENLLIAN** |
| **AWDUR** | **ARWEL E JONES, UWCH REOLWR (COMISIYNU CORFFORAETHOL)** |

1. Ar ôl cwblhau'r gwaith ar yr Ymchwiliad Craffu i Ansawdd Addysg, mae gofyn i'r pwyllgor benderfynu ar faes yr ymchwiliad nesaf yn y maes addysg.

2. Roedd cytundeb bod angen edrych ar y maes Addysg Gymraeg a cafwyd trafodaeth i'r diben hynny yng Nghyfarfod Paratoi diwethaf y pwyllgor hwn. Gofynnwyd i mi lunio briff drafft ar gyfer yr Ymchwiliad a oedd yn ceisio cyfarch dymuniadau aelodau o ran rhoi sylw i ardaloedd penodol tra'n cynnig darlun o'r sefyllfa yn sirol.

3. Mae'r drafft diweddaraf o'r briff ar gyfer yr Ymchwiliad ynghlwm er sylw'r pwyllgor.

4. Gwahoddir y pwyllgor i ystyried y drafft, i gynnig sylwadau arno cyn ei fabwysiadu ac ethol hyd at 6 aelod o'i blith i wasanaethu ar yr Ymchwiliad

**Ymchwiliad Craffu – Addysg Gymraeg**

**Pwrpas yr Ymchwiliad Craffu**

Sefydlir yr Ymchwiliad Craffu gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau er mwyn asesu:

- Sut y gweithredir Polisi Iaith yr Awdurdod ar lawr gwlad mewn ysgolion unigol
- Y graddau y mae'r ddarpariaeth yn gymorth hybu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl Ifanc (y cyswllt efo'r Gwaith Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Gwynedd)

Yn benodol, bydd yr Ymchwiliad yn:-

1. manylu ar weithrediad Polisi Iaith yr Awdurdod yn ysgolion cynradd ac uwchradd dalgylchoedd penodol.

2. gweld sut y cymhwysir elfennau allweddol y polisi ym mholisiau'r gwahanol ysgolion ac yn arbennig o fewn y Cynllun Datblygu Ysgol.

3. gweld sut y gweithredir arweiniad a gofynion "*Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg"* ymhob ysgol.

4. gweld sut y gweithredir arweiniad a gofynion "*Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd*"

**Trefn y Gwaith**

Bydd yr Ymchwiliad yn ceisio darlun sirol ar y mater ond yn gweithredu fesul dalgylch gan ddatblygu model gweithredu ar gyfer edrych ar ddalgylch a fydd yn cynnwys:-

a) Sefydlu dealltwriaeth o:-

- batrwm ieithyddol o fewn y dalgylch ar sail ystadegau Cyfrifiad ac ysgolion unigol
- strwythur addysgol ardal y dalgylch a chanfyddiad rhieni ac eraill o natur ieithyddol ysgol
- berthynas ysgolion â'i gilydd o safbwynt y Gymraeg
- y defnydd a wneir o'r Canolfannau Iaith
- y defnydd a wneir o'r Gymraeg yn y dosbarth, ar y coridor, yn y ffreutur, ac ar y buarth
- weithgareddau a gynhelir er mwyn dathlu a hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Gymraeg a Chymreig
- flaenoriaethau strategol ieithyddol ar gyfer yr ardal (yng nghyd-destun datblygiad Strategaeth Iaith Gwynedd)

- y cyd-destun lleol o ran gwaith ieithyddol cymunedol
- cyraeddiadau ieithyddol plant y dalgylch
- arferion da

b) Cyfweld y canlynol i adnabod y sefyllfa ar lawr gwlad:-

- Amrediad o Benaethiaid Ysgolion (Cynradd ac Uwchradd)
- Cyd-lynydd Iaith Cynradd y Dalgylch a Chydlynwyr Iaith yr Ysgol(ion) Uwchradd
- Amredaid o athrawon
- Gwaith grwpiau ffocws gyda rhieni a disgyblion ysgol am addysg Gymraeg a'u defnydd o'r iaith o fewn yr ysgol

c) Llunio argymhellion ar gyfer gwella cysondeb ac ansawdd y ddarpariaeth addysg Gymraeg o fewn y dalgylch yn awr ac i'r dyfodol

DS Awgrymir y dylid canolbwyntio i ddechrau ar ardal Bangor ac ardal arfordir Meirionnydd a Thywyn ar ôl hynny

DRAFFT